

Adroddiad Blynyddol Gofal Cymdeithasol Conwy 2021-2022

Jenny Williams

Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol
ac Addysg

gofal.cymdeithasol@conwy.gov.uk



**Sir Conwy, yr amgylchedd iawn i fod yn ddiogel,
yn iach ac yn annibynnol**

**Conwy County, the right environment to be safe,
healthy and independent**

Rhagair

Croeso i adroddiad blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Conwy, sy'n edrych ar ein perfformiad yn ystod 2021-22 ac amlygu ein blaenoriaethau ar gyfer 2022-23. Mae'r adroddiad yn dangos sut rydym wedi hybu lles a'r modd y sicrhawyd safonau lles. Rydym yn cyfeirio at feysydd datblygu newydd, ac yn edrych eto ar yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud yn yr adroddiad blynyddol diwethaf, yn hytrach na cheisio cyfeirio at *bob* elfen o'n gwaith. Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru lunio adroddiad blynyddol ac mae'n cyd-fynd ag wyth safon ansawdd cenedlaethol y canlyniadau lles.



Mae pob unigolyn yn bartner cyfartal sydd â llais, dewis a rheolaeth dros eu bywydau ac maent yn gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw.



Mae arweinyddiaeth effeithiol yn amlwg ar bob lefel gyda gweithlu hynod fedrus a chymwys a gefnogir yn dda yn rhannu'r un weledigaeth yn eu gwaith



Mae'r angen am ofal a chefnogaeth yn cael ei leihau a'r cynnydd o ran anghenion yn cael ei atal, tra'n sicrhau bod y canlyniadau gorau posibl yn cael eu sicrhau i bobl



Mae cadernid o fewn ein cymunedau yn cael ei hybu ac mae pobl yn cael eu cefnogi i gyflawni eu potensial drwy annog a chefnogi pobl sydd angen gofal a chefnogaeth, gan gynnwys gofawyr, i ddysgu, datblygu a chyfrannu at gymdeithas



Mae partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a darparu canlyniadau cynaliadwy, cwbl integredig, o ansawdd uchel, i bobl



Mae pobl yn cael eu hannog i gyfrannu at ddyluniad a darpariaeth eu gofal a'u cefnogaeth fel partneriaid cyfartal



Mae pobl yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod a mathau eraill o niwed



Mae pobl yn cael eu cefnogi i reoli eu lles yn weithredol a gwneud eu penderfyniadau deallus eu hunain fel y gallant gyflawni eu llawn botensial a byw'n annibynnol cyn hired â phosibl

Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud

Yma byddwn yn edrych yn ôl ar y meysydd gwaith roeddem yn bwriadu eu cyflawni yn ystod 2021-22, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn a ddigwyddodd.

Cynllun peilot y Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaethol

Y llynedd buom yn sôn am gynllun peilot Canolfan Ddiogelu Amlasiantaethol, lle bydd swyddogion o'r gwasanaethau Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Heddlu Gogledd Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i ddiogelu oedolion a phlant yng Nghonwy. Cafodd y cynllun peilot ei lansio ym Mehefin 2021, gan brosesu adroddiadau diogelu oedolion yn unig yn y lle cyntaf, ac yna adroddiadau plant yn ddiweddarach ym mis Tachwedd.

Rydym eisoes yn gweld manteision gweithio mewn ffordd amlddisgyblaethol, gan fod cydweithio'n cynnig:

- Trefn well i lunio penderfyniadau ar sail gwybodaeth drwy gael cyfuniad o wybodaeth am bob asiantaeth.
- Dull 'y darlun ehangach' sy'n sicrhau bod pob ffactor wedi cael ei hystyried yn ystod y broses sgrinio pan dderbynnir adroddiadau am unigolion sydd mewn perygl.
- Llai o oedi, a fyddai'n digwydd yn y gorffennol pan fyddai penderfyniadau'n cael eu gwneud ar eu pen eu hunain, neu os byddai'r wybodaeth yn anghyflawn.
- Ffyrdd o weithio mwy effeithiol ac effeithlon.
- Nodi pryderon sy'n cael eu hailadrodd a fyddai heb gael eu canfod am gyfnod hirach yn y gorffennol.

Yn y dyfodol fe hoffem gynyddu ein cydleoliadau wyneb yn wyneb yn y swyddfa, ac yn benodol caniatáu i Ymchwilydd Heddlu Gogledd Cymru weithio ochr yn ochr â'u cydweithwyr yn yr Awdurdod Lleol er mwyn ei gwneud yn haws rhannu gwybodaeth. Wrth i ni ddechrau Cam Dau y cynllun peilot, rydym yn gobeithio y gallwn ni groesawu asiantaethau eraill, a bwriadwn gysylltu â'r adran Addysg, y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a'r gwasanaeth Iechyd i benderfynu pa gyfraniadau y gallen nhw eu gwneud i'r Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaethol.

Rhoi ap 'Mind of My Own' ar waith

Yn adroddiad y llynedd fe ddywedom wrthyfch am ein cynlluniau i gyflwyno ap 'Mind of My Own' sy'n rhoi cyfle i blant a phobl ifanc ddweud eu dweud a lleisio'u barn (yn ogystal â dulliau cyfathrebu eraill). Lansiwyd yr ap yn 2021 ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n dod i gysylltiad â'n gwasanaethau. Gellir defnyddio'r apiau ar ffôn clyfar, llechen neu gyfrifiadur personol/gliniadur. Gall plant mor ifanc â thair oed ddefnyddio'r apiau a gellir naill ai cefnogi plant a phobl ifanc i'w defnyddio neu gallan nhw barhau ar eu pen eu hunain. Mae'r ffigyrau'n awgrymu bod nifer dda'n defnyddio'r ap ac rydym eisoes yn gweld canlyniadau gwell, er enghraifft, ymgysylltiad gwell gyda phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, mwy o ddulliau cyfathrebu i asesu diogelwch plant, a dulliau ymgysylltu mwy modern a dulliau eraill a ffefrir.

Beth oedd yr heriau?

Y prif heriau a welwyd oedd hybu defnydd o'r apiau ymhlith ystod oedran eang o blant a phobl ifanc, a sicrhau bod yr apiau'n cefnogi ein gwaith gyda phlant a theuluoedd er mwyn cryfhau llais y plentyn. Serch hynny, ers mis Mehefin 2021, rydym wedi gweld cynnydd graddol yn nifer y plant ac aelodau staff sy'n defnyddio'r apiau.



Beth nesaf?

Rydym yn trefnu sesiynau hyfforddi a fydd yn dechrau'n fuan. I godi mwy o ymwybyddiaeth ymhlith staff, rydym wedi creu tudalen ar y fewnwyd i ganfod rhagor o wybodaeth am 'Mind of My Own', ynghyd â dolenni i staff gadw lle ar sesiynau hyfforddi. Rydym wedi cofrestru ar gyfer cynllun 'Mind of My Own' am ddwy flynedd, ac rydym yn gobeithio gwerthuso'i effeithiolrwydd yn ystod y cyfnod hwnnw.

Canoli dulliau mewnbynnu absenoldeb gan y Ganolfan Staffio

Y tro diwethaf fe soniom fod y Ganolfan Staffio wedi ei chreu er mwyn ymateb i'r angen i gasglu data staff, yn enwedig cyfraddau absenoldeb staff, o ganlyniad i effaith pandemig Covid-19. Cafodd y Ganolfan Staffio ei chreu er mwyn sicrhau bod gennym ddigon o staff i ddarparu gwasanaethau ar y rheng flaen pe bai nifer fawr o achosion yn codi. Dros flwyddyn yn ddiweddarach, mae'r Ganolfan Staffio bellach yn rhan annatod o'n gwaith arferol ac mae'n rhan o lwyth gwaith tîm Cymorth Busnes y Gweithlu. Mae'r tîm nawr yn gyfrifol am fewnbynnu pob absenoldeb staff dros y gwasanaeth cyfan.

Defnyddio staff banc i ddarparu cymorth ychwanegol

Mae'r pandemig wedi creu prinder brys ac annisgwyl o weithwyr gofal mewn cartrefi gofal ledled Gogledd Cymru. Fel rhan o femorandwm o ddealltwriaeth gyda BIPBC, cytunwyd y byddai staff banc BIPBC yn cael eu defnyddio i gefnogi cartrefi gofal. Conwy fu'n arwain ar ran awdurdodau lleol Gogledd Cymru er mwyn gweithio gyda BIPBC i sefydlu'r trefniadau hyn.

Beth nesaf?

Rydym yn gweithio tuag at ddatblygu asiantaeth gofal cymdeithasol ranbarthol sy'n ymgorffori staff banc BIPBC. Byddai hyn yn helpu i liniaru prinder staff mewn unrhyw sefyllfaoedd o argyfwng yn y dyfodol, a chryfhau'r gweithlu. Rydym yn parhau i gwrdd â'n cydweithwyr yn BIPBC er mwyn gweithio ar bapur dewisiadau ar gyfer y Bwrdd Gweithlu Rhanbarthol, a chaiff ei gyflwyno yng nghyfarfod y Bwrdd yn fuan.

Mabwysiadau Cod Ymarfer a Fframwaith Rheoli Perfformiad newydd Llywodraeth Cymru

Rydym eisoes wedi dweud wrthyhch am God Ymarfer a Fframwaith Rheoli Perfformiad newydd Llywodraeth Cymru. Mae'r Cod a'r Fframwaith Perfformiad newydd wedi cael eu rhoi ar waith ers mis Ebrill 2020. Mae'r fframwaith yn cynnwys set newydd o fetrigau perfformiad cenedlaethol statudol, sy'n disodli ein dangosyddion blaenorol. Mae'n ofynnol i ni gyflwyno adroddiad am y metrigau hyn i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn. Dros y deuddeg mis diwethaf, rydym wedi gwneud llawer o waith i sicrhau bod ein system rheoli cleientiaid yn gallu casglu ac adrodd am y wybodaeth sydd ei hangen. Mae ein prif feysydd gwaith wedi canolbwyntio ar lunio'r adroddiadau angenrheidiol er mwyn casglu'r wybodaeth a sicrhau bod ein data'n gywir. Rydym hefyd wedi trafod gyda Llywodraeth Cymru os oedd angen esboniad neu ganllawiau pellach.

Mae'r Fframwaith Rheoli Perfformiad newydd nawr wedi cael ei ymgorffori yn ein prosesau busnes fel rhan o'n trefn arferol. Rydym yn parhau i lunio adroddiadau ar gyfer y metrigau newydd yn rheolaidd er mwyn sicrhau cywirdeb data a monitro perfformiad ar lefel leol.

Prosiect Datblygu Gwasanaethau Plant

Rydym eisoes wedi sôn am bwrpas Prosiect Datblygu Gwasanaethau Plant. Y nod yw rhoi newidiadau ar waith er mwyn sicrhau gwasanaeth diogel, effeithiol ac ariannol gynaliadwy. Mae'r cynllun prosiect yn canolbwyntio ar bedair thema:

- Gweithlu ac ymarfer
- Lleihau'r niferoedd cynyddol o Blant sy'n Derbyn Gofal
- Y gallu i ddad-uwchgyfeirio plant sydd ag anghenion cymhleth
- Sicrhau bod cymorth a lleoedd digonol, sefydlog o ansawdd uchel ar gael i Blant sy'n Derbyn Gofal.

Gweithlu ac Ymarfer

Ym maes Gweithlu ac Ymarfer, gwelwyd cynnydd mewn nifer o ffrydiau gwaith, yn cynnwys dechrau ein Canolfan Ddiogelu Amlasiantaethol. Byddwn yn canolbwyntio ar y meysydd hyn ar wahân yn ddiweddarach yn yr adroddiad. Rydym wedi gweithredu model newydd y Tîm Maethu a'r Tîm Unigolion Cysylltiedig. Mae'r timau yn eu lle ac yn darparu'r gwasanaeth sydd wedi'i ailfodelu. Drwy ddatblygu'r gwasanaeth hwn rydym yn disgwyl gweld llai o blant sy'n byw gyda theulu neu unigolion cysylltiedig yn destun Gorchmynion Gofal.

Lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal

Wrth leihau nifer cynyddol y Plant sy'n Derbyn Gofal, rydym wedi datblygu Polisi Aduno. Mae'r polisi'n amlygu pa mor bwysig yw sicrhau, lle bo hynny'n briodol, bod plentyn yn cael ei aduno gyda'i deulu, a manylion am ba bryd y dylid ystyried hyn. Mae'r polisi wedi'i lunio a


chynhelir ymgynghoriad yn ei gylch yn sgil nifer o newidiadau polisi cenedlaethol.

Mae sicrhau bod mwy o leoliadau maethu ar gael yn un o flaenoriaethau'r awdurdod. Ledled y rhanbarth, gwelir gostyngiad yn nifer y bobl sy'n mynegi diddordeb mewn maethu. Crëwyd [brand rhanbarthol newydd](#) gan Maethu Cymru ym Medi 2021 a oedd yn cynnwys ymgyrch deledu. Rydym yn disgwyl i weld effaith yr ymgyrch genedlaethol hon, ac yn parhau gyda'n hymgyrch farchnata ein hunain ar yr un pryd.

Y gallu i ddad-uwchgyfeirio plant sydd ag anghenion cymhleth

Rydym wedi datblygu Gwasanaeth Cryfhau Teuluoedd ar gyfer Anghenion Cymhleth ac Ar Ymyl Gofal. Mae'r tîm yn ei le ac yn darparu'r gwasanaeth sydd wedi'i ailfodelu. Rydym yn disgwyl y bydd mwy o deuluoedd yn derbyn ymyraethau prydlon ac felly'n cryfhau eu gwytnwch a datblygu eu hatebion eu hunain.

Rydym wedi gweithredu Model Cefnogaeth Therapiwtig Cam i Fyny / Cam i Lawr ar gyfer Anghenion Cymhleth. Mae therapydd chwarae allanol hefyd wedi cael ei recriwtio dros dro tan fis Mawrth 2022. Ceir nifer o ganlyniadau disgwyliedig, megis creu rhaglen dysgu a datblygu ar gyfer gweithwyr cymdeithasol a gofawyr, ac uwchsgilio gweithwyr cymdeithasol i ddefnyddio dulliau therapiwtig.



Sicrhau bod cymorth a lleoedd digonol, sefydlog o ansawdd uchel ar gael i Blant sy'n Derbyn Gofal

Er gwaethaf oedi gyda chamau cyntaf y prosiect, mae'r tîm yn parhau i weithio gyda'r plant mwyaf cymhleth a'u teuluoedd ym mhob rhan o Gonwy a Sir Ddinbych, gan anelu at atal llety hirdymor a chadw teuluoedd gyda'i gilydd.

Rydym yn anelu at gynyddu dewisiadau llety 'symud ymlaen' i rai sy'n gadael gofal. Cynhelir dadansoddiad ar hyn o bryd er mwyn canfod faint o lefydd sydd gennym fel Awdurdod yn y ddarpariaeth llety sydd: (a) ar gael i blant 16 ac 17 oed (rhai sy'n gadael gofal a rhai ifanc sy'n ddigartref) a'r nifer a lenwir gan Blant sy'n Derbyn Gofal (b) ar gael i oedolion 18-25 oed ac, o'r rhai hynny, faint sydd wedi'u llenwi gan rai sy'n gadael gofal. Mae dogfen weithio wedi ei chreu ar gyfer pob person ifanc rhwng 16 a 18 oed, i ystyried y sefyllfa dai bresennol ac anghenion tai yn y dyfodol. Bydd yn cael ei hadolygu bob chwarter.

Unedau Llety i Unigolyn Sengl

Yn ein hadroddiad diwethaf, fe wnaethom gyfeirio at y diffyg llety i bobl ifanc fyw ynddyn nhw yn y brifysgol yn ystod y gwyliau, yn ogystal â diffyg llety seibiant ar gyfer lleoliadau 'Pan fydda i'n Barod'. Gall diffyg llety addas arwain at orfod aros mewn gwely a brecwast. Fe wnaethom lunio cyswllt gyda Chartrefi Conwy i fod yn rhan o'u cynllun Passivhaus, sy'n cynnwys wyth o unedau llety i bobl sengl. Fe wnaeth y Tîm Ymgynghori Personol dreialu un uned. Mae'r POD nawr yn rhan o'n dewisiadau llety sydd ar gael i bobl sy'n gadael gofal ac sydd angen llety a chymorth. Mae gennym berson ifanc yn y pod ar hyn o bryd a fu'n byw mewn gwely a brecwast argyfwng cyn hynny. Roedd byw yn y gwely a brecwast wedi effeithio ar ei iechyd meddwl oherwydd yr her o gwblhau tasgau dyddiol megis coginio. Mae'r person ifanc wrth ei fodd gyda'r POD ac mae'n

teimlo bod cael rhywle i goginio a byw ynddo heb unrhyw beth i amharu arno (megis sŵn) wedi helpu ei les a'i iechyd meddwl yn fawr. Mae'r person ifanc wedi gallu canolbwyntio ar ymgysylltu â gwasanaethau megis Therapi Galwedigaethol.



Beth yw'r heriau?

Yn ystod cyfnodau cynnar y prosiect, roeddem yn wynebu heriau o ran sicrhau bod gennym y trwyddedau cywir gan mai dyma'r tro cyntaf i'r Gwasanaeth Pobl Ddiamddiffyn gynnal prosiect o'r fath.

Oherwydd dyluniad y POD, bu'n rhaid i ni ymgorffori rhai elfennau megis peidio â drilio na gwneud tyllau yn y waliau gan y byddai hyn yn peryglu effeithlonrwydd a chynaliadwyedd y POD.

Bu'n rhaid cydbwyso rhywfaint hefyd o ran y galw ac amserlenni. Er enghraifft, mae'r person ifanc yn y POD wedi cael fflat newydd ar gyfer Mai 2022 yn y gobaith y bydd gennym berson ifanc yn dychwelyd o'r brifysgol ym Mehefin 2022.

Beth nesaf?

Byddwn yn parhau i adolygu Strategaeth Llety Pobl Ddiamddiffyn. Bydd y gwasanaeth yn parhau i edrych ar ffyrdd arloesol i ddiwallu anghenion llety a chydweithio gyda sefydliadau gwahanol. Er enghraifft, rydym ar hyn o bryd yn cydweithio ar brosiect gyda Gwasanaethau Anabledd a Thai Gogledd Cymru yn Llanrwst. Neilltuwyd fflat un ystafell wely ar gyfer y Gwasanaeth Pobl Ddiamddiffyn ym mhrosiect anabledd Ysgol Llanrwst.

Ail-lansio'r gwasanaeth rhandiroedd

Yn adroddiad y llynedd, fe soniom am welliannau i'r gwasanaeth rhandiroedd sydd wedi cael ei gynnal am gryn amser o fewn y Gwasanaeth Pobl Ddiamddiffyn. Serch hynny, oherwydd pandemig Covid-19 a sawl cyfnod clo, bu'n rhaid i'r gwasanaeth ohirio gwaith grŵp, gan ganiatáu i'r gweithwyr cefnogi ddatblygu'r gwasanaeth.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Gweithwyr Ymyrryd a Chefnogi o fewn y Tîm Pobl Ddiamddiffyn wedi gweithio'n hynod o galed i gynnal y rhandiroedd a sicrhau eu bod yn cynnig hafan ddiogel i'r unigolion sy'n eu defnyddio. Ar adegau, bu'n rhaid cau'r rhandiroedd i unigolion oherwydd Covid-19. Rydym wedi cynnal asesiad risg a'i adolygu'n barhaus ochr yn ochr â chanllawiau'r llywodraeth.

Cafodd y rhandiroedd eu hailagor yn ddiweddar ac ar hyn o bryd mae gennym bedwar unigolyn yn ymweld yn rheolaidd ac yn defnyddio'r rhandir er mwyn helpu eu lles corfforol a meddyliol.

Beth yw'r heriau?

Yr her fwyaf oedd y cyfyngiadau Covid-19 parhaus ynghylch cyswllt wyneb yn wyneb. Mae hyn wedi atal unigolion rhag gallu mynd i'w rhandiroedd ac mae staff gwasanaeth Pobl Ddiamddiffyn wedi bod yn eu cynnal yn y cyfamser.

Beth nesaf?

Byddwn yn parhau i adolygu ein hasesiadau risg yn unol â chanllawiau'r llywodraeth. Bydd y rhandiroedd yn cael eu hailagor yn llawn, a bydd y Tîm Lles Meddyliol yn dechrau eu defnyddio fel rhan o'u gwaith therapiwtig gydag unigolion.

Rydym yn edrych ymlaen at gynllunio sesiynau coginio am fwyta'n iach gydag unigolion, gan ddefnyddio bwyd a dyfir yn y rhandiroedd.



Crynodeb o Berfformiad gan y Cyfarwyddwr

Croeso i adroddiad y Cyfarwyddwr, lle byddwn yn edrych yn ôl ar 2021/22. Rydym yn raddol yn gadael sefyllfa o gynllunio brys ac yn codi'n golygon tuag at 2022/23 a rhaglen waith uchelgeisiol.

Mae gennym amryw o heriau a ddaeth i'r amlwg dros y flwyddyn ddiwethaf ac sy'n parhau i effeithio arnom ni. Mae problemau staffio'n creu pwysau ym mhob maes gwasanaeth, sy'n adlewyrchu'r effeithiau a welwyd ledled y DU. Gwneir ymdrechion sylweddol i ganolbwyntio ar recriwtio a chadw'r gweithlu, a hoffwn ddiolch yn arbennig i Dîm y Gweithlu sydd wedi gweithio'n galed i ddatblygu ffyrdd arloesol o ddenu pobl i swyddi allweddol.

Mae rhai o'r meysydd amlycaf yn yr adroddiad hwn yn cynnwys datblygu ein Canolfan Ddiogelu Amlasiantaethol. Dyma enghraifft wych o ddefnyddio adnoddau'n effeithlon, gan ganolbwyntio ar gyd-leoli a gweithio mewn partneriaeth. Rydym yn gweld manteision gallu llunio penderfyniadau diogelu effeithiol a phrydlon ar y pwynt derbyn gwasanaethau.

Mae gan y Gwasanaeth Anabledd bellach enw da haeddiannol iawn am ddarparu gwasanaethau o ansawdd gydag athroniaeth gyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Rydym yn ymledu'r dull hwn i'n Canolfannau Teulu ac rydym yn gobeithio y gwelwn ni fanteision Gweithwyr Teulu Anabledd dynodedig wrth symud ymlaen.

Bu'r Gwasanaeth Lles Cymunedol yn achubiaeth i lawer o unigolion drwy gydol y pandemig, ac er y cafwyd ymateb cymysg i'r hyn a gynigwyd ar-lein, rydym yn falch o allu cynnig rhaglen lawn o sesiynau wyneb yn wyneb.

Rydym wedi derbyn cymorth i gael nifer o Weithwyr Cefnogi Dementia ac maen nhw wedi bod yn werthfawr iawn er mwyn targedu cymorth a chefnogaeth gynnar ar gyfer rhai sy'n dioddef yn sgil Dementia. Mae hyn yn cyd-fynd â'r amrywiaeth eang o wasanaethau rydym yn eu cynnig yn y Timau Cymunedol i Bobl Hŷn.

Roedd hi'n flwyddyn lwyddiannus ar y cyfan, ac rydym yn edrych ymlaen at ddatblygu ein hystod o ddewisiadau llety sydd wir eu hangen. Mae angen cyflenwad o leoliadau o ansawdd da ar frys, yn enwedig i blant, ac rydym yn awyddus i ddatblygu ein cyfres ein hunain o ddarpariaeth gofal preswyl.

Hoffwn ddiolch o galon i staff am eu gwynwch a'u hymroddiad parhaus i wasanaethau Gofal Cymdeithasol yng Nghonwy. Mae wir yn brawf o'u hagwedd gadarnhaol a'u parodrwydd i feddwl yn greadigol, sy'n rhoi enw mor dda i ni.

Jenny

Jenny Williams
Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol ac Addysg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy



Cynnwys

Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud	3
Crynodeb o Berfformiad gan y Cyfarwyddwr	8
Sut mae pobl yn dylanwadu ar ein gwasanaethau?	10
Safon Ansawdd 1: Mae pob unigolyn yn bartner cyfartal sydd â llais, dewis a rheolaeth dros eu bywydau ac maent yn gallu cyflawni'r hyn sydd o bwys iddyn nhw.....	12
Safon Ansawdd 2: Mae arweinyddiaeth effeithiol yn amlwg ar bob lefel gyda gweithlu hynod fedrus a chymwys a gefnogir yn dda yn rhannu'r un weledigaeth yn eu gwaith.....	15
Safon Ansawdd 3: Mae'r angen am ofal a chefnogaeth yn cael ei leihau a'r cynnydd o ran anghenion yn cael ei atal, tra'n sicrhau bod y canlyniadau gorau posibl yn cael eu sicrhau i bobl.....	20
Safon Ansawdd 4: Mae cadernid o fewn ein cymunedau yn cael ei hybu ac mae pobl yn cael eu cefnogi i gyflawni eu potensial drwy annog a chefnogi pobl sydd angen gofal a chefnogaeth, gan gynnwys gofalwyr, i ddysgu, datblygu a chyfrannu at gymdeithas	24
Safon Ansawdd 5: Mae partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a darparu canlyniadau cynaliadwy, cwbl integredig, o ansawdd uchel, i bobl.....	38
Safon Ansawdd 6: Mae pobl yn cael eu hannog i gyfrannu at ddyluniad a darpariaeth eu gofal a'u cefnogaeth fel partneriaid cyfartal.	45
Safon Ansawdd 7: Mae pobl yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod a mathau eraill o niwed	52
Safon Ansawdd 8: Mae pobl yn cael eu cefnogi i reoli eu lles a gwneud eu penderfyniadau deallus eu hunain fel eu bod yn gallu cyflawni eu llawn botensial a byw'n annibynnol am gyn hired â phosibl.....	60
Sut rydym yn cyflawni ein gwaith	66
Fframwaith Rheoli Perfformiad.....	75
Edrych ymlaen at 2022-23 a thu hwnt	77
Manteisio ar ragor o wybodaeth a dogfennau allweddol.....	82
Pryderon am unigolyn.....	83

Sut mae pobl yn dylanwadu ar ein gwasanaethau?

Arolygon ac Ymgynghoriadau

Rydym wedi parhau i ofyn am adborth gan bobl sy'n derbyn gofal a chefnogaeth gennym ni er mwyn i ni allu monitro ein perfformiad a gwella gwasanaethau lle bo angen. Eleni, gan ein bod wedi canolbwyntio ar ymateb i bandemig Covid-19, ni wnaethom gynnal yr arolwg dinasyddion blyneddol, fodd bynnag, fe welwch enghreifftiau o arolygon ac ymgynghoriadau eraill drwy gydol yr adroddiad hwn.



Cwynion a chanmoliaeth am ein gwasanaethau


Mae'r rhain yn rhoi adborth uniongyrchol i ni gan bobl sy'n derbyn ein gwasanaethau, a'u teuluoedd. Maent yn tynnu sylw at feysydd lle rydym

yn gwneud yn dda, a hefyd lle gallwn ni wella ein harferion. Mae cael cwynion yn golygu y gallwn ni:

- Eu cydnabod yn gyflym pan fyddwn yn gwneud camgymeriadau
- Eu hunioni ac ymddiheuro lle bo'n briodol
- Sicrhau ein bod yn dysgu gwersi o'r cwynion

Oherwydd y ffordd rydym yn adrodd ar gwynion a chanmoliaeth ym maes gofal cymdeithasol, rydym yn rhoi crynodeb i chi o'n perfformiad yn ystod 2020-21.

Derbyniodd yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol gyfanswm o 16 cwyn ffurfiol yn ystod 2020-21. Mae'r rhain yn gwynion (Cam 1 a Cham 2) a dderbyniwyd ac a ddatryswyd yn ystod y flwyddyn adrodd. Mae'r nifer yn is na'r flwyddyn flaenorol, ac yn dilyn tuedd o ostyngiad yn nifer y cwynion dros y pum mlynedd ddiwethaf yn y gwasanaethau plant ac oedolion.



Mae'n siŵr fod effaith pandemig Covid-19 wedi cael effaith ar nifer y cwynion a wnaed gan unigolion, gan y gwelwyd mwy o ostyngiad mewn cwynion ffurfiol na'r cyfartaledd dros y tair blynedd ddiwethaf.

Fel adran, rydym bob amser yn ceisio datrys cwynion yng Ngham 1 (datrysiad lleol), os nad oedd yn bosibl dod i gytundeb yn anffurfiol. Yn ystod 2020-21, cafodd 14 o'r 16 cwyn eu datrys yng Ngham 1.

Mae yna elfen ariannol sy'n gysylltiedig â phenodi archwilwyr annibynnol i gwblhau proses Cam 2 mewn unrhyw gŵyn. Yn ystod 2020-21 fe wnaethom wario £4,710 ac mae'r swm hwn yn cynnwys symiau a dalwyd i achwynwyr, naill ai fel y cytunwyd gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu am resymau eraill sy'n ymwneud â'r broses gwynion.

O ran amserlenni, cafodd pob cwyn Cam 1 eu cydnabod o fewn dau ddiwrnod gwaith (cydymffurfiaeth o 100%) a chwblhawyd 11 erbyn y dyddiad cau o 15 diwrnod gwaith (cydymffurfiaeth o 78.6%). Cafodd un o'r ddwy gŵyn Cam 2 eu cwblhau erbyn y dyddiad cau o 25 diwrnod gwaith (cydymffurfiaeth o 50%).

Derbyniwyd 69% o'r cwynion gan aelodau o'r teulu, ac roedd y rhan fwyaf yn ymwneud â diffyg cyfathrebu ar ein rhan ni, yn ogystal â materion yn ymwneud â'r gofal a'r cymorth roedden nhw'n eu derbyn, a phryderon ariannol. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud o ran categorïddio themâu er mwyn dadansoddi tueddiadau dros amser, ac edrych ar dueddiadau sy'n codi dro ar ôl tro wrth edrych tua'r dyfodol. Mae cwynion gan ddinasyddion yn rhoi gwybodaeth werthfawr i ni ar sut i wella ein gwasanaethau. Datblygir cynlluniau gweithredu ffurfiol sy'n deillio o argymhellion yn sgil Ymchwiliad Cam 2, neu gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Rydym yn derbyn llawer o ganmolïaeth am y gwasanaethau rydym yn eu darparu yn ystod y flwyddyn, ac nid oedd 2020-21 yn eithriad i hynny. Derbyniodd ein gwasanaethau oedolion 139 achos o ganmolïaeth, ac roedd 82 o'r rhain ar gyfer y Gwasanaeth Pobl Hŷn. Derbyniodd y gwasanaethau plant 41, ac roedd y mwyafrif o'r rhain ar gyfer y Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd ac Ymyrraeth.

Hoffwn ddweud bod y cysur a'r gofal a ddangosodd y tîm tuag atom wedi bod yn anhygoel. Mewn cyfnod pan fyddwn ni wedi drysu'n lân ac yn teimlo'n drist ac yn ansicr, ac rydym yn dal i gael cyfnodau felly, rydym wedi'n synnu gan y didwylledd a'r caredigrwydd a ddangoswyd



Pobl

Safon Ansawdd 1: Mae pob unigolyn yn bartner cyfartal sydd â llais, dewis a rheolaeth dros eu bywydau ac maent yn gallu cyflawni'r hyn sydd o bwys iddyn nhw

Diogelu Rhag Colli Rhyddid

Mae'r tîm Diogelu rhag Colli Rhyddid wedi cynnal dull 'busnes fel arfer' ac mae'r asesiadau wedi parhau yn ystod y pandemig. Fe wnaeth yr Aseswyr Budd Pennaf a'r cartrefi gofal addasu eu harferion er mwyn hwyluso asesiadau dros y we pan nad oedd hi'n ymarferol cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb.

Mae newidiadau sylfaenol hefyd ar y gweill, a symud o Drefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid i'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid newydd, a gynlluniwyd yn wreiddiol ar gyfer mis Ebrill 2022. Cafodd y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid eu cyflwyno yn y Ddeddf Galluedd Meddyliol (Diwygiad) 2019 i ddisodli system Diogelu rhag Colli Rhyddid, ac fe'u lluniwyd er mwyn gosod hawliau a dymuniadau'r bobl hynny wrth wraidd pob penderfyniad a wneir ar golli rhyddid. Yn bennaf oherwydd effaith y pandemig, bydd yn cael ei roi ar waith yn hwyrach, a bydd ymgynghoriad cyhoeddus dros ddeuddeg wythnos yn cael ei lansio'n ddiweddarach yn y flwyddyn.

Er hyn, rydym yn parhau i baratoi ar gyfer y newidiadau i'r system ac rydym wedi defnyddio cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i:

- Brynu Codau Ymarfer ar gyfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol ar gyfer Cartrefi Gofal ac Ymarferwyr.

- Ymestyn oriau gweinyddu'r tîm er mwyn sicrhau bod ein rhestr aros yn gyfredol a bod y broses yn cael ei rheoli mor effeithiol â phosibl.
- Darparu rhaglen hyfforddi ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol Plant ac Oedolion er mwyn diweddarau a meithrin dealltwriaeth gadarn o Alluedd Meddyliol, sy'n mynd i fod yn allweddol wrth roi'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid ar waith wrth edrych tua'r dyfodol.
- Creu oriau ychwanegol o amser BIA i reoli'r asesiadau Diogelu rhag Colli Rhyddid presennol er mwyn bod yn barod i bontio i'r system newydd.

Beth yw'r heriau?

Y prif heriau oedd cynnal awdurdodiadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn ystod y pandemig, pan oedd cartrefi gofal a lleoliadau eraill yn ei chael yn anodd cyflawni eu swyddogaethau craidd. Yn amlwg roedd yna heriau logisteg o ran ymgysylltu â'r cartrefi gofal, creu'r isadeiledd a defnyddio technoleg dros y we er mwyn cynnal asesiadau.

Yn ogystal â hyn, roedd ceisio cynllunio a pharatoi ar gyfer pontio i'r Trefniadau Diogelu Rhyddid, gyda gwybodaeth gyfyngedig am lefel y newid, y codau ymarfer neu hyd yn oed sicrhau dyddiad eglur i'w roi ar waith yn un o'r prif heriau.

Beth nesaf?

Bydd y tîm yn parhau i reoli'r broses Diogelu rhag Colli Rhyddid a rheoli ôl-groniad yr achosion er mwyn parhau i baratoi ar gyfer pontio i'r system Trefniadau Diogelu Rhyddid yn fuan a sicrhau ein bod yn ymateb mor gyflym ac effeithiol â phosibl, ar ôl i'r rhaglen weithredu newydd gael ei hamlinellu.

Cefnogi Pobl ag Anableddau

Mae'r Gwasanaeth Anabledd yn wasanaeth hyd oes sy'n gweithio gydag unrhyw unigolyn sydd ag anabledd hirdymor sy'n effeithio ar ei allu i wneud gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. Mae'r gwasanaeth yn

gyfrifol am gynnal asesiadau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn ogystal â darparu gwasanaethau gofal uniongyrchol drwy ein darpariaeth fewnol.

Yn ystod 2021-2022 rydym wedi parhau i weithio gyda'n partneriaid mewn modd rhagweithiol a chreadigol yn y sector annibynnol a'r trydydd sector er mwyn darparu gwasanaethau rheng flaen o ansawdd uchel i bobl sy'n gymwys i gael gofal a chymorth a reolir. Gwneir hyn mewn amgylchedd lle mae Covid-19 yn parhau i fod yn gryn broblem, ac effeithir ar nifer y staff sydd ar gael yn y sector i'r fath raddau fel na allwn ni bob amser drefnu'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen. Mewn achosion fel hyn rydym wedi gweithio gyda'n partneriaid a chyda'r unigolion a'u teuluoedd i sicrhau eu bod yn cael eu diogelu rhag niwed. O ran gwasanaethau Therapi Galwedigaethol, rydym wedi comisiynu dros 96 o asesiadau codi a symud yn gorfforol gyda darparwr annibynnol.

Ochr yn ochr â'n gweithgareddau gweithredol o ddydd i ddydd, rydym wedi parhau i ddatblygu ein gwasanaethau. Rydym wedi cynorthwyo pobl i symud i fflatiau anabledd Ysgol Maelgwn ac mae'r adborth cychwynnol yn gadarnhaol.

Mae'n braf cael fy lle fy hun, rydw i'n hoffi treulio amser gyda'r bobl eraill sy'n byw yma hefyd. Rydw i'n gallu gwneud pethau drosof fy hun, yn fy amser fy hun, mae'n fwy hamddenol, dim cymaint o straen â lle ro'n i'n byw ynddo o'r blaen.

Defnyddiwr Gwasanaeth


Rydym yn falch ei bod wedi cael fflat, roeddem eisiau ei gweld yn blodeuo a chael yr annibyniaeth hwnnw.

Rhieni

Beth nesaf?

Mae ein grŵp strategol cynllunio llety yn parhau i weithio gyda'n partneriaid Tai i ganfod rhagor o lety er mwyn cynnig gwasanaethau byw

â chymorth newydd. Eleni, mewn partneriaeth â First Choice Housing, byddwn wedi darparu cynllun person sengl ychwanegol ar gyfer unigolyn gydag anghenion cymhleth iawn ac ymddygiad heriol, sydd wedi bod yn byw mewn llety dros dro. Rydym hefyd yn gweithio gyda Chymdeithas Dai Clwyd Alyn i ddarparu tri fflat ar gyfer pobl ddiamddiffyn a phobl anabl yn Llanrwst.



Tîm Teuluoedd Integredig Lleol (LIFT)

Mae LIFT yn dîm arbenigol amlasiantaethol, ymyrraeth gynnar sy'n defnyddio arferion yn seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi teuluoedd sy'n ei chael yn anodd rheoli ymddygiad heriol a/neu niweidiol yn eu cartref. Nod LIFT yw cefnogi teuluoedd:

- sy'n ei chael yn anodd rheoli ymddygiad heriol a niweidiol
- i ddeall gweithredoedd yr ymddygiad heriol
- i ddeall yr hyn sy'n sbarduno'r ymddygiad posibl
- datblygu a chynorthwyo i weithredu cynllun ymddygiad neu gynllun synhwyrdd cadarnhaol

- datblygu rhwydweithiau cefnogaeth gan gymheiriaid a chael mynediad at hyfforddiant drwy sesiynau cydweithredol

Mae lleihau ymddygiad heriol yn debygol o alluogi plant a phobl ifanc i ymgysylltu'n gadarnhaol gyda'u cyfoedion ac oedolion, cefnogi hunan-barch a hyder, a lleihau'r tebygolrwydd o gael anhwylderau iechyd emosiynol.

Mae LIFT yn gweithredu fel ffynhonnell gwybodaeth ar gyfer teuluoedd am dechnegau, offer, gweithgareddau, grwpiau a sefydliadau a allai eu cynorthwyo, yn ogystal â darparu gwasanaethau ymgynghori, hyfforddiant a chefnogaeth i deuluoedd a gweithwyr proffesiynol eraill.

Rhwng Ebrill a Rhagfyr 2021, fe wnaeth y tîm ymdrin â chyfanswm o 184 o atgyfeiriadau (sy'n amlygu'r galw am gymorth i reoli ymddygiad heriol).

Beth oedd yr heriau?


Roedd hi'n her dechrau gyda thîm newydd ar brosiect newydd sbon yn ystod pandemig Covid-19. Roedd hi'n anodd cysylltu gydag aelodau eraill o'r tîm a defnyddwyr y gwasanaeth. Roedd yna hefyd heriau'n ymwneud â datblygu tîm amlasiantaethol oedd â strwythurau sefydliadol a dulliau gweithio gwahanol, a dod ynghyd fel uned gydlynol.

Mae yna hefyd gymhlethdodau'n gysylltiedig â chefnogi teuluoedd i reoli ymddygiad heriol gan nad dyma'r unig broblem yn y teulu fel arfer. Gall teuluoedd hefyd gael trafferth gyda thrawma, tlodi, problemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau. Rydym wedi mabwysiadu dull 'dim drws anghywir' sy'n atal teuluoedd rhag cael eu cyfeirio o un gwasanaeth i'r llall.

Beth nesaf?

Mae LIFT wedi cael cychwyn cadarnhaol a bydd y tîm yn parhau i adeiladu ar eu cynnydd hyd yma, gan ddatblygu'r gwasanaeth a sicrhau ei fod yn cael ei ymgorffori yn yr isadeiledd gofal cymdeithasol. Bydd plant a phobl ifanc yn ei chael yn haws rheoli cerrig milltir datblygiadol


cymdeithasol ac emosiynol a chyflawni'r cyrhaeddiad addysgiadol a ddisgwyllir, i gyd-fynd â'u hoedran a'u gall



Safon Ansawdd 2: Mae arweinyddiaeth effeithiol yn amlwg ar bob lefel gyda gweithlu hynod fedrus a chymwys a gefnogir yn dda yn rhannu'r un weledigaeth yn eu gwaith

Cefnogi ein Gweithlu

Fel rhan o waith recriwtio a chadw ein gweithlu, mae Conwy yn aelod o bartneriaeth MA mewn Gwaith Cymdeithasol ym Mhrifysgol Bangor. Fel rhan o hyn, bob blwyddyn academiaidd rydym yn croesawu 16 o fyfyrwyr gwaith cymdeithasol. Er mwyn galluogi hyn, mae angen i'n gweithwyr cymdeithasol hyfforddi i fod yn Addysgwyr Ymarfer. Dros y deunaw mis diwethaf rydym wedi hyfforddi deg gweithiwr cymdeithasol ychwanegol i weithio fel Addysgwyr Ymarfer. O ganlyniad, mae myfyrwyr gwaith cymdeithasol wedi elwa gan fod amrywiaeth ehangach o leoliadau ar gael.



Rydym hefyd yn falch o gynnig Hyfforddeiaeth Gwaith Cymdeithasol Conwy. Mae hwn ar gael i weithwyr er mwyn eu cefnogi i fod yn weithwyr cymdeithasol cymwys drwy'r BA mewn Gwaith Cymdeithasol a gynigir gan y Brifysgol Agored. Mae'r cynllun yn talu am holl ffioedd y cwrs ac mae'r hyfforddai'n cadw ei swydd a'i gyflog gwreiddiol drwy gydol ei astudiaethau.

Beth yw'r heriau?

Mae'r data mwyaf diweddar sydd gennym yn datgan bod 9% o swyddi ym maes Gwasanaethau Oedolion yn wag ledled Cymru, a bod 13% o swyddi ym maes Gwasanaethau Plant yn wag. Mae hyn yn dangos bod recriwtio a chadw staff yn broblem genedlaethol ac nad yw'n unigryw i unrhyw Awdurdod Lleol penodol. Mae'r un data'n awgrymu bod traean o'r holl swyddi gwaith cymdeithasol gwag yn cael eu llenwi gan weithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso.

Sicrhau bod Plant sy'n Derbyn Gofal yn cael eu cefnogi yn yr ysgol

Eleni gofynnwyd i ysgolion Conwy gymryd rhan mewn arolwg i wneud yn siŵr fod ganddyn nhw swyddog penodol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a bod staff yn y lleoliadau wedi derbyn hyfforddiant mewn amryw o destunau a strategaethau. Gallai ysgolion nodi faint o'u plant a oedd mewn gofal o'r tu mewn ac o'r tu allan i'r sir, faint sydd wedi cael eu mabwysiadu a faint sy'n destun Gorchymyn Gwarchodaeth Arbennig. Mae'r canlyniadau wedi rhoi cipolwg i ni o ba mor effeithiol y gallwn ni gefnogi Plant sy'n Derbyn Gofal yn yr ysgol, ac ym mhle y gwelir bylchau o ran hyfforddiant a datblygiad staff. Byddwn yn parhau i weithio gydag ysgolion er mwyn sicrhau bod Plant sy'n Derbyn Gofal yn derbyn unrhyw gymorth ychwanegol sydd ei angen arnyn nhw, a bod gan staff ysgol y wybodaeth a'r hyder i gefnogi'r plant sydd yn ein gofal gyda'r ddealltwriaeth a'r ymwybyddiaeth angenrheidiol.

Monitro ansawdd ein gwasanaethau mewnol

Er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau gofal cartref mewnol cystal â phosibl, fe wnaethom unwaith eto ofyn am adborth gan ein cydweithwyr sy'n gweithio yn y timau hynny, yn ogystal â'r rhai sy'n ein comisiynu ni neu'n cydweithio â ni yn y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Bwrdd Iechyd. Rydym wedi derbyn sgorau a sylwadau cadarnhaol iawn, sy'n dangos ansawdd uchel y gwasanaethau rydym yn eu darparu i bobl ddiamddiffyn yng Nghonwy, a'r cryfderau a'r ymroddiad yn ein timau staff. Dyma rywfaint o'r adborth a gawsom.

Gofynnwyd i randdeiliaid a chwsmeriaid mewnol ein gwasanaethau gofal cartref mewnol ar gyfer pobl anabl i raddio'r tîm ar sail nifer o elfennau. Nododd 100% o'r ymatebwyr fod ein staff yn gymwys ac yn gallu diwallu anghenion yr unigolion rydym yn eu cefnogi. O ganlyniad, roedd 100% hefyd yn cytuno ein bod yn galluogi'r unigolion hynny i gyflawni eu canlyniadau personol. Cawsom sgôr uchel ymhob elfen o'n gwaith ac roedd y sylwadau gan yr ymatebwyr yn amlygu'r gwerth maen nhw'n ei roi ar y gwasanaeth.

Maen nhw'n addasu eu cymorth i ddiwallu anghenion unigolion ac yn cynnig amryw o weithgareddau...i gefnogi'r rhai sydd â'r anghenion mwyaf heriol ac maen nhw bob tro'n cymryd y cam ychwanegol i gynorthwyo mewn sefyllfaoedd argyfyngus. Mae'r ffordd maen nhw'n defnyddio dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn ogystal â chymorth gweithredol ac ymddygiad cadarnhaol yn ardderchog.

Mae buddion pennaf y defnyddwyr gwasanaeth yn ganolog i'r staff. Dangosir hyn yn y ffordd maen nhw'n cefnogi pob unigolyn maen nhw'n ei gefnogi.



Pobl Hŷn i'n cydweithwyr sy'n gweithio o fewn yr Awdurdod Lleol, y Bwrdd Iechyd Lleol a'r Gymdeithas Tai. Unwaith eto, roedd pob un o'r ymatebwyr yn cytuno bod ein staff yn gymwys ac yn ymateb yn brydlon ac yn briodol i bryderon am unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Nododd 100% ohonyn nhw fod y gwasanaethau Ailalluogi a Diwedd Oes yn diwallu anghenion yr unigolion sy'n eu defnyddio.

Mae'r tîm yn anhygoel ym mhob ffordd, yn y cymunedau gwledig maen nhw'n achubiaeth heb ei hail. Credaf fod y sgiliau, yr ymroddiad a'r gefnogaeth mae'r tîm hwn yn ei roi i'n dinasyddion wedi bod yn anhygoel drwy gydol y pandemig hwn.

Mae gwir sgiliau ac ymroddiad y timau hyn wedi dod yn amlwg yn ystod y pandemig hwn. Teimlaf y dylai CBSC fod yn hynod o falch.

Cawsom sgorau mwy cyffredin am y ffordd rydym yn darparu neu'n rhannu gwybodaeth am ein gwasanaethau yn y maes hwn, felly dyma ryw Beth y gallwn ei wella dros y misoedd nesaf. Roedd y sylwadau

ychwanegol yn cydnabod bod y timau wedi bod dan straen aruthrol dros y misoedd diwethaf, pan oedd y galw'n aml yn fwy na'u capasiti.

Gan mai Llys Elian yw ein hunig leoliad preswyl mewnol ar gyfer pobl hŷn, fe wnaethom ofyn am adborth am y gwasanaeth mae'n ei ddarparu i bobl yng Nghonwy sy'n byw gyda dementia. Cawsom ymatebion gan gydweithwyr yn yr Awdurdod a'r Bwrdd Iechyd Lleol. Teimlai 100% ohonyn nhw ein bod yn dda neu'n dda iawn o ran ymateb i ymholiadau'n brydlon ac yn gwrtais ac wrth ymateb yn brydlon ac yn briodol i bryderon am unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Cytunai'r ymatebwyr i gyd fod y gofal preswyl hirdymor a'r gofal seibiant a gynigir yn Llys Elian yn galluogi preswylwyr i gyrraedd eu canlyniadau personol.

Holwyd beth mae'r lleoliad yn ei wneud yn dda a dyma a ddywedwyd:

Mae'r gwasanaeth a ddarperir wedi'i bersonoli i'r unigolyn. Mae'r wybodaeth am ofal dementia a'r rhyngweithio...gyda defnyddwyr y gwasanaeth yn y lleoliad yn dda. Byddem yn elwa drwy gael mwy o leoliadau fel Llys Elian ble mae gennym fynediad at wasanaethau seibiant, gofal dydd a lleoliadau byrdymor/hirdymor.

Bu'n bleser o'r mwyaf gweithio gyda Llys Elian... Mae ganddyn nhw berthynas eithriadol gyda'u preswylwyr, ac yn siarad Cymraeg pan fo angen. Mae'r cartref bob amser yn lân a chroesawus...ac [maen nhw'n] ceisio sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer eu preswylwyr.

Yn ogystal â gofyn i gydweithwyr mewn timau a sefydliadau eraill am eu hadborth, fe wnaethom ofyn i'n staff sut roedden nhw'n teimlo am y timau maen nhw'n gweithio ynddyn nhw a'r gwasanaeth maen nhw'n ei ddarparu.

Roedd y staff yn y Gwasanaeth Anabledd yn credu'n unfrydol eu bod yn gwrando ar yr unigolion maen nhw'n eu cefnogi ac yn sicrhau bod ganddyn nhw hawliau a dewisiadau.

Rydym yn cynnig dewisiadau a gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Rydym yn addasu ein ffordd o weithio fel bod y person rydym yn ei gefnogi'n deall, fel y gallan nhw wneud eu dewisiadau eu hunain. Rydym yn annog eu hannibyniaeth ac yn eu hannog i ddysgu sut i gefnogi eu hunain.

Cytunai 93% eu bod yn cefnogi unigolion i fyw bywydau llawn, a'u bod yn cefnogi eu hiechyd a'u lles. Teimlai rhai pobl fod cyfyngiadau Covid wedi cyfyngu ar waith wyneb yn wyneb a gwaith grŵp, ac roedden nhw'n edrych ymlaen at allu gwella'r hyn roedden nhw'n ei gynnig i unigolion wrth i'r rheolau gael eu llacio.

Teimlai 100% o'r ymatebwyr eu bod yn cefnogi unigolion i gadw'n ddiogel, ac mae'r sylwadau ychwanegol yn dangos faint o waith sy'n gysylltiedig â dod i adnabod unigolion diamddiffyn a'u galluogi i asesu risg eu gweithgareddau eu hunain a gwella'u hymwybyddiaeth o sefyllfaoedd a allai eu rhoi mewn perygl.

Rydym yn gweithio'n agos gyda defnyddwyr gwasanaeth felly rydym yn ymwybodol o wendidau unigolion. Ar ôl i ni ganfod y rhain, gallwn weithio tuag at eu cefnogi er mwyn cael rhagor o wybodaeth am sut gellir aros yn ddiogel ym mha bynnag sefyllfa sydd ei hangen, e.e. eu hannog i gloi'r drws bob nos, canfod y llwybr mwyaf diogel i fynd i'r siop leol, defnyddio croesfannau i gerddwyr wrth gerdded at y bws, mynediad at rifau ffôn staff ac ati.

Nododd 90% o staff y timau gofal cartref mewnol ar gyfer Pobl Hŷn fod eu gwasanaeth yn dda neu'n ardderchog, gyda sylwadau ategol yn nodi proffesiynoldeb a balchder yn y gwaith arbenigol hwn. Cyfeiriodd rhai

ohonyn nhw at y pwysau yn y galw a'r prinder staff, ond mae yna thema amlwg o gydweithio er budd y defnyddwyr gwasanaeth.

Gan ystyried y pwysau a'r galw sy'n bodoli ar hyn o bryd, teimlaf fod y tîm rwyf yn gweithio ynddo wedi mynd y tu hwnt i'r holl ddisgwyliadau yn eu rôl er mwyn sicrhau y darperir gofal o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Teimlai 100% o'r ymatebwyr fod eu cyfraniad yn y gwaith yn gwneud gwahaniaeth i'r unigolion maen nhw'n eu cefnogi, a cheir llawer o foddhad yn y gwaith drwy eu cefnogi nhw i fod yn annibynnol.

Teimlaf fy mod wedi gwneud gwahaniaeth i fywyd rhywun pan fydda' i'n gadael fy ngwaith. Byddaf yn ceisio meithrin ymddiriedaeth y person fel y gallan nhw rannu unrhyw broblemau neu bryderon gyda mi.

Gofynnwyd i staff Llys Elian am eu profiadau hefyd. Nododd 92% fod y lleoliad yn dda neu'n ardderchog ac, unwaith eto, teimlai 100% eu bod yn gwneud gwahaniaeth i fywydau'r preswylwyr. Mae staff yn falch o gael gweithio yn Llys Elian, gyda rheolwyr sy'n eu cefnogi yn eu swyddi.

Rwy'n gweithio'n galed iawn i wneud yn siŵr fy mod yn darparu gofal da o ansawdd uchel.

Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid

Mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn bartneriaeth amlasiantaethol rhwng Conwy a Sir Ddinbych sydd â chyfrifoldeb statudol dros ddarparu camau ymyrryd a chefnogaeth i bobl ifanc a'u teuluoedd. Mae ein tîm



ymyrryd yn gweithio yn ystod y camau cynnar er mwyn atal ymddygiad gwrthgymdeithasol a bod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol.

Dros y deuddeg mis diwethaf, gwelwyd llawer o weithgarwch yn y gwasanaeth, yn cynnwys arolygiad AEM a byddwn yn trafod hynny'n ddiweddarach yn yr adroddiad. Er enghraifft, dros yr wythnosau diwethaf mae ein pobl ifanc wedi cymryd rhan mewn cynllun peilot Canolfan Presenoldeb Ieuenctid. Nod y Ganolfan yw canolbwyntio ar bobl ifanc drwy ddarparu sesiynau rhyngweithiol ac addysgiadol gyda phynciau a fydd yn eu cefnogi nhw gyda'u dyheadau ar gyfer y dyfodol. Mae pobl ifanc wedi cymryd rhan mewn bocsio a gweithgareddau hamdden adeiladol er mwyn hyrwyddo lles corfforol a meddyliol.

Rydym wedi darparu sesiynau ymwybyddiaeth mewn ysgolion ar destunau megis troseddau gyda chyllyll a chamfanteisio. Rydym hefyd wedi ymateb i'r cynnydd mewn risg ac anghenion mewn ardaloedd targed megis Bae Colwyn, a gweithio ar ddulliau atal er mwyn lleihau gweithgarwch gwrthgymdeithasol sydd wedi gwaethygu ar ôl dychwelyd i normalrwydd ar ôl y pandemig.

Rydym nawr yn darparu sesiynau pêl-droed wythnosol gyda'r gymuned leol ac yn ddiweddar daeth 20 o bobl ifanc i'r sesiynau. Mae'r sesiynau'n cynnig ymarfer corff ac yn cynnig diddordeb sy'n gwyro unigolion oddi wrth weithgarwch gwrthgymdeithasol a chyflawni troseddau, a chynnig diben ac ystyr iddyn nhw.



Atal

Safon Ansawdd 3: Mae'r angen am ofal a chefnogaeth yn cael ei leihau a'r cynnydd o ran anghenion yn cael ei atal, tra'n sicrhau bod y canlyniadau gorau posibl yn cael eu sicrhau i bobl

Sut rydym yn prynu a darparu gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn.

Yn adroddiad y llynedd, fe soniom wrthyfych am Brosiect Trawsnewid Pobl Hŷn, er mwyn gwella'r ffordd mae gwasanaethau gofal cartref yn cael eu darparu yng Nghonwy. Pwrpas hyn yw:

- Sicrhau bod unigolion yn derbyn gwasanaeth hyblyg, modern, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Sicrhau bod darpariaeth y gwasanaeth yn cyd-fynd â newidiadau yn y ddeddfwriaeth a rheolau Gofal Cymdeithasol
- Addasu i'r heriau recriwtio a chadw staff sy'n wynebu'r farchnad gofal yn y cartref.
- Sicrhau bod gwasanaethau proffesiynol yn cydweithio mewn ffordd gyson a chydgyssylltiedig
- Diogelu'r gwasanaeth at y dyfodol ar gyfer y cynnydd a ragwelir yn y galw

Ers y diweddariad diwethaf, cynhaliwyd nifer o weithgareddau ymgynghori er mwyn llywio'r newidiadau sydd angen eu gwneud. Roedden nhw'n cynnwys y materion canlynol:

- Rydym wedi edrych ar wersi a ddysgwyd o'r modelau mae awdurdodau eraill wedi eu rhoi ar waith, a dysgu pa mor bwysig yw sicrhau bod newidiadau'n cael eu cyflwyno'n raddol.
- Rydym wedi cynnal cynllun peilot i weithio mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau gyda 50 o unigolion sy'n derbyn gofal cartref.
- Fe ddysgom nad yw prosesau busnes Conwy yn darparu'r hyblygrwydd sydd ei angen ar gyfer y ffordd newydd hon o weithio a pha mor bwysig yw cael dull cyson.
- Rydym wedi ymgynghori gyda 450 o unigolion allan o 700 sy'n derbyn gwasanaethau gofal cartref ar hyn o bryd drwy gynnal arolwg. Roedd 95.2% o'r rhai a ymatebodd yn fodlon neu'n fodlon iawn gyda'r gofal maen nhw'n ei dderbyn ar hyn o bryd. O'r rhai hynny sy'n anfodlon, roedd nifer o'r rhesymau'n ymwneud ag amser a chysondeb, sydd wedi cael eu hymgorffori yn hyblygrwydd y model newydd, ac yn yr hyfforddiant.
- Fe wnaethom gynnal digwyddiad 'cwrdd â'r prynwr' ar gyfer darparwyr er mwyn esbonio diben y newidiadau rydym yn eu gwneud. Gofynnwyd am adborth am dri chynnig gwahanol, a chynhaliwyd cyfarfodydd un-i-un i ymgynghori ymhellach yn eu cylch.
- Rydym wedi ymgysylltu â staff gweithredol, ymarferwyr, Timau Adnoddau Cymunedol a'r holl dimau eraill sy'n rhan o'r broses, megis Safonau Ansawdd a Sicrwydd, Mân Ddyledwyr ac Asesiadau Ariannol. Rydym wedi cynnwys eu hadborth yn y model newydd, boed hynny'n newid i system TG neu ganfod datrysiad gwell i ateb y math o ymholiadau mae unigolion yn ein ffonio amdanynt amlaf.
- Rydym hefyd wedi ymgynghori gyda rheolwyr allweddol yn BIPBC ac Aelodau i gael eu hadborth ar y newidiadau rydym yn eu gwneud.

Edrychwch ar yr adran [Edrych ymlaen tuag at 2022-23 a thu hwnt](#) i gael rhagor o fanylion am y prosiect wrth i ni symud i'r flwyddyn ariannol nesaf.

Cael adborth gan bobl sy'n derbyn ein gwasanaethau

Fel rhan o'r prosiect i foderneiddio sut rydym yn prynu a darparu gwasanaethau i bobl hŷn, fe wnaethom ofyn am adborth gan bobl sy'n derbyn gofal a chymorth yn y cartref, a gofalmwr di-dâl sy'n derbyn gofal a chymorth. Roedd ymatebwyr yn derbyn rhwng 1 awr a 56 awr o gymorth uniongyrchol bob wythnos; gallai'r cymorth gael ei ddarparu gan ein timau mewnol, neu gan asiantaethau gofal allanol sy'n cael eu comisiynu gennym ni. Ar y cyfan, roedd yr adborth yn hynod o gadarnhaol, gyda 94% o'r ymatebwyr yn datgan eu bod yn fodlon gyda'r gofal a'r cymorth roedden nhw wedi ei dderbyn. Mae pobl yn gwerthfawrogi cysondeb yn y ddarpariaeth gofal, pan fydd yr un tîm neu'r un unigolion yn ymweld ar amseroedd penodol, a theimlir yr effaith pan fydd y gofalmwr yn newid neu pan na fydd amseroedd neu hyd yr ymweliadau yn ôl y disgwyl.

O ran cynorthwyo pobl i gyflawni eu canlyniadau personol, nododd 95% o'r ymatebwyr fod y gofal a'r cymorth maen nhw'n eu derbyn yn eu cynorthwyo i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw.

Heb ofalmwr, fyddwn i methu dod o fy ngwely

Mae ymatebwyr yn gwerthfawrogi bod y gofal a'r cymorth maen nhw'n ei dderbyn yn eu cynorthwyo i aros yn eu cartrefi eu hunain a mwynhau rhywfaint o annibyniaeth na fyddai'n bosibl fel arall. Gall gofalmwr anffurfiol gymryd seibiant o'u dyletswyddau gofal gan wybod bod eu hanwyliaid yn cael y gofal gorau.

Mae cael y gofal a'r cymorth yn fy ngalluogi i gael y rhyddid i ddadflino ac ymlacio gan wybod bod rhywun yn gofalu am fy ngŵr.

Gofalmwr anffurfiol

Gofynnwyd i bobl beth fydden nhw'n ei newid am y gwasanaeth os gallen nhw, a daeth sawl thema i'r amlwg yn ymwneud â:

- Gweithwyr cefnogi'n gallu treulio mwy o amser ar yr alwad a pheidio â gorfod brysio at y cleient nesaf.
- Mwy o hyblygrwydd o ran amseroedd a hyd y galwadau.
- Gweld yr un gweithwyr cefnogi'n rheolaidd.
- Oedran, sgiliau a phrofiad gweithwyr cefnogi yn eu rôl.
- Trefniadau seibiant, gan y byddai llawer o ofalmwr anffurfiol yn gwerthfawrogi mwy o amser i'w hunain.

Bu'r ymarfer ymgysylltu hwn yn hynod o werthfawr a bydd yn ein cynorthwyo i lunio penderfyniadau am sut byddwn yn darparu gwasanaethau yn y dyfodol, fel rhan o'r prosiect ehangach.



Gwasanaethau Pobl Hŷn - Heriau Staffio

Mae ein Gwasanaeth Pobl Hŷn yn cydlynu gofal a chymorth o bump Tîm Adnoddau Cymunedol wedi'u lleoli yn Llanfairfechan, Llandudno, Llanrwst, Bae Colwyn ac Abergele. Fe wnaeth ein gwasanaethau asesu a gofal cartref barhau i weithredu yn ôl yr arfer drwy gydol pandemig Covid-19, a chynhaliwyd asesiadau dros y we er mwyn sicrhau diogelwch staff a'r cyhoedd. Wedi dweud hynny, mae'r pwysau sy'n wynebu'r gwasanaeth nawr yn gwbl ddigynsail, ac rydym yn ei chael yn anodd ymdopi â nifer yr achosion sydd gennym, yn enwedig os ydyn nhw'n rhai cymhleth ac angen ymyrraeth a goruchwyliaeth gan Weithiwr Cymdeithasol Cymwys. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd gennym 320 o achosion heb eu dyrannu, a gall hyn fod yn rhannol am nad oedd unigolion eisiau dod atom i ofyn am gymorth yn ystod y pandemig ac yn lle hynny wedi ceisio rheoli eu hanghenion eu hunain. Mae nifer o unigolion nawr wedi cyrraedd pwynt argyfyngus ac angen cymorth ar frys; pe na bai'r pandemig wedi eu hatal rhag cael mynediad at rwydweithiau cefnogi anffurfiol a theulu, ni fyddai llawer o achosion wedi cyrraedd lefelau anghenion mor uchel. Mae ein timau felly'n ymdrin â niferoedd cynyddol o achosion brys ac yn ymdopi â'r rhwystrau i gomisiynu pecynnau gofal.

Mae'r argyfwng staffio ym maes Gofal Cymdeithasol wedi cael llawer o sylw yn y cyfryngau, ac nid yw Conwy yn eithriad. Yn ein timau Gwaith Cymdeithasol rydym wedi bod yn defnyddio staff locwm a staff asiantaethau i ymdrin â rhywfaint o'r llwyth gwaith, ond oherwydd y gost sy'n gysylltiedig â hynny, nid dyma'r dewis rydym yn ei ffafrio. Mae ein partneriaid allanol yn ei chael yn anodd recriwtio a chadw staff, ac o ganlyniad bu'n rhaid iddyn nhw ddychwelyd pecynnau gofal nad oedden nhw'n gallu eu darparu. Mae ein timau mewnol wedi cymryd cyfrifoldeb dros y rhain, ond maen nhw hefyd yn profi eu hanawsterau eu hunain o ran recriwtio staff.

Beth nesaf?

Rydym yn gobeithio y gallwn ni recriwtio unigolion i swyddi wedi'u targedu yn y timau Gwaith Cymdeithasol ac Ailalluogi er mwyn cynorthwyo i leihau rhestrau aros a chefnogi'r cynnydd yn y galw yn y gymuned. Nod yr ymgyrch recriwtio genedlaethol [Gofalwn](#) yw codi proffil Gofal Cymdeithasol fel gyrfa werth chweil, boed hynny gyda'r Awdurdod Lleol neu gyda darparwr preifat. Yn ogystal â'r gobaith y gellir manteisio ar yr ymgyrch genedlaethol, rydym yn rhagweithiol yn ein hagwedd at recriwtio a chadw staff ym maes Gofal Cymdeithasol, ac yn canolbwyntio ar dri phrif faes:

Hyfforddeiaethau Gwaith Cymdeithasol Conwy

- Cyflwynwyd rhaglen yn 2009 er mwyn ymdrin â heriau recriwtio ym maes gofal cymdeithasol drwy ddull 'meithrin eich talent eich hun'.
- Mae hyfforddeion yn aros yn eu swyddi gwreiddiol ac yn ennill eu cymhwyster drwy'r Brifysgol Agored.
- Yn nwy flynedd gyntaf y rhaglen roeddem yn cefnogi dau weithiwr y flwyddyn. Yn y drydedd flwyddyn, fe wnaethom gynyddu'r cymorth ariannol ar gyfer y rhaglen er mwyn cynyddu nifer yr hyfforddeion i dri bob blwyddyn.
- Er mwyn cydnabod yr anawsterau recriwtio cynyddol, sy'n arwain at bwysau aruthrol ar yr adnoddau staffio presennol, byddwn yn cynnig lle ar gyfer pump o hyfforddeion gwaith cymdeithasol yn 2022.

Myfyrwyr Gwaith Cymdeithasol a gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso

- Mae Conwy yn un o dri phartner yn y cwrs MA mewn Gwaith Cymdeithasol ym Mhrifysgol Bangor, felly rydym yn croesawu myfyrwyr ddwywaith y flwyddyn. Gan gydnabod y pwysau sydd ar ein cronfa bresennol o Addysgwyr Ymarfer rydym wedi

buddsoddi'n fawr er mwyn cefnogi gweithwyr cymdeithasol profiadol i ennill dyfarniad achrededig Addysgwyr Ymarfer.

- O fewn y bartneriaeth dair ochrog rydym wedi cynnal gweithdai gyda'n gweithwyr cymdeithasol a Phrifysgol Bangor i ddiwygio'r cynnwys dysgu ar y cwrs MA. Gwneir hyn er mwyn sicrhau bod y modelau damcaniaethol gwaith cymdeithasol a ddysgir i fyfyrwyr gwaith cymdeithasol, a'r modd y cânt eu rhoi ar waith, yn cyd-fynd â'r arfer orau bresennol ym maes gwaith cymdeithasol.
- Mae data Gofal Cymdeithasol Cymru yn dangos mai gweithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso yw traean o'r rhai a gafodd eu penodi. O ganlyniad, mae angen i staff gwblhau Fframwaith y Tair Blynedd Gyntaf yn Ymarfer (Gofal Cymdeithasol Cymru). Mae ein Cydlynnydd Ymarfer yn arwain y gwaith i gefnogi'r gweithwyr newydd a'u rheolwr drwy'r fframwaith, yn cynnwys cwblhau 'Cyfuno Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus'.

Cefnogi dulliau recriwtio i'r sector Gofal Cymdeithasol yng Nghonwy

- Rydym wedi darparu adnoddau ar gyfer gwasanaeth newydd, GofalwnCymru.Conwy i gynorthwyo pobl i gael swyddi ar draws y sector gofal, gyda swydd newydd ar gyfer Mentor Cyflogaeth Gymunedol i gefnogi'r gwasanaeth.
- Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda Chanolbwynt Cyflogaeth Conwy i sicrhau bod y sector Gofal Cymdeithasol yn elwa o raglenni cyflogaeth Llywodraeth Cymru.
- Rydym yn cydweithio gyda Choleg Llandrillo a chyflogwyr Gofal Cymdeithasol i gydlynw lleoliadau gwaith i fyfyrwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Byddwn yn trafod ein cynlluniau ar gyfer y gweithlu'n fanwl yn ddiweddarach yn yr adroddiad, serch hynny, yn fyr byddwn yn edrych ar:

- Ganolbwyntio ar iechyd a lles staff wrth i ni adfer o'r pandemig, yn cynnwys cadw staff a rhannu arfer orau.
- Darparu strategaeth ar ei newydd wedd ar gyfer y gweithlu sy'n ymgorffori'r hyn a ddysgwyd o'r pandemig.
- Croesawu ffyrdd o weithio newydd a mwy cynhyrchiol sy'n creu cyfleoedd i staff weithio'n hyblyg.
- Edrych ar y pwysau sy'n cael ei greu oherwydd maint y llwyth gwaith ar draws yr adran.
- Hybu gofal cymdeithasol fel dewis gyrfa.



Safon Ansawdd 4: Mae cadernid o fewn ein cymunedau yn cael ei hybu ac mae pobl yn cael eu cefnogi i gyflawni eu potensial drwy annog a chefnogi pobl sydd angen gofal a chefnogaeth, gan gynnwys gofalywyr, i ddysgu, datblygu a chyfrannu at gymdeithas

Darparu cefnogaeth ymarferol ac emosiynol i ofalwyr

Mae Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofalwyr Di-dâl yn blaenoriaethu'r angen i gefnogi bywyd ochr yn ochr â gofalu, sy'n cynnwys yr angen i roi cyfle i gymryd seibiant er mwyn cefnogi gwytnwch gofalywyr a'u gallu i gynnal eu rôl gofalu. Yn dilyn cyfyngiadau Covid yn ystod 2020-21, nod y Grant Seibiant i Ofalwyr gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22 yw blaenoriaethu cefnogaeth ar gyfer y galw cynyddol am ganolfannau dydd a gwasanaethau mwy traddodiadol i eistedd gyda phobl, a hefyd annog modelau mwy arloesol i ddarparu seibiannau byr.

Fe wnaethom weithio gyda'n sefydliadau gofal yn y trydydd sector fel y gallen nhw wella'u cynigion i ofalwyr, i gwrdd ag amcanion y grant a phwysleisio'r angen i fod yn hyblyg a chael eu harwain gan anghenion.

Roedd hyn yn cynnwys cyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau sefydledig eistedd gyda phobl a gwasanaethau seibiant i blant, i gefnogi darparu mwy o oriau. Yn ogystal â hyn, ariannwyd nifer o brosiectau hyblyg ac arloesol.

Mae Credu yn darparu cefnogaeth i ofalwyr ifanc, ac roedden nhw'n gallu ymestyn y gefnogaeth seibiant roedden nhw'n ei darparu mewn ffyrdd mwy hyblyg, yn dibynnu ar amgylchiadau'r gofalywyr ifanc a'r hyn roedden nhw'n ei ffafrio. I rai, roedd hyn yn golygu mwy o gyfle i ymgysylltu â

seibiant i'r teulu cyfan, cymryd rhan mewn gweithgareddau gyda'i gilydd fel grŵp a chreu cyfleoedd i dreulio amser gwerthfawr gyda'i gilydd. I bobl eraill, efallai fod hyn yn golygu cael cyllid i gael mynediad at weithgareddau unigol mae'r gofalywyr ifanc yn deimlo fyddai'n fuddiol i'w lles personol.



Mae Hafal yn darparu cefnogaeth i rai sy'n gofalu am bobl gyda chyflyrau iechyd meddwl, ac yn darparu asesiadau gofalywyr a chefnogaeth unigol ar eu cyfer. Drwy gydol y pandemig, mae'r angen i gynnig gwasanaeth cwnsela ar lefel isel er mwyn cynorthwyo i gefnogi gofalywyr gyda straen a phryderon personol wedi cynyddu, ac ariannwyd rhaglen chwech

wythnos, ynghyd â dyddiau a digwyddiadau lles, yn dibynnu ar anghenion y gofalwyr eu hunain. Llwyddwyd hefyd i wella cefnogaeth gan gymheiriaid drwy ddatblygu rhai o adnoddau Clic Gogledd Cymru ar y we.

Mae gwasanaeth Cynnal Gofalwyr yn cefnogi tua 1000 o ofalwyr yng Nghonwy mewn amryw o ffyrdd, er enghraifft darparu gwybodaeth, cefnogaeth emosiynol, ymweliadau cartref, eiriolaeth lefel isel, cefnogaeth unigol a chefnogaeth grŵp a chynllunio at argyfwng.

Drwy'r cyllid ychwanegol ar gyfer seibiannau i ofalwyr, cafodd eu cynnig ei wella er mwyn gallu cynnig seibiant sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a chanolbwyntio ar anghenion gofalwyr unigol. Gall hyn gynnwys mynediad ychwanegol at seibiannau traddodiadol fel gwasanaethau eistedd gyda phobl, tripiâu dydd i'r teulu, a gwyliau a phenwythnosau i ffwrdd. Gan sylweddoli y gall "seibiant byr" olygu pethau gwahanol i bobl wahanol, defnyddiwyd y cyllid yn hyblyg i brynu eitemau megis dodrefn i'r awyr agored, dyfeisiau llechen, offer cadw'n heini, ac aelodaeth i glybiau megis campfeydd, golff neu unrhyw fath arall o ymarfer corff mae gofalwyr yn ei deimlo sy'n fuddiol i'w lles.

Hefyd fe lwyddodd canolfan dementia newydd Ymddiriedolaeth y Gofalwyr i ymestyn darpariaeth eu sesiynau grŵp 'Hafan Ni' drwy gynnig 22 o sesiynau wythnosol ychwanegol (sesiynau 5 awr) bob wythnos rhwng mis Hydref a mis Mawrth. Gwasanaeth ataliol yw'r rhyngweithio cymdeithasol rheolaidd hwn, a gall gynnig ysgogiad rheolaidd a all gynorthwyo i arafu dirywiad yn iechyd meddwl y sawl y gofelir amdano a gwella iechyd a lles y gofalwr. Gall y seibiannau rheolaidd hyn olygu'r gwahaniaeth rhwng sicrhau bod gofalwr yn ymdopi gyda'i rôl gofalu neu'n taro pwynt argyfwng.

Beth oedd yr heriau?

Roedd rhagofalon parhaus Covid yn amlwg yn bryder, gyda darparwyr yn asesu risg eu gweithgareddau'n ofalus er mwyn lliniaru risg. Fel y gwelir yn aml gyda chyllid grant byrdymor, gall amseru fod yn broblem gan fod

angen ystyried cwblhau canllawiau Llywodraeth Cymru, ymgysylltu â darparwyr, caniatáu amser i Lywodraeth Cymru gymeradwyo cynlluniau, a darparwyr yn estyn allan at bobl er mwyn sicrhau bod cymaint â phosibl yn manteisio ar y cynnig; rhaid i hyn i gyd ddigwydd o fewn terfynau'r flwyddyn ariannol bresennol.

Beth nesaf?

Bydd gwyliau byr i ofalwyr bob amser yn flaenoriaeth yn ein strategaeth gyffredinol i ofalwyr, gan eu bod yn effeithio'n sylweddol ar wytnwch gofalwyr. Byddwn hefyd yn ystyried yr angen i symud tuag at gynigion gofal seibiant mwy hyblyg, wedi'u personoli; byddai ymrwymiad cyllid parhaus ar gyfer gwyliau byr yn cynorthwyo i sicrhau y gellir diwallu'r flaenoriaeth hanfodol hon i ofalwyr.

Canolfannau Teulu Conwy

Er gwaethaf yr uchafbwyntiau a'r anawsterau yn ystod cyfyngiadau Covid, gwelwyd cyfleoedd newydd cyffrous eleni ar gyfer y Timau Cymorth i Deuluoedd a'r Canolfannau Teulu ym mhump ardal Conwy.

Yn ogystal â'r grwpiau arferol o ddydd i ddydd, a chefnogaeth un-i-un wedi'i theilwra rydym yn ei chynnig i deuluoedd, rydym wedi gallu datblygu gweithgareddau newydd wrth ymateb i anghenion lleol. Dyma rai enghreifftiau:

- Rydym wedi dechrau grŵp wythnosol newydd i rieni yn eu harddegau yn nwyrain Conwy. Mae hyn wedi rhoi hyder iddyn nhw am sut i edrych ar ôl eu babanod, a'u cynorthwyo i gwrdd â phobl ifanc eraill sydd mewn sefyllfa debyg a gwneud ffrindiau gyda nhw.
- Rydym wedi cynnal sesiynau galw heibio ar y cyd gyda'r Gwasanaeth Ieuenctid yn ardal y gogledd, sydd wedi ein cynorthwyo i ganfod pobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu hecsbloetio. Rydym wedi cynnal sesiynau gwybodaeth i rieni yng

nghanol y rhanbarth er mwyn eu cynorthwyo i gadw eu plant yn ddiogel.

- Rydym wedi llwyddo i ymgysylltu gyda grŵp o rieni sy'n anodd eu cyrraedd mewn cwrs rhianta ym Mae Cinmel drwy weithio mewn partneriaeth gyda'r Gweithiwr Cyswllt Teulu yn yr ysgol.
- Rydym wedi creu grŵp babanod newydd, ble gwelwyd cynnydd mawr yn nifer y babanod mewn ardal wledig iawn, drwy eu cynnwys mewn cwrs tylino babanod, sydd nawr yn canolbwyntio ar les a chefnogaeth gan gymheiriaid.
- Rydym wedi llunio perthynas gryfach gydag ysgolion yng nghanol y rhanbarth, ac yn aml yn cefnogi ysgolion i ymgysylltu â theuluoedd, ac rydym wedi ailddechrau sesiynau galw heibio wyneb yn wyneb a thros y we mewn ysgolion.
- Rydym wedi ailsefydlu'r sesiynau galw heibio dyddiol, gan symud o le i le o amgylch rhanbarth gorllewin Conwy, ac rydym wedi ychwanegu elfen *aros a chwarae* er mwyn cynorthwyo i ymgysylltu â theuluoedd.
- Yn ystod yr Wythnos Diogelu, lansiwyd canolbwynt gwybodaeth newydd gennym ar gyfer teuluoedd a chymunedau er mwyn codi ymwybyddiaeth am atal Cam-drin Plant yn Rhywiol.
- Bu rôl y Gweithiwr Teulu Cynorthwyol yn allweddol er mwyn helpu'r timau i ailymgysylltu â theuluoedd mewn gweithgareddau grŵp a chynyddu capasiti er mwyn darparu gweithgareddau estyn allan, a gwybodaeth, cyngor a chymorth.
- Mae bod yn barod ar gyfer yr ysgol yn thema newydd a ddaeth i'r amlwg yn sgil y pandemig. Buom yn gweithio gyda phartneriaid yn BIPBC i lansio [adnoddau a chlipiau fideo newydd am](#)

[ddatblygiad plant](#) i rieni a gofalwyr plant cyn-ysgol.



Mae teuluoedd wedi dweud wrthym bod y gefnogaeth un-i-un maen nhw wedi ei chael drwy eu Gweithwyr Teulu wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol iawn:

Teimlaf fod gen i nawr yr hyder i symud ymlaen gyda fy mywyd, diolch i'r Ganolfan Deulu a'm gweithiwr cefnogi.

Mae'r gefnogaeth a gawsom wedi bod yn ardderchog. Mae hyn i gyd yn newydd iawn i ni, ac ni fyddem wedi gwybod ym mhle i ddechrau gyda'r holl bethau sydd ar gael. Mae ein mab wedi dechrau mewn cylch chwarae hefyd, gyda chymorth gan ein gweithiwr, sydd wedi bod yn help mawr iddo.

Gwelwyd bod rôl y Gweithiwr Teulu Anabledd newydd ym amhrisiadwy. Dyma fenter ar y cyd gyda'r Gwasanaethau Anableddau, a daw o dan

adain timau'r Ganolfan i Deuluoedd. Cafodd y rôl ei gwerthuso gan ymchwilydd ym Mhrifysgol Bangor eleni, ac rydym yn bwriadu canfod cyllid er mwyn recriwtio ar gyfer y rôl hon ar gyfer pob un o'r pump rhanbarth yng Nghonwy. Un enghraifft o gyfleoedd y grŵp a chefnogaeth gan gymheiriaid yw grŵp newydd 'Beth am roi sylw i'r synhwyrâu', sy'n cynnig amgylchedd cyfeillgar a chyfforddus ar gyfer teuluoedd niwro-amrywiol.

Dywedodd un teulu a gafodd eu cyfweld ar gyfer y gwaith ymchwil:

Ti'n teimlo fel taset ti'n methu. Mae'r rôl hon... Wna' i ddim dweud celwydd, fe hoffwn i pe bae wedi bod yno ddwy flynedd yn ôl. Oherwydd pwy a ŵyr beth fyddai'r canlyniad erbyn hyn - efallai y byddai'n wahanol iawn... Heb swnio'n rhy ddramatig, fe ddaeth hi'n agos iawn at fy achub i



Beth oedd yr heriau?

Roedd hi'n her parhau i ymgysylltu â theuluoedd drwy amryw o gyfyngiadau, ac roedd rhai'n rhwystr ychwanegol i unigolion a oedd eisoes yn ddiamddiffyn. Rydym wedi canfod datrysiadau creadigol er mwyn ymateb i hyn.

Beth nesaf?

Rydym yn edrych ymlaen at allu cynnal mwy o weithgareddau grŵp a gweithgareddau amlasiantaethol ym Mae Colwyn wrth i ni agor ein canolfan newydd i deuluoedd, sef Canolfan Ffordd Douglas, sy'n ymgorffori egwyddorion gwyrdd megis gwresogi ffynhonnell aer a phaneli solar.

Yn dilyn ymgynghoriad yn 2018, aethom ati i ddefnyddio cyfuniad o Gyfalaf Conwy, Cyllid Cyfalaf Dechrau'n Deg a'r Gronfa Gofal Integredig er mwyn datblygu ysgol Fictorianaid yng nghanol Bae Colwyn (Rhanbarth y Canol). Fe symudom i'r adeilad yn ystod Chwefror a Mawrth 2022, ac rydym nawr yn elwa o'r cyfleusterau hyn:

- Toliet ac ystafell wlyb a chawod cwbl addas i bobl anabl, gyda theclyn codi
- Ystafell weithgareddau gyda theclyn codi
- Crèche
- Ystafelloedd cyfarfod ac ymgynghori amlasiantaethol
- Cegin ar gyfer gwaith grŵp a gweithgareddau arddull caffi
- Mannau gweithio amlasiantaethol

Daeth y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, Julie Morgan AoS, i ymweld â'r safle ym mis Mawrth 2022. Mae'r llun yn dangos (o'r chwith): Bradley Wignall a Glyn Parry, Ymgynghorwyr Eiddo a gomisiynwyd i reoli'r prosiect adeiladu; Helen Lawson, Rheolwr Cefnogi Partneriaeth Gofal Plant Dechrau'n Deg; Cyng. Cheryl Carlisle; Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, Julie Morgan AoS; Anne

Forsberg, Rheolwr Tîm Cymorth Canolog i Deuluoedd; a Jenny Williams, Cyfarwyddwr Strategol Gofal Cymdeithasol ac Addysg.



Rydym yn ymgysylltu â gwasanaethau sy'n gallu cefnogi teuluoedd a defnyddio ein gofod newydd, ac eisoes mae'r rhain wedi cynnwys: Gwasanaeth Ieuencid; Llyfrgelloedd a Diwylliant; gwasanaeth Cam-drin Domestig a rhai sefydliadau yn y trydydd sector.

Y flwyddyn nesaf fe welwn ni hefyd ddatblygiadau cyffrous newydd yn Eryl Wen, y Ganolfan i Deuluoedd yn Llandudno, sy'n cael ei hadnewyddu ar hyn o bryd. Dechreuodd y gwaith yn Chwefror 2022, a disgwylir y bydd wedi ei gwblhau erbyn Gorffennaf 2022. Mae'r gwaith yn cynnwys gwneud defnydd gwell o'r gofod ar gyfer grwpiau a chysiau, defnyddio mwy o ardal yr ardd, ac ystafelloedd ychwanegol lle gall teuluoedd gwrdd gydag amryw o wasanaethau a gweithwyr teulu, a chyfleusterau parcio ychwanegol.

Cod Ymarfer Awtistiaeth

Mae awtistiaeth yn gyflwr gydol oes sy'n cyflwyno ystod eang iawn o anghenion. Ar gyfartaledd, mae 1 ym mhob 100 o bobl yn y DU yn cael diagnosis o Anhwylderau ar y Sbectwm Awtistig. Mae 40% o bobl sydd ag anabledd dysgu gydag awtistiaeth hefyd. Yng Nghonwy, mae hynny'n cynrychioli tua 1,250 o bobl.

Yn y Cynllun Gweithredu Strategol cyntaf ar gyfer Awtistiaeth, a gyhoeddwyd am y tro cyntaf yn 2008, crëwyd isadeiledd awdurdod lleol a gefnogwyd gan gyllid Llywodraeth Cymru. Mae gan bob un o ardaloedd y 22 awdurdod lleol yng Nghymru gynllun gweithredu lleol ar gyfer awtistiaeth sy'n cael ei ddatblygu, ei weithredu a'i adolygu gan grŵp rhanddeiliaid lleol. Yn ogystal â hyn, mae gan bob awdurdod lleol Swyddog Arweiniol Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig. Mae rôl y Swyddog yn ganolog er mwyn darparu gwasanaethau awtistiaeth ar lefel lleol drwy ddod â gweithwyr proffesiynol ynghyd i gydweithio yn ardaloedd yr awdurdodau lleol, yn ogystal â darparu pwynt cyswllt lleol ar gyfer pobl awtistig a theuluoedd/gofalwyr sy'n chwilio am gefnogaeth.

Swyddog Arweiniol Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig yng Nghonwy ar hyn o bryd yw Rheolwr y Gwasanaeth Anableddau, sy'n gyfrifol am wasanaethau plant ac oedolion.

Mae gan Swyddog Arweiniol Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig ystod eang o rolau a chyfrifoldebau ac yn eu plith mae codi ymwybyddiaeth, gwella gwybodaeth, derbyn a deall awtistiaeth ymhlith y cyhoedd, ac ar draws y gwasanaethau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Mae'r rôl hefyd yn cynnwys:

- Gweithio gydag adrannau hyfforddi awdurdodau lleol er mwyn nodi unrhyw anghenion hyfforddi staff.
- Sicrhau bod ymarferwyr sy'n cynnal asesiadau o anghenion, ac yn asesu pa mor gymwys yw unigolyn awtistig i gael cefnogaeth gofal cymdeithasol, yn meddu ar ddigon o wybodaeth a sgiliau i ddeall effaith awtistiaeth.
- Cyfeirio oedolion ac unigolion awtistig at y gefnogaeth briodol.

Yn ogystal â rôl Swyddog Arweiniol Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig, mae Conwy wedi datblygu Cod Ymarfer ynghylch darparu Gwasanaethau Awtistiaeth. Mae'r Cod Ymarfer yn amlinellu'n eglur beth yw dyletswyddau a chyfrifoldebau'r gwasanaeth Gofal Cymdeithasol o ran cefnogi unigolion sydd ag awtistiaeth a'u teuluoedd.

Sesiynau Lles Cymunedol

Mae'r tîm Lles Cymunedol wedi darparu ystod eang o sesiynau wyneb yn wyneb a thros y we yn ystod y cyfnod adrodd. Roedd y ddarpariaeth dros y we'n cynnwys sesiynau cadw'n heini, gweithgareddau diwylliannol, megis celf a chrefft a sesiynau lles i gefnogi pobl gyda'u hiechyd meddwl, a rhai sesiynau defnyddiol iawn i rannu gwybodaeth. Rhwng Ebrill 2021 ac Ionawr 2022 fe gynigiodd y tîm dros 20 o destunau gwahanol, yn cynnwys:

- Dawnsio llinell a dawnsio Bollywood
- Canu

- Sesiwn hunanofal misol rheolaidd mewn partneriaeth â Chartrefi Conwy
- Ymarfer corff ac ioga eistedd
- Sesiynau paratoi ar gyfer y gaeaf, mewn partneriaeth â Hawliau Lles a Groundwork Cymru.
- Cwrs Camu Allan yn Hyderus
- Sesiynau Tanwydd yw Bwyd
- Seryddiaeth
- Diogelwch ar y We, mewn partneriaeth â Chymunedau Digidol Cymru

Pan oedd canllawiau Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn bosib i'r tîm ddarparu sesiynau wyneb yn wyneb, fe wnaethom drefnu sawl dro ym mhob rhan o'r sir mewn ardaloedd fel Llanrwst, Llandudno, Bae Cinmel, Llanfairfechan a Bae Colwyn. Yn ogystal â hyn, sefydlwyd rhaglenni ymarfer corff, yn cynnwys Qigong, Zumba Aur a Thai Chi wrth Eistedd.

Rhwng Ebrill a Ionawr fe wnaethom gyflwyno 111 o sesiynau ac fe'u mynychwyd gan 800 o unigolion. Rydym wedi cynnwys rhai astudiaethau achos yn yr adroddiad hwn er mwyn dangos cymaint o effaith mae'r rhain wedi eu cael.

Beth oedd yr heriau?

- Nid oedd pob unigolyn oedd â mynediad at ddyfeisiau digidol yn ddigon hyderus i'w defnyddio er mwyn cael mynediad at ein sesiynau ar-lein. Fe wnaethom ymateb drwy greu gwasanaeth cefnogaeth ddigidol dros y ffôn er mwyn cynorthwyo unrhyw un a oedd yn cael trafferthion.
- Drwy ymateb i newidiadau yng nghanllawiau'r llywodraeth, ar brydiau bu'n rhaid canslo rhai sesiynau wyneb yn wyneb, a bu'n rhaid i'r tîm ymateb yn gyflym i gynyddu'r ddarpariaeth ar-lein er mwyn sicrhau bod amrywiaeth dda o sesiynau lles yn dal i fod ar gael.

- Roedd hi'n cymryd mwy o amser i gynllunio sesiynau wyneb yn wyneb gan fod angen i'r tîm sicrhau bod pob protocol yn ei le, ac asesu risg yr holl weithgareddau a drefnwyd er mwyn sicrhau diogelwch pawb a oedd yn eu mynychu.
- Er mwyn cydymffurfio â chanllawiau cadw pellter cymdeithasol, hysbysebwyd bod angen cadw lle ar bob sesiwn wyneb yn wyneb, a gosodwyd cyfyngiad ar nifer y bobl a allai fynychu. Lle bo hynny'n bosibl, trefnwyd sesiynau ychwanegol ar gyfer y rhai oedd wedi derbyn mwy o geisiadau na nifer y lleoedd a oedd ar gael, er mwyn rhoi cyfle i gymaint o bobl â phosibl.



Beth nesaf?

Mae sesiynau ar-lein newydd wedi eu cynllunio ar gyfer gweddill y cyfnod adrodd, yn cynnwys Aliniad Ystum y Corff, Strictly Fitsteps, Pilates a Chanu ar gyfer lechyd yr Ysgyfaint.

Bydd sesiynau wyneb yn wyneb newydd yn cynnwys teithiau cerdded hanesyddol yng Nghonwy, Deganwy, Bae Colwyn a Llandrillo yn Rhos. Byddwn yn cynnal sesiynau hel atgofion ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr. Byddwn yn *Canu am Hwyl* yn Llanrwst, *Cael Sgwrs* yn Llandrillo yn Rhos, mwynhau taith gerdded i'r tîm o Drefriw i Lanrwst a Thaith Gerdded Bioamrywiaeth yn Llandudno. I ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, aethom ati i wneud doliau allan o begiau yn Amgueddfa Llandudno.



Astudiaeth Achos: Tai Chi yn y Parc

Fe welodd gwraig yn ei 70au hysbyseb ar Facebook am ein sesiynau yn rhad ac am ddim ym Mharc Pentre Mawr a meddylodd y byddai'n ei

helpu gyda'i symudedd cyfyngedig ar ôl iddi gael llawdriniaeth i osod clun newydd. Roedd hi hefyd yn dioddef amryw o broblemau anadlu a bu'n cysgodi yn ystod pandemig Covid-19. Fe wnaeth un o'n Swyddogion Lles Cymunedol gadw mewn cysylltiad gyda'r wraig drwy gydol y cwrs er mwyn gweld sut oedd hi'n dod yn ei blaen ac i rannu gwybodaeth am unrhyw grwpiau a chysiau perthnasol eraill.

Gall osteoarthritis a phroblemau anadlu wanhau person yn arw, ond gellir helpu hyn drwy symud a chael pwrpas. Mae'r dosbarth Qigong yn cynnig y ddau, ynghyd â thechnegau anadlu dan reolaeth. Mae'r sesiynau hefyd wedi ei helpu i ehangu ei chylch cymdeithasol, ac mae hi wedi cofrestru ar gyfer y cwrs Tai Chi dan do nesaf a fydd yn para chwech wythnos. Mae'r wraig wedi rhoi ychydig o adborth i ni am ei phrofiad a manteision ymuno â'r dosbarth:

Fe wnes i ei fwynhau'n fawr, roedd yn hollol wych ac wirioneddol wedi fy helpu i ymlacio! Fe wnes i elwa ohono'n feddyliol ac yn gorfforol, ond hefyd yn gymdeithasol. Rwyf wedi gwneud ffrindiau newydd. O'r grŵp gwreiddiol yn y parc, rydym wedi cyfarfod am goffi, rydym wedi siarad gyda phobl eraill a fyddai hefyd yn awyddus i gwrdd am goffi. Roeddwn i'n teimlo'n llawn egni ac yn bositif ar ôl pob sesiwn. Rwy'n teimlo o ddifri y dylai mwy o bobl sydd mewn poen neu'n teimlo'n unig estyn allan ac ymuno â grŵp fel hwn, bydden nhw'n elwa cymaint ohono. Diolch!

Roedd hi mor hyfryd cwrdd â phobl newydd ac rydw i wedi dysgu llawer iawn. Rwy'n gobeithio y gallwn ni gael mwy o sesiynau fel hyn. Fe wnaeth gymaint o wahaniaeth i fy mywyd i.

Astudiaeth Achos: Sesiynau Zoom

Mae gwraig yn ei 60au wedi cael trafferth gydag amryw o broblemau iechyd, yn cynnwys gorbryder ac iselder. Mae gan ei gŵr hefyd

broblemau iechyd, ac yn ddiweddar cafodd perthynas agos iddynt ddiagnosis dementia; mae'r ddau'n poeni'n arw ac yn teimlo'n bryderus.

Gan fod llai o weithgareddau a grwpiau'n cael eu cynnal yn y gymuned oherwydd Covid-19, fe waethygodd ei hiechyd meddwl a'i phroblemau gorbryder ac ni chafwyd cymaint o gyfleoedd i ryngweithio'n gymdeithasol.

Fe wnaeth un o'n Swyddogion Lles Cymunedol roi gwybod i'r wraig am sesiynau addas pan oedden nhw ar gael. O ganlyniad, fe gofrestrodd hi ar gyfer nifer o weithgareddau ar-lein. Fe gafodd hi hefyd gymorth digidol er mwyn bod yn fwy hyderus wrth ddefnyddio Zoom.

Fe roddodd y sesiynau rheolaidd rywbeth cadarnhaol i'r wraig ganolbwyntio arno ac roedd hi'n llai pryderus. Fe wyddai y byddai'r sesiynau'n cael eu cynnal, waeth beth fo'r tywydd, ac roedd hyn yn rhoi rhywbeth cadarnhaol iddi edrych ymlaen ato heb boeni y byddai'n cael ei ganslo. Fe dyfodd ei chylch cymdeithasol wrth iddi gyfarfod pobl newydd yn y grŵp a chadwodd mewn cysylltiad gyda rhai ohonyn nhw ar ôl i'r cwrs orffen. Gydag anogaeth gan un o'i ffrindiau newydd, fe ailgydiodd hi yn ei gwnïo ac fe ddechreuodd hi hefyd beintio blodau, ac mae hyn yn ei helpu i ymlacio.

Gweithgareddau Wythnos y Gofalwyr

Fel rhan o Wythnos Genedlaethol y Gofalwyr, fe drefnodd y Tîm Lles Cymunedol a thîm y Gofalwyr ddau sesiwn ar gyfer gofalwyr, taith gerdded wyneb yn wyneb ar hyd y promenâd yn Llandudno a sesiwn hunanofal dros Zoom.

Derbyniwyd adborth cadarnhaol am y ddau sesiwn, a dywedodd un ferch a ymunodd â ni ar y daith gerdded:

Roedd hi mor braf gallu cerdded gyda phobl eraill, yn enwedig pobl a oedd yn gofalu am eu hanwyliaid fel fi...roedd gennym ni lawer o bethau'n gyffredin y gallen ni eu trafod.

Dyweddodd un wraig arall ei bod wedi mwynhau gallu gwneud rhywbeth gyda'i mam yng nghwmni pobl eraill, ac ar y diwedd fe arhosodd i sgwrsio a chael coffi gydag un o'r merched eraill, a oedd yn braf i'w weld.

Dros y chwe mis diwethaf, mae dros 40 o ofalwyr wedi mynychu amryw o sesiynau ar-lein a rhai wyneb yn wyneb a drefnwyd gan y Tîm Lles Cymunedol.



Beth yw'r heriau?

Unwaith eto, nid oedd pob unigolyn oedd â mynediad at ddyfais ddigidol yn ddigon hyderus i'w defnyddio er mwyn mynychu'r sesiwn ar-lein; fe gynigiodd y Tîm Lles Cymunedol gefnogaeth dros y ffôn er mwyn galluogi gofalwyr i gymryd rhan.

Beth nesaf?

Mae'r Tîm Lles Cymunedol yn parhau i gefnogi gofalwyr gyda'u rhaglen weithgareddau barhaus, ar-lein ac wyneb yn wyneb.

Dyma rai o'r sesiynau newydd sy'n cael eu trefnu gan y tîm ar gyfer gofalwyr ar hyn o bryd:

- Dod â'r Bws Dementia Rhithiol yn ôl i Gonwy ar 2 Awst 2022.
- Sesiynau Mynd yn ôl Allan i Fwynhau ar gyfer gofalwyr pobl sy'n byw gyda dementia.
- Sesiwn Gwneud Cyffiau Gwingo ar gyfer gofalwyr a phobl sy'n byw gyda dementia, mewn partneriaeth ag Amgueddfa Llandudno.

Gweithgareddau Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Lles

Cynhaliwyd prosiect Haf o Hwyl rhwng 1 Gorffennaf a 30 Medi 2021 a darparwyd amrywiaeth o weithgareddau hamdden, chwaraeon a diwylliannol yn rhad ac am ddim i blant a phobl ifanc 0-25 oed er mwyn cefnogi eu lles cymdeithasol, emosiynol, corfforol a meddyliol.

Roedd tri phrif nod i'r digwyddiad:

- Cynorthwyo plant a phobl ifanc i gael hwyl a rhoi cyfle iddynt fynegi eu hunain trwy chwarae.
- Mentrau rhyngweithiol, creadigol a chymunedol sy'n seiliedig ar chwarae i bob oedran.
- Rhoi cyfle i blant a phobl ifanc chwarae gyda'u ffrindiau a'u cyfoedion.

Yng Nghonwy, cynigiwyd 29 o brosiectau drwy amryw o sefydliadau trydydd sector, darparwyr preifat a thrwy amryw o wasanaethau'r Cyngor, yn cynnwys Gofal Cymdeithasol, Addysg, Llyfrgelloedd, Hamdden a Gwasanaethau Ieuenctid.



Cynigiwyd ystod eang o weithgareddau, yn cynnwys sesiynau antur yn yr awyr agored, gweithgareddau ffithrwydd dan do, sesiynau chwarae i

blant 3-11 oed, gweithgareddau ar gyfer plant maeth, sesiynau gweithgareddau i'r teulu ar gyfer plant ag anableddau dysgu, golff a gweithgareddau chwaraeon eraill mewn lleoliadau gwledig. Cynigiwyd sesiynau chwaraeon gydag offer wedi'u llenwi ag aer, coginio yn yr awyr agored, tenis, celf a chrefft, sesiynau chwarae Lego, ioga, gweithgareddau yn y ganolfan sgïo, cydbwyso cerrig, celf ar y llawr, gweithdai gwyddoniaeth a llawer iawn mwy.

Cofnodwyd bod cyfanswm o 1,959 o bobl wedi mynychu'r holl sesiynau. Roedd yr adborth gan blant, pobl ifanc, rhieni ac aelodau staff yn gadarnhaol dros ben, ac yn amlygu'r ffyrdd mae teuluoedd wedi elwa o'r gweithgareddau hyn, yn enwedig yn dilyn cyfyngiadau Covid-19.

Diolch i chi am y cyfle i wneud haf o hwyl. Cafodd y plant a'r rhieni fodd i fyw. Roedd hi'n hyfryd gweld cyfeillgarwch yn tyfu drwy'r gweithgareddau a bu teuluoedd yn rhoi cynnig ar weithgareddau gwahanol na fydden nhw erioed wedi meddwl a fyddai'n bosibl.

Aelod staff o Cyswllt Conwy

Cawsom sylwadau cadarnhaol iawn am yr amryw o weithgareddau celf a diwylliant ar gyfer teuluoedd:

Amser anhygoel!

Fe wnaeth fy machgen bach fwynhau'n ofnadwy, diolch.

Roedd fy mhiant wrth eu boddau.

Cwpwl o oriau hwyliog dros ben.

Roedd fy mhiant wrth eu boddau, fe gawson nhw brynhawn gwych, diolch yn fawr.

Ar y cyfan, cawsom adborth cadarnhaol da gan rieni ond credaf fod hynny gan eu bod yn falch o gael mynd allan ar ôl ychydig o fisoedd anodd ac roedden nhw'n gwerthfawrogi'r holl weithgareddau creadigol. Mae'r un peth yn wir am ein hwyluswyr gan nad oedd llawer o weithwyr llawrydd wedi bod yn gweithio ac felly roedden nhw'n falch iawn o allu cynnal sesiynau gwych unwaith eto.

Beth oedd yr heriau?

Darparwyd cyllid ychwanegol i gynnal rhaglen debyg o weithgareddau dan yr enw 'Gaeaf Llawn Lles' o fis Hydref 2021 a thros gyfnod y gaeaf. Cwblhawyd canllawiau grant Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr ac felly roedd hyn yn cyflwyno rhai heriau wrth gadarnhau agenda'r rhaglen er mwyn sicrhau y byddai'r holl weithgareddau o fewn meini prawf y grant.

Er mwyn creu rhaglen o weithgareddau amrywiol ar gyfer grwpiau oedran a galluoedd amrywiol, roedd angen i ni weithio gyda nifer o bartneriaid er mwyn cyrraedd darparwyr posibl a allai gyfrannu at y rhaglen weithgareddau hon, a sicrhau amrywiaeth a dosbarthiad eang o gynigion ledled y sir.

Roedd marchnata yn un o'r heriau eraill a gafodd y darparwyr, er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i'w digwyddiadau i sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn manteisio arnyn nhw.

Beth nesaf?

Mae gennym ni nawr gronfa ddata well o ddarparwyr i'w defnyddio ar gyfer rhaglenni yn y dyfodol, ynghyd â gwybodaeth werthfawr ynghylch pa weithgareddau a oedd yn boblogaidd iawn. Mae gennym ni hefyd adborth gan blant a'u teuluoedd a fydd yn helpu i ddylanwadu ar benderfyniadau a wneir wrth greu rhaglenni gweithgareddau yn y dyfodol.

Gwasanaethau Dementia: Gweithwyr Cefnogi Dementia

Mae'r Gronfa Gofal Canolraddol wedi rhoi cyfle i ni gynyddu nifer y staff y gallwn eu defnyddio ar gyfer gwasanaethau cefnogi dementia yng Nghonwy ac, i'r perwyl hwnnw, rydym wedi penodi pump o weithwyr cefnogi dementia i gefnogi pob un o'n pump Tîm Adnoddau Cymunedol.

Mae'r unigolion hyn yn derbyn atgyfeiriadau gan unrhyw aelod o'r Tîm Amlddisgyblaethol. Nid oes unrhyw feini prawf cymhwyso ffurfiol ar gyfer eu gwasanaethau ac mae ganddyn nhw lawer o ymreolaeth. Mae hyn yn gwneud y rôl yn eithaf unigryw o ran yr hyblygrwydd a geir wrth gefnogi unigolyn sy'n byw gyda dementia a'u gofalmwr anffurfiol. Nid yw'r gefnogaeth a gynigir yn cael ei phennu yn ôl amser na thasgau, ac nid yw wedi'i chyfyngu o ran amser chwaith, yn hytrach, mae'n canolbwyntio ar y canlyniadau a nodir. Mewn rhai teuluoedd, dyma'r angor sy'n cadw'r ddysgl yn wastad.



Mae gan y Gweithwyr Cefnogi Dementia wybodaeth dda am ba gymorth a gweithgareddau cymunedol sydd ar gael yn eu hardal leol, gan alluogi ac annog unigolion i barhau i fod yn rhan o'u cymuned eu hunain, a chyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw a byw'n dda gyda'u dementia. Mae ganddyn nhw hefyd gysylltiadau gyda sefydliadau eraill yn y gymuned leol megis y Gymdeithas Alzheimer's, Ymddiriedolaeth y Gofalmwr, Men's Sheds a digwyddiadau a gweithgareddau lles. Maen nhw hefyd yn gallu creu grwpiau cymunedol pan welir bwlch, er enghraifft grŵp *Gwau a Gwnio* a sefydlwyd yn ein Tîm Adnoddau Cymunedol mewn ardal wledig.

Nodwyd bod cefnogi unigolion a'u gofalmwr anffurfiol i gael mynediad at hyfforddiant yn un o brif amcanion y rôl, a gwelwyd bod hyn yn bwysig iawn, yn enwedig gan fod gwŷr/gwagedd yn gweld bod eu rôl yn newid i fod yn ofalwr mewn perthynas, yn aml yn ddiweddarach yn eu bywyd. Er enghraifft, rhoddwyd cefnogaeth i deuluoedd fanteisio ar y profiad dementia rhithiol ar y Bws Dementia teithiol.

Maen nhw wedi rhoi cefnogaeth i unigolion yn ystod asesiadau ffurfiol, yn ystod y broses ddiogelu ac mewn apwyntiadau yn y clinig cof. Ar adegau, gwelwyd bod hyn yn allweddol er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i bobl.

Mae'r rôl hefyd yn allweddol er mwyn cefnogi'r gofalmwr yn ogystal â'r unigolyn; cafodd eu cefnogaeth ei gwerthfawrogi a gwelwyd fod hyn yn llwyddiant gan fod y gweithiwr cefnogi wedi llwyddo i ffurfio perthynas llawn parch ac ymddiriedaeth gyda'r unigolyn a'i deulu ehangach.

Drwy gefnogi gofalmwr i gydnabod y gwaith da maen nhw'n ei wneud a gwella eu hyder, rydym yn gwneud gwahaniaeth i'r ffordd maen nhw'n teimlo am eu dyletswyddau gofal.

Mae gan y Gweithiwr Dementia fynediad at dechnoleg sy'n gallu cefnogi pobl i aros yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Maen nhw'n gallu benthyg offer megis iPad ac Alexa, gan roi amser i asesu'r manteision i'r unigolyn.

Beth oedd yr heriau?

Gan mai cyllid dros dro a gafwyd yn wreiddiol, roedd hi'n anodd recriwtio ar gyfer y swyddi ond mae bellach wedi newid i fod yn gyllid rheolaidd, felly rydym wedi llwyddo i'w gwneud yn bump swydd barhaol.

Gan fod cyfraniad y Gweithwyr Dementia bellach yn werthfawr iawn i unigolion, i'w gofalwyr anffurfiol ac i'r Tîm Adnoddau Cymunedol, nid ydyn nhw bob amser yn gallu rhoi'r gorau i gynnig cefnogaeth, felly nid ydyn nhw'n gallu derbyn atgyfeiriadau newydd. Drwy gydweithio, defnyddio technoleg a gweithio gyda'r trydydd sector a'r gymuned i ganfod cefnogaeth amgen, rydym wedi llwyddo i ddatrys y broblem.

Gall technoleg gynorthwyo unigolion i fyw'n annibynnol ac yn dda gyda'u dementia, er enghraifft GPS, dyfeisiau Alexa a chlociau digidol. Yn anffodus nid oes gan lawer o unigolion fynediad at Wi-fi yn eu cartrefi er mwyn manteisio ar ddyfeisiau llechen ac ati a gall hyn fod yn rhwystr i gael mynediad at lawer o wasanaethau a allai ysgafnhau rhywfaint o'r straen ar ofalwyr.

Beth nesaf?

Er mwyn parhau i wella a datblygu'r gwasanaeth, rydym yn gofyn i unigolion a'u gofalwyr lenwi ffurflenni monitro ansawdd fel y gallwn ni eu defnyddio i ddysgu a gwella.

Mae adborth a geir gan aelodau'r Tîm Adnoddau Cymunedol yn awgrymu bod y Gweithwyr Dementia bellach yn aelodau allweddol o'r tîm, ac mae sicrhau eu bod yn hygyrch i bawb wedi gweithio'n dda, yn enwedig y ffaith eu bod yn rheoli eu hunain heb unrhyw feini prawf cymhwysedd.

Gan fod hyn yn syniad newydd ac yn swydd newydd yng Nghonwy rydym wedi gorfod dysgu wrth i bob her newydd ddod i'r amlwg.

Astudiaeth Achos

Mae ymwneud ag X a'i gŵr yn rhoi trefn a chysondeb. Mae hyn yn ei helpu hi gan fod yn well ganddi pan fo pethau'n cael eu gwneud mewn

trefn a'u bod yn ganolog i'w gofal. Mae angen y gefnogaeth ar ei gŵr, sef ei phrif ofalwr, ac mae e'n gwerthfawrogi fy ymweliadau. Mae e'n gwerthfawrogi mod i yno i gefnogi a chyfeirio, gan fod bywyd yn anodd iddo'n gyffredinol. Mae gan X amryw o anghenion meddygol cymhleth ac rydw i wedi ei chefnogi hi a'i gŵr drwy drefnu apwyntiadau gyda nhw.

Mae dementia X yn heriol iawn, ac yn ei gwneud yn ddibynnol ar ei gŵr. Gallaf gynnig cymorth a chefnogaeth emosiynol ac ymarferol i'r ddau ohonyn nhw, ac mae hyn wedi helpu i atal y sefyllfa rhag mynd yn ormod i'r gofalwr ac osgoi'r angen i gael ymyraethau gofal cymdeithasol hyd yma.

Gwasanaethau Dementia: Tîm Cefnogi Dementia

Mae arian o'r Gronfa Gofal Canolraddol hefyd wedi ein galluogi i brofi'r syniad o gael ffordd fwy hyblyg i ddarparu gofal a chymorth yn y gymuned ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia, a'u gofalwyr.

Mae'r Tîm Cefnogi Dementia yn cynnwys wyth gweithiwr cefnogi sy'n cynnig cefnogaeth estyn allan hyblyg, wedi'i phersonoli gan ddefnyddio dull "tîm o amgylch yr unigolyn" o'r diagnosis cyntaf, sy'n galluogi pobl i fyw'n dda gyda dementia, yn eu cartrefi eu hunain. Mae hyn yn cynnwys oedolion gyda dementia cynnar, a rhai gydag anableddau dysgu, a chaiff ei gynnig yn ddwyieithog, yn dibynnu ar ddewis y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a'r hyn maen nhw'n ei ffafrio. Mae'r tîm yn cynnig elfen o gyfeirio cymunedol (cyfeirio pobl at wasanaethau eraill) a chefnogaeth eirioli ar gyfer pobl gyda dementia a'u gofalwyr. Mae'r tîm hefyd yn fedrus a chymwys i gyflawni dyletswyddau gofal iechyd wedi'u dirprwyo, e.e. cymryd samplau gwaed. Mae'r tîm yn gweithredu fel man cyswllt allweddol i deuluoedd er mwyn eu cynorthwyo gyda chymhlethdodau'r system iechyd a gofal cymdeithasol.

Rhaid bod yn hyblyg; bydd y gweithwyr yn ymateb i anghenion yn hytrach na darparu cymorth yn ôl amserlenni gwaith. Maen nhw'n cynnig

cefnogaeth ychwanegol i'r rhai lle bydd gofal cartref traddodiadol yn methu, a bod angen cefnogaeth mwy hyblyg i gynnal annibyniaeth.

Mae'r tîm wedi galluogi pobl sy'n byw gyda dementia i gadw eu hannibyniaeth ac aros gartref, ac osgoi gorfod anfon pobl i'r ysbyty neu i ofal preswyl yn ddiangen, a gohirio'r angen am wasanaethau o'r fath. Maen nhw hefyd wedi lleihau'r oedi pan fo angen anfon rhywun adref o'r ysbyty. Yn y cyd-destun lleol, mae hyn yn golygu llai o achosion Oedi wrth Drosglwyddo Gofal o'r ysbyty seiciatrig, a defnyddio llai o leoliadau y tu allan i'r dalgylch, ac felly amharu llai ar deuluoedd ac achosi llai o boen meddwl iddyn nhw, yn ogystal â'r arbedion ariannol o ran costau lleoliadau. Credir y bydd y gefnogaeth fwy effeithiol hon ar gyfer y rhai sy'n gofalu am bobl gyda dementia yn effeithio'n gadarnhaol ar wytnwch gofalwyr a bydd yn lleihau achosion argyfyngus.

Beth oedd yr heriau?

Unwaith eto, mae natur dros dro cyllid y Gronfa Gofal Integredig wedi ei gwneud yn anodd iawn recriwtio ar gyfer y tîm ac nid ydym wedi gallu penodi ar gyfer pob swydd hyd heddiw.

Mae'r ddwy flynedd ddiwethaf wedi effeithio'n fawr ar ein cynlluniau i dreialu gwasanaeth mwy hyblyg yn ein cartref preswyl ar gyfer yr Henoed â Salwch Meddwl (Llys Elian) a'i gysylltu gyda gwaith y tîm hwn. Roeddem wedi gobeithio y gallai'r tîm ddefnyddio gwasanaethau seibiant Llys Elian dros nos ac yn ystod y dydd, wrth i anghenion pobl ddwysáu, ond oherwydd cyfyngiadau Covid ar draws y sector cartrefi gofal, nid ydym wedi gallu bwrw ymlaen gyda hyn o gwbl. Heb ystyried hyn, mae'r tîm ei hun wedi cael effaith gadarnhaol ar fywydau rhai unigolion.

Beth nesaf?

Cawsom wybod yn ddiweddar y byddwn yn derbyn y cyllid yn rheolaidd ac felly gobeithio y bydd hyn yn helpu i recriwtio staff ar gyfer y gwasanaeth. Wrth i gyfyngiadau Covid lacio, rydym hefyd yn rhagweld y gallwn ni fwrw ymlaen gyda'r cynlluniau i gryfhau'r cysylltiadau sydd gan y tîm gyda'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn Llys Elian ar hyn o

bryd a fydd, yn ei dro, yn helpu i lywio model y ddarpariaeth gwasanaethau a gynigir yno yn y dyfodol.

Bwthyn y Ddôl

Fel rhan o'r weledigaeth ranbarthol ar gyfer gwasanaethau lleol di-dor ac wrth ymateb i gynllun "Cymru Iachach", mae'r Tîm Amlddisgyblaethol Peripatetig a'r Ganolfan Asesu, sef Bwthyn y Ddôl, yn brosiect trawsnewid allweddol ar gyfer rhanbarth canol Gogledd Cymru, a gynhelir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych a BIPBC.

Mae'r tîm amlddisgyblaethol yn dîm asesu ac ymyrryd therapiwtig amlbroffesiwn dros gyfnod byr (12 wythnos). Ar ddiwedd y 12 wythnos ceir fformiwleiddio manwl ar gyfer y teulu a'r asiantaethau cyfeirio. Mae'r tîm yn cydweithio gyda'r teuluoedd i ddeall eu plentyn a chreu newid cadarnhaol yn y ffordd mae'r teuluoedd yn gweithredu, gan anelu at:

- Sicrhau bod y plentyn/plant yn aros gartref yn ddiogel.
- Sicrhau bod y plentyn/plant yn dychwelyd gartref neu i gartref aelod o'r teulu'n ddiogel.
- Cynorthwyo i lywio ac arwain cynllun amgen priodol ar gyfer y plentyn/plant pan nad yw'n briodol iddyn nhw ddychwelyd gartref.

Gwneir hyn ochr yn ochr â galluogi rhieni i drawsnewid eu sgiliau rhianta er mwyn diwallu anghenion eu plant.

Mewn data rheoli a chyfweliadau gyda rhieni, awgrymwyd y gallai tîm Bwthyn y Ddôl ymateb o fewn ychydig o ddyddiau ar ôl derbyn atgyfeiriad. Roedd ymateb cyflym yn hollbwysig mewn sawl achos, gan fod gofal teulu bron iawn â methu neu eisoes wedi methu.

Yn y cyfnod rhwng Ebrill a Rhagfyr 2021, roedd y tîm wedi cynnal 69 ymgynghoriad, 189 ymyrraeth ar sail tystiolaeth, a llwyddwyd i osgoi cyfanswm o 878 wythnos o ofal.

Beth oedd yr heriau?

Mae pandemig Covid-19 wedi amharu ar y gwasanaeth gan fod yr asesiadau risg wedi atal ymgynghoriadau wyneb yn wyneb, ynghyd ag apwyntiadau'n cael eu canslo gan fod angen i staff ac aelodau o'r teulu hunanynysu.

Mae'r Ganolfan Asesu Breswyl i Blant sydd ar y gorwel (Bwthyn y Ddôl) yn rhan ganolog o fodel y Tîm Amlddisgyblaethol. Gwelwyd oedi gyda'r gwaith adeiladu a disgwylir iddo nawr fod ar agor yn haf 2023.

Beth nesaf?

Mae darpariaeth Canolfan Asesu Breswyl i Blant (Bwthyn y Ddôl) yn rhan ganolog o fodel y Tîm Amlddisgyblaethol ac rydym yn chwilio am Ganolfan dros dro er mwyn darparu Canolfan asesu dros dro, nes bydd y gwaith adeiladu wedi ei orffen.

Mae'r tîm wedi rhoi cychwyn da arni. Mae'r model gofal wedi ei ymgorffori gyda gwaith amlasiantaethol wrth ei wraidd a gwelir arwyddion addawol bod plant, pobl ifanc a theuluoedd yn dechrau gweld newidiadau cadarnhaol yn eu bywydau. Bydd y Tîm Amlddisgyblaethol yn parhau i ddatblygu eu sgiliau a chyflwyno mesurau ymyrryd i garfanau o blant, pobl ifanc a'u teuluoedd nad oedd darpariaeth dda ar eu cyfer yn system bresennol y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.



Partneriaethau ac Integreiddio

Safon Ansawdd 5: Mae partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a darparu canlyniadau cynaliadwy, cwbl integredig, o ansawdd uchel, i bobl

Cefnogi cartrefi preswyl Conwy drwy gydol y pandemig a thu hwnt

Rydym wedi parhau i ddarparu llwybr cyfathrebu hanfodol rhwng cartrefi gofal a'r Awdurdod Lleol, y Bwrdd Iechyd ac asiantaethau eraill. Gyda'r pwysau sy'n gysylltiedig â Covid yn parhau ar gartrefi gofal yn ystod 2021-22, rydym wedi eu cefnogi'n rheolaidd ac rydym wedi meithrin diwylliant rhannu gwybodaeth. Rydym yn gobeithio y gallwn ni ddatblygu mwy ar y gefnogaeth honno yn 2022 drwy ei hymestyn i fathau eraill o ddarparwyr.

Sicrhau ansawdd ein gwasanaethau a gomisiynwyd

Mae'r Fframwaith Sicrwydd Ansawdd Rhanbarthol newydd ar gyfer Gwasanaethau a Gomisiynwyd wedi ei sefydlu gyda'r nod o sicrhau rhagoriaeth gyda'n gwasanaethau a gomisiynwyd ledled Gogledd Cymru. Bydd yr holl randdeiliaid, yn cynnwys y chwech Awdurdod Lleol, yr Heddlu, AGC a BIPBC yn 'ymrwymo i gydweithio er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer unigolion sy'n derbyn gwasanaethau a gomisiynwyd'. Mae egwyddorion allweddol yn sail i'r Fframwaith Sicrwydd Ansawdd a fydd yn:

- Sicrhau bod gwasanaethau darparwyr yn ddiogel, yn bersonol, yn effeithiol ac yn gwella'n barhaus.

- Sicrhau bod y systemau sicrhau ansawdd cywir ar waith fel bod y safonau gofal yn cael eu disgrifio a'u dangos yn effeithiol.
- Sicrhau bod canlyniadau ansawdd yn cael eu monitro a'u hadolygu, a gweithredu os gwelir bod ansawdd y gwasanaeth wedi dirywio.
- Sefydlu strwythur llywodraethu er mwyn monitro ansawdd a diogelwch yn cynnwys dadansoddi gofal wedi'i bersonoli, effeithiolrwydd a diogelwch.
- Defnyddio adborth gan gleifion a'u teuluoedd i ddarparu gwybodaeth ar gyfer y rhaglen ansawdd, ynghyd â chwynion a phryderon.
- Cefnogi'r Sector drwy sicrhau bod modd cael mynediad prydlon at gefnogaeth i dimau amlddisgyblaethol clinigol a sefydliadol.
- Cefnogi darparwyr i fod yn arloesol a darparu arferion ar sail tystiolaeth i wella'n barhaus.
- Sicrhau ein bod yn rhoi unigolion wrth wraidd gwaith cynllunio a darparu gofal.
- Sicrhau dulliau cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol drwy ystod eang o gyfryngau hygyrch, yn ddigidol, ar y cyfryngau cymdeithasol, mewn telegynadleda a digwyddiadau.

Gweithio mewn partneriaeth er mwyn comisiynu gwasanaethau i bobl hŷn

Mae'r prosiect rydym yn ymgymryd ag ef i adolygu a moderneiddio'r broses gomisiynu ynghylch gwasanaethau i bobl hŷn yn ddull amlddisgyblaethol. Bydd ei lwyddiant yn dibynnu ar gyfraniadau amryw o dimau mewnol ac allanol. Mae'r heriau sy'n wynebu'r sector gofal cartref wedi cael llawer o sylw dros y blynyddoedd, ac maen nhw wedi gwaethygu'n sgil Covid-19. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a

Llesiant (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i ni fabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac unigolion wrth gomisiynu a darparu gofal. Ar hyn o bryd rydym yn dal i ganolbwyntio ar amser a thasgau, ac rydym yn ymwybodol y bydd angen newid y diwylliant ym mhob rhan o'r sector er mwyn cael dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

Mae ein darparwyr yn wynebu heriau o ran recriwtio a chadw staff ac mae hyn yn effeithio ar eu gallu i ddarparu'r pecynnau gofal y mae angen i ni eu comisiynu ganddyn nhw. Gan fod disgwyl i nifer y bobl dros 65 oed gynyddu yng Nghonwy yn y dyfodol rhagweladwy, gallwn ddisgwyl y bydd mwy o alw am wasanaethau pobl hŷn hefyd, ynghyd â nifer yr achosion cymhleth.

Rydym yn awyddus i symleiddio'r prosesau rydym yn eu defnyddio i filio unigolion am y gwasanaethau maen nhw'n eu derbyn, a sut rydym yn gwneud trafodion ariannol gyda'n darparwyr. Ein nod yw cyflwyno:

- Pecynnau gofal mwy hyblyg sy'n ystyried beth sy'n bwysig i'r unigolion a sut yr hoffon nhw gyflawni eu canlyniadau personol.
- Sicrhau y gellir trefnu pecynnau gofal yn yr ardal leol.
- Proses anfonebu symlach gyda'n darparwyr.
- Darparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn gyson.

Bydd y cynlluniau newydd hyn yn cynnig mwy o sicrwydd i'n darparwyr ac yn cefnogi amodau gwaith gwell ar gyfer recriwtio a chadw staff. Byddwn yn *cydweithio* gyda'n darparwyr a gomisiynwyd fel partneriaid, gan sicrhau bod ein gwasanaethau'n cael eu moderneiddio, a'u bod yn effeithlon ac yn cynorthwyo unigolion diamddiffyn yng Nghonwy i aros yn eu cartrefi eu hunain cyn hired â phosibl.



Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol

Sefydlwyd y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol yn 2019 er mwyn parhau i ddatblygu'r Timau Adnoddau Cymunedol a sefydlwyd. Cafodd y rhaglen ei hariannu drwy'r Gronfa Gofal Integredig a grant Trawsnewid.

Cam cyntaf y Rhaglen Trawsnewid oedd canfod a darparu tystiolaeth am y rhwystrau sefydliadol a systemig a oedd yn cyfyngu ar ragor o integreiddio rhwng y gwasanaethau lechyd a Gofal Cymdeithasol. Drwy nifer o ffrydiau gwaith rhyng-gysylltiedig, bydd y rhaglen yn helpu i lunio cynllun ar gyfer datblygiad a chynaliadwyedd ardaloedd y Timau Adnoddau Cymunedol yn yr hirdymor a chyflawni'r weledigaeth ar gyfer integreiddio a gofal yn seiliedig ar leoedd, fel yr amlinellir yng nghynllun Cymru Iachach.

Beth rydym yn bwriadu ei wneud

Ceir chwech ffrwd waith sy'n seiliedig ar themâu:

- Deall y systemau lechyd a Gofal Cymdeithasol cyfan i gael darlun deallus a chyflawn o'r galw, y capasiti, y llif a'r gost.
- Datblygu strategaeth gweithlu sy'n seiliedig ar gymhwysedd sydd wedi'i dylunio i fodloni'r uchelgais i gael modelau gofal di-dor.
- Datblygu a darparu rhaglen ymgysylltu sy'n caniatáu i ddinasyddion, gofalcwyr a chymunedau rannu eu profiadau a chwarae rhan ragweithiol wrth lunio gwasanaethau yn y dyfodol.
- Trwy ymgynghori ac archwilio achosion, dadansoddi effeithiolrwydd ein ffyrdd presennol o weithio, nodi arferion da a'r elfennau ail-ddylunio sydd eu hangen i gefnogi modelau gofal di-dor newydd.
- Sefydlu endid rheoli lechyd a Gofal Cymdeithasol integredig a fydd yn creu'r amodau er mwyn i adnoddau cymunedol lechyd, Gofal Cymdeithasol, partneriaid yn y Trydydd Sector a'r gymuned

leol allu cydweithio i ddiwallu a chefnogi anghenion a gwella iechyd a lles (yn cynnwys trawsnewidiad a chyd-leoliad digidol).

- Cytuno ar fodel gwasanaeth a fframwaith ar gyfer darpariaeth gofal integredig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan ystyried agweddau pwysig o'u bywydau, eu hamcanion a beth sy'n bwysig iddynt.



Beth oedd y prif lwyddiannau drwy roi'r rhaglen ar waith?

Mae'r chwech ffrwd waith sy'n seiliedig ar themâu yn tynnu at eu terfyn ac mae canfyddiadau nawr yn cael eu casglu er mwyn bwydo camau nesaf y cynllun newid gweddnewidiol. Dyma brif lwyddiannau'r rhaglen:

- Mewnwelediad i'r systemau lechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n rhoi darlun am gyfyngiadau, galw, capasiti, llif a chost y system.

- Asesiad diwylliannol ac ymholiad gwerthfawrogl o bartneriaid a gwasanaethau uniongyrchol er mwyn gweld pa mor barod ydyn nhw i newid a faint o awydd sydd yna ar gyfer gweithio mewn partneriaeth.
- Fframwaith atebolrwydd a thempled rôl ar gyfer Cydlynwyr Gofal, Gweinyddwyr a Gweithwyr Cefnogi Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig.
- Mewnwelediad i brofiadau dinasyddion, gofalmwyr a chymunedau er mwyn sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed a'i fod yn dylanwadu ar y modd y caiff gwasanaethau eu llunio yn y dyfodol.
- Dyfeisiwyd dull archwilio achosion amlasiantaethol i ddadansoddi effeithiolrwydd ein ffyrdd presennol o weithio, nodi arferion da a'r elfennau ail-ddylunio sydd eu hangen i gefnogi modelau gofal di-dor newydd.
- Mae tair ardal lechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig wedi'u ffurfio gydag aelodau o'r gwasanaeth lechyd, yn cynnwys gofal sylfaenol, Gofal Cymdeithasol a'r Trydydd Sector. Bydd y cyrff ardal leol hyn yn cynllunio ar gyfer arweinyddiaeth, llywodraethu, comisiynu a defnyddio adnoddau ar lefel leol.
- Rhaglen datblygu arweinyddiaeth ar gyfer uwch arweinwyr yn canolbwyntio ar arwain newid, sgiliau ymarfer perthynol a chydweithredol.
- Mae tîm y rhaglen yn defnyddio Office 365 ac yn asesu sut y gall gefnogi gwaith tîm integredig.

Parhau i gefnogi datblygiad Timau Adnoddau Cymunedol

- Byddwn yn hwyluso gweithdai er mwyn cwblhau matrices aeddfedrwydd, a fydd yn llywio datblygiad cynlluniau gweithredu.

- Ni fydd yn gyfrifol am gydlyn cyfarfodydd Grŵp Ffocws y Timau Adnoddau Cymunedol.
- Mae'r holl Dimau Adnoddau Cymunedol nawr wedi eu cydleoli.
- Bydd y Tîm Datblygu Cenedlaethol ar gyfer Cynhwysiant yn cynnig gweithdai ar gyfer staff Timau Adnoddau Cymunedol Conwy i bwysu a mesur ac ystyried sut mae'r tîm yn gweithio, profiad y ddwy flynedd ddiwethaf, a sut mae pethau wedi newid neu wella wrth symud ymlaen.
- Cyflwynir system cylchdroi Therapyddion Galwedigaethol o'r Bwrdd Iechyd i gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus.

Beth oedd yr heriau?

Mae'r galw diderfyn ar y gwasanaethau i ymateb i'r pandemig wedi parhau i gyfyngu ar gapasiti'r gweithlu a'r rheolwyr drwy gydol y rhaglen ac mae hyn wedi effeithio ar weithgareddau a drefnwyd ac i ba raddau y cynhelir gwaith ymgysylltu. Yn ogystal â hyn, roedd sicrhau bod cytundebau llywodraethu gwybodaeth yn barod wedi golygu bod peth oedi wrth ddechrau rhai elfennau o'r gwaith paru data.

Beth nesaf?

Mae canfyddiadau cam cyntaf y rhaglen yn cael eu casglu a byddan nhw'n llywio'r cynlluniau ar gyfer newid ac yn darparu adnoddau ar gyfer eu rhoi ar waith drwy ddefnyddio'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol newydd.

Adborth gan ein Timau Adnoddau Cymunedol

Mae ein Tîm Adnoddau Cymunedol yn ei gwneud yn bosibl i gydleoli cydweithwyr o'r gwasanaethau Gofal Cymdeithasol, Iechyd a'r Sector Gwirfoddol mewn pum swyddfa leol ledled y sir. Unwaith eto, fe ofynnwyd i aelodau'r tîm am eu barn ynghylch sut roedd y bartneriaeth yn gweithio, yn enwedig gan gofio bod cyfyngiadau Covid wedi atal llawer o bobl rhag gallu bod yn y swyddfa.

Ymatebodd cyfanswm o 59 unigolyn i'r arolwg, ac mae 78% ohonyn nhw'n gweithio i'r adran Gofal Cymdeithasol. Dywedodd 76% o'r ymatebwyr eu bod yn hapus neu'n gymharol hapus am weithio yn y Tîm Adnoddau Cymunedol, ac roedd y sylwadau ychwanegol yn awgrymu, er bod cyfyngiadau Covid yn eu lle, y gellir parhau i ffurfio perthnasoedd gwaith da ar draws y sefydliadau.

Hapus i gael mynediad at y tîm a defnyddio'r cysylltiadau a'r wybodaeth sydd gan aelodau gwahanol a all fod yn benodol i fy rôl i. Hefyd cael mynediad at unigolion a thimau i ofyn am gyngor neu gymorth.

Serch hynny, i rai pobl, mae gweithio gartref oherwydd y pandemig wedi effeithio ar allu'r Tîm Adnoddau Cymunedol i weithio fel tîm cydlynol.

Oherwydd y pandemig presennol a gweithio gartref, mae wedi bod yn anodd gweithio o fewn ethos y Tîm Adnoddau Cymunedol yn gyfan gwbl.

Roedd 59% o ymatebwyr yn gadarnhaol am allu'r Tîm Adnoddau Cymunedol i hwyluso a gwella'u dysgu a'u gwybodaeth eu hunain am broffesiynau/gwasanaethau eraill, a dim ond 7% yn nodi nad oedd unrhyw fanteision o gwbl.

Roedd 74% o'r ymatebwyr yn cytuno bod cydweithio o fewn y Tîm Adnoddau Cymunedol wedi gwella'r gwasanaeth i ddinasyddion, a llawer yn teimlo bod cydweithio'n symleiddio'r broses ac yn hybu mynediad at wasanaethau y gellid eu methu fel arall.

Rwyf wedi dod yn fwy ymwybodol o wasanaethau o fewn y Tîm Adnoddau Cymunedol ehangach, er enghraifft y Ganolfan i Deuluoedd a'r Fferyllfa, a sut gallwn ni weithio gyda'n gilydd mewn ffordd ataliol.

Gan fod modd rhannu gwybodaeth ac arbenigedd rhwng y gweithwyr proffesiynol, gall dinasyddion ddysgu am, a chael mynediad at, gefnogaeth a darpariaeth gymunedol sy'n ffafriol i les unigolion, ac mae pob un o'r rhain yn effeithio [yn gadarnhaol] ar nifer y bobl sy'n treulio cyfnod yn yr ysbyty a'r angen i gael gofal ychwanegol.

Nid yw'r Timau Adnoddau Cymunedol wedi cyrraedd eu llawn botensial eto, ond maen nhw'n sicr yn mynd i'r cyfeiriad cywir!

Pan ofynnwyd a yw'r Timau Adnoddau Cymunedol yn cefnogi ei gilydd, cafwyd ymateb cymysg, a 39% yn cytuno bod hyn yn digwydd ar adegau. Roedd dau reswm am hyn, sef gorfod bod ar wahân drwy weithio gartref, a'r teimlad bod yna lai o gefnogaeth yn y maes cymorth i fusnesau, na'r hyn a geir rhwng ymarferwyr. Yn sicr mae yna waith i'w wneud yn y maes hwn pan fydd pobl yn mynychu'r swyddfa'n fwy rheolaidd, ond pan gafwyd sylwadau pellach gan ymatebwyr, roedd llawer ohonyn nhw'n gadarnhaol.

Heb os nac oni bai, rhoddir llawer o gefnogaeth i'n gilydd/cefnogaeth ar y cyd.

Fe wnaethom ofyn i aelodau'r tîm sut roedden nhw'n teimlo am weithio yn y Tîm Adnoddau Cymunedol wrth edrych tua'r dyfodol, a nododd 62% eu bod yn teimlo'n gadarnhaol neu'n gadarnhaol iawn amdano. Cydnabyddir bod angen gwneud gwelliannau o ran darpariaeth TG ar gyfer gweithio di-dor, ond teimlai llawer mai teitl swyddogol yn unig yw'r Tîm Adnoddau Cymunedol ar gyfer dull gweithio sydd eisoes yn bodoli. Bydd gweithio yn y swyddfa, pan fydd hi'n ddiogel gwneud hynny, yn creu

mwy o gyfleoedd i gydweithio a chynnal ymweliadau ar y cyd, yn ogystal â chaniatáu'r cyfathrebu arferol a geir mewn lleoliad a rennir.

Mae gweithio mewn Tîm Adnoddau Cymunedol yn rhan bwysig iawn o fy rôl. Bu gweithio ochr yn ochr â'r Tîm Adnoddau Cymunedol yn hynod o bwysig ers dechrau gweithio gartref. Rwy'n teimlo bod dulliau cyfathrebu da wedi parhau gyda'r Tîm ac, yn ei dro, fod hynny wedi cynnig gwasanaeth da i'r unigolion rwy'n eu cefnogi. Rwy'n hapus am weithio mewn Tîm Adnoddau Cymunedol yn y dyfodol a theimlaf ei fod yn rhan hanfodol o fy swydd.

Mae'n cyflymu atgyfeiriadau. Gellir cyfnewid gwybodaeth rhwng gwasanaethau'n gyflymach a'i rannu gyda dinasyddion a gall sicrhau llif gwell o ran gofal a gwasanaethau. Gall hyn fod yn ddefnyddiol iawn, yn enwedig os bydd iechyd a lles yn y fantol.

Datblygu ein timau Therapi Galwedigaethol

Fel y soniwyd eisoes, hoffem gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus ein timau Therapyddion Galwedigaethol yn y Timau Adnoddau Cymunedol ac rydym wedi edrych yn agosach ar dri maes i'w datblygu.

Recriwtio a Chadw Therapyddion Galwedigaethol

Mae strategaethau recriwtio sefydliadol unigol wedi arwain at ddull cystadleuol i recriwtio Therapyddion Galwedigaethol ym mhob sefydliad yng Ngogledd Cymru. Mae angen cynllun datblygu gweithlu integredig mewn perthynas â recriwtio a chadw Therapyddion Galwedigaethol newydd gymhwyso yn BIPBC, CBS Conwy a Chyngor Sir Ddinbych ac mae hyn nawr yn flaenoriaeth frys.

Ar hyn o bryd, nid oes gan CBS Conwy na Chyngor Sir Ddinbych fynediad cyfartal at raddedigion Therapi Galwedigaethol sydd newydd gymhwyso

o Brifysgol Glyndŵr. Bydd cael mynediad cyfartal at raddedigion Therapi Galwedigaethol newydd yn hanfodol wrth symud ymlaen er mwyn recriwtio i swyddi gwag yn y Tîm Adnoddau Cymunedol. Mae BIPBC wedi cynnig cynnwys lleoliad mewn Awdurdod Lleol fel rhan o system cylchdroi Therapyddion Galwedigaethol Band 5 BIPBC yn Nhimau Adnoddau Cymunedol Conwy a Sir Ddinbych. Bydd cynnwys lleoliad gofal cymdeithasol fel rhan o system cylchdroi Band 5 BIPBC yn rhoi cyfle i Therapyddion Galwedigaethol newydd gymhwyso ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau mewn lleoliadau yn yr Awdurdod Lleol. Mae gwybod am leoliadau gofal cymdeithasol yn hanfodol er mwyn ymgeisio am swydd gydag Awdurdod Lleol.

Gobeithir y bydd Cyngor Conwy a Chyngor Sir Ddinbych yn darparu adnoddau ariannol a goruchwyliol er mwyn sicrhau bod graddedigion newydd Therapi Galwedigaethol a gyflogir gan BIPBC yn magu profiad o weithio mewn lleoliadau yn yr Awdurdod Lleol.

Hyfforddiant integredig ar gyfer Therapyddion Galwedigaethol BIPBC ac Awdurdodau Lleol

Ar hyn o bryd, mae pob sefydliad yn comisiynu darparwyr hyfforddiant i gwrdd â gofynion proffesiynol y Therapyddion Galwedigaethol ym mhob sefydliad. Er hynny, mae sawl agwedd o arferion proffesiynol yn gorgyffwrdd rhwng y sefydliadau gwahanol, er enghraifft codi a symud yn gorfforol. Byddai cael cynllun hyfforddiant integredig wedi osgoi gwaith trosglwyddo diangen, gweithio seilo a byddai wedi hybu defnydd mwy effeithlon o adnoddau Therapi Galwedigaethol yn y Timau Adnoddau Cymunedol.

Rydym yn gobeithio y bydd rheolwyr BIPBC, CBS Conwy a Chyngor Sir Ddinbych yn cytuno i ddatblygu cynllun hyfforddi integredig ar gyfer Therapyddion Galwedigaethol BIPBC ac Awdurdodau Lleol sy'n gweithio yn y Timau Adnoddau Cymunedol.

Meysydd sy'n gorgyffwrdd rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Awdurdodau Lleol

Ceir cryn dipyn o orgyffwrdd rhwng y timau, er hyn, mae diwylliannau a phrosesau sefydliadol gwahanol wedi sicrhau na chafwyd llawer o drafodaeth rhwng ymarferwyr ynghylch pa waith a chyfrifoldebau y gellid eu rhannu. Er enghraifft, bydd person sydd angen adolygiad ar ôl cael ei anfon adref o'r ysbyty, neu ar ôl gwaith addasu sylweddol, yn cael ei weld gan Therapydd Galwedigaethol BIPBC neu Therapydd Galwedigaethol Awdurdod Lleol ar sail cyfrifoldebau ariannu sefydliadol. Nid yw'r meini prawf gweithredol hyn yn ystyried faint o adnoddau Therapi Galwedigaethol sydd ar gael ym mhob Tîm Adnoddau Cymunedol a chapasiti'r adnoddau hynny i ymateb yn brydlon.

Rydym yn gobeithio y bydd rheolwyr yn y Bwrdd Iechyd a'r Awdurdodau Lleol yn cytuno i adolygu'r dogfennau cymhwysedd proffesiynol cyfredol a datblygu fframwaith cymhwysedd proffesiynol integredig ar gyfer Therapyddion Galwedigaethol sy'n gweithio yn y Timau Adnoddau Cymunedol.

Cyfleuster seibiant Bron y Nant

Rydym yn bwrw iddi gyda'r gwaith i ddarparu'r gwasanaethau newydd a fydd ar gael yng Nghanolfan Seibiant Bron y Nant ar gyfer Pobl Anabl a'r Uned Adnoddau dydd ar gyfer Gofal Cymhleth yn 2022-23. Mae hwn yn ddarn o waith sylweddol, sy'n cynnwys nifer o swyddogion o fewn y Gwasanaeth Anabledd, ein partneriaid yn y gwasanaeth lechyd a thrwy'r adran. Ar ôl iddo agor, bydd yr adnodd yn cynnig llety pwrpasol gwell ar gyfer pobl sy'n derbyn gwasanaethau seibiant yng Nghonwy.

Fel rhan o'r datblygiad, rydym yn bwriadu gweithio gyda menter gymdeithasol i agor caffi a siop ar y safle. Nid yn unig y bydd hyn yn cynnig cyfleoedd gwaith i bobl yn y gymuned leol, ond bydd hefyd yn rhoi profiad gwaith i bobl anabl. Bydd y gwasanaeth yn rhan o'n strategaeth leol i wella mynediad at waith i bobl anabl.

Cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ychwanegol ar gyfer Awdurdodau Lleol er mwyn ysgafnhau'r pwysau ariannol sy'n deillio o'r pandemig. O ran gofal cymdeithasol, roedd y Gronfa Galedi yn caniatáu ar gyfer costau ychwanegol cefnogaeth barhaus ar gyfer darpariaeth fewnol a darpariaeth a gomisiynwyd ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion ym maes gofal cartref, gofal preswyl a byw â chymorth. Roedd hefyd yn ein galluogi i gefnogi darparwyr er mwyn mynd i'r afael â'r pwysau ar sefydlogrwydd y farchnad megis 'lleoedd heb eu llenwi' a chostau annisgwyl neu gostau brys ar draws y sector. Yng Nghonwy rydym wedi hawlio £4.3 miliwn ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol, a chafodd tua hanner ohono ei dalu i gartrefi gofal a darparwyr gofal cartref drwy godi'r ffioedd gofal.

Neilltuwyd y Gronfa Adfer ar ein cyfer er mwyn cynorthwyo'r sector gofal cymdeithasol i gwrdd â'r heriau parhaus sy'n gysylltiedig â'r pandemig, a neilltuwyd arian ar gyfer ymestyn y gronfa gefnogi i ofalwyr, ymdrin ag unigrwydd ymhlith pobl hŷn, buddsoddi yn lles y gweithlu gofal cymdeithasol, a gwasanaethau preswyl ar gyfer plant sydd â phrofiad o ofal. Roedd dyraniad Conwy yn £2.4 miliwn, a gwariwyd £800,000 ohono ar leoliadau annibynnol i blant, £890,000 ar ddarparwyr gofal a £703,000 ar wasanaethau dydd, cludiant, TG, offer, Taliadau Uniongyrchol, hyfforddiant a mwy.

Beth oedd yr heriau?

Cymerwyd llawer o amser i ddosbarthu arian y Gronfa Galedi a'r Gronfa Adfer i'r sector annibynnol, ac roedd ceisiadau'n cael eu hannog a'u derbyn gan ddarparwyr gofal a oedd wedi wynebu costau ychwanegol annisgwyl a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â phandemig Covid.

Beth nesaf?

Daw'r cyllid i ben ar 31 Mawrth 2022 wrth i ni adael y cyfnod ymateb i Covid. Rydym yn talu ffioedd i'r sector gofal, gan ystyried y cyfyngiadau ariannol ar yr Awdurdod Lleol, ochr yn ochr â chostau cynyddol darparu gofal yn yr hinsawdd sydd ohoni. Bydd yr holl ffioedd yn cynyddu o 1

Ebrill 2022 a byddan nhw'n cynnwys y cyflog byw gwirioneddol a delir i staff. Ar yr un pryd, rydym yn cyfrannu at y drafodaeth genedlaethol a'r papur gwyn ynghylch ailgydbwysu gofal a chymorth yng Nghymru.



Safon Ansawdd 6: Mae pobl yn cael eu hannog i gyfrannu at ddyluniad a darpariaeth eu gofal a'u cefnogaeth fel partneriaid cyfartal.

Cael adborth am gefnogaeth ein Canolfannau Teulu

Gofynnwyd i unigolion sy'n derbyn cymorth gan ein Canolfannau Teulu i roi adborth am eu profiadau. Pan ysgrifennwyd yr adroddiad hwn, roedd 77 o bobl wedi cwblhau ein harolwg yn ystod 2021-22 i rannu eu safbwyntiau. Cafwyd adborth hynod o gadarnhaol ar y cyfan.

Allwn i ddim gofyn am weithiwr teulu gwell ac rydw i mor hapus a bodlon gyda'r cynnydd rydym wedi'i wneud fel teulu.

- Cytunai 93% o'r ymatebwyr fod y tîm wedi cysylltu â nhw o fewn wythnos i gael eu manylion.
- Teimlai 100% o'r ymatebwyr fod y tîm yn gyfeillgar, yn onest, yn barchus ac yn broffesiynol.
- Teimlai 96% fod y tîm yn gwrando arnyn nhw a'u bod yn gallu gweithio gyda ni ar wahanol agweddau o fywyd teuluol.
- Teimlai 90% o'r ymatebwyr eu bod yn gallu symud ymlaen gyda'u bywydau'n hyderus, gan wybod bod tîm y Ganolfan Deulu yno i'w helpu pe bai angen.

Cyfeillgar iawn, roedd yn gwneud i mi deimlo'n gyfforddus ac roedd yn gallu cynnig perthynas agored, gonest a chefnogol i mi a fy mhlant.

Teimlaf fod gen i nawr yr hyder i symud ymlaen gyda fy mywyd, diolch i'r Ganolfan Deulu a'm gweithiwr cefnogi.

Byddwn yn parhau i gael adborth am ein perfformiad i ddatblygu a gwella ein gwasanaethau ymhellach.



Canolfan Deulu Eryl Wen

Fe wnaethom ymgynghori ag unigolion sy'n defnyddio Canolfan Deulu Eryl Wen yn Llandudno, yn ogystal â gweithwyr proffesiynol ac unigolion eraill sy'n gweithio gyda ni. Teimlai ymatebwyr fod lleoliad y safle'n gyfleus iddyn nhw, a'i fod yn rhan o'u cymuned a chytunwyd y dylai Canolfan Deulu Llandudno barhau i gael ei lleoli yn Eryl Wen. Mae gwaith wedi dechrau ar welliannau i'r adeilad a dylai'r gwaith hwnnw barhau yn 2022-23 er mwyn darparu'r gofod a'r cyfleusterau gorau bosibl i deuluoedd sy'n ymweld â ni yno. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am unrhyw ddatblygiadau.

Adborth am ein gwasanaeth gofal cartref i bobl hŷn

Rydym yn cynnal arolwg parhaus i roi cyfle i bobl sy'n derbyn gwasanaeth ailalluogi i roi adborth am eu profiad. Mae'r gwasanaeth yn darparu chwech wythnos o gefnogaeth ddwys i unigolion sydd wedi dychwelyd adref ar ôl bod yn aros dros nos yn yr ysbyty, neu sy'n gwella ar ôl salwch neu ddamwain. Y nod yw helpu unigolion i adennill eu hannibyniaeth a'u hyder yn eu cartrefi eu hunain, hyd nes y gellir dod â'r gwasanaethau i ben neu eu cwtogi, yn dibynnu ar yr angen parhaus. Yn ystod 2021-22, gofynnwyd cyfres o gwestiynau i bobl a oedd wedi elwa o'r gwasanaeth am y gofal a'r cymorth roedden nhw wedi'i dderbyn.

- Cytunai 96% eu bod nhw, eu teulu, eu ffrindiau a'u gweithiwr cymdeithasol yn rhan o'r drafodaeth i gynllunio a chytuno ar eu cefnogaeth.
- Teimlai 97% y bodlonwyd eu disgwyliadau am y gwasanaeth.
- Dywedodd 92% ein bod wedi cytuno ar eu canlyniadau personol gyda nhw ar ddechrau'r gwasanaeth.
- Cytunai 90% eu bod wedi cyflawni eu canlyniadau personol erbyn diwedd y cyfnod ymyrryd.
- Darparwyd ar gyfer pawb a oedd wedi mynegi dymuniadau diwylliannol neu grefyddol (38%), ac nid oedd y 62% a oedd yn weddill yn berthnasol.
- Teimlai 99% fod y gefnogaeth a gawson nhw'n hyblyg, er enghraifft o ran amseroedd a hyd.
- Cytunai 90% fod y gefnogaeth a dderbyniwyd yn gyson, hynny yw, mai'r un tîm o staff a oedd yn eu cefnogi.
- Teimlai 100% o'r ymatebwyr fod y cymorth a gawsant wedi'u galluogi i wneud cymaint ag y gallant drostynt eu hunain.

- Teimlai 100% fod ein staff yn ddymunol, yn garedig ac yn gwrtais.
- Byddai 15% o'r ymatebwyr wedi gwerthfawrogi math arall o gefnogaeth fel rhan o'r pecyn, yn cynnwys siopa, glanhau, golchi dillad a mwy o amser i sgwrsio.

Wnaethon nhw wirioneddol fynd y tu hwnt i'r disgwyl. Roedd y tîm yn anhygoel, mor hyfryd gyda Mam....

Y tu hwnt i fy nisgwyliadau i, roedd pawb mor garedig, gofalgar a pharod i helpu. Roedden nhw hefyd yn llawn anogaeth; allwn i wir ddim rhoi digon o ganmoliaeth i'r tîm.

Roedd y merched yn dangos cymaint o barch tuag atom pan oedden nhw yn ein cartref, yn ogystal â dweud wrthym beth roedden nhw wedi'i wneud ac roedden nhw'n dangos gwir ddealltwriaeth o'n sefyllfa ni.

Adborth gan ffrindiau a theulu preswylwyr Llys Elian

Ym mis Chwefror 2022, fe wnaethom gysylltu gyda theulu, gofalwyr a ffrindiau pobl sy'n byw yn Llys Elian er mwyn clywed eu barn nhw am y gwasanaeth mae eu hanwyliaid yn ei dderbyn yno. Cawsom 28 ymateb i'n harolwg ac roedd y sgorau a'r sylwadau'n gadarnhaol dros ben.

Nododd pob un o'r ymatebwyr fod y gofal a'r gefnogaeth yn dda neu'n ardderchog.

Teimlaf fod y tîm yn rhoi popeth o fewn eu gallu i'r preswylwyr. Maen nhw'n neilltuo amser i sgwrsio gyda nhw a thawelu eu meddyliau pan fo angen.

Mae'r gofal a dderbyniwyd wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i iechyd a lles fy mherthynas.

Mae Llys Elian yn lle arbennig iawn, gyda staff anhygoel ac ethos ac ymagwedd fendigedig.

Pan ofynnwyd beth sy'n dda am fyw yno, siaradodd yr ymatebwyr am yr amgylchedd cartrefol a hapus, y staff cyfeillgar ac ansawdd y gofal, y bwyd a'r gweithgareddau:

Gofal, empathi a chefnogaeth i Mam, ynghyd â bwyd a gweithgareddau ardderchog...sefydliad heb ei ail! Da iawn bawb yn Llys Elian!

Roeddem yn falch o weld y byddai 100% o'r ymatebwyr yn argymhell Llys Elian i ffrind neu berthynas:

Ar ôl ystyried popeth, credaf mai dyma un o'r cartrefi sy'n cael ei redeg orau yn yr ardal.

Buaswn yn argymhell Llys Elian dro ar ôl tro.

Roedd hi'n amlwg o'r sylwadau ychwanegol fod cyfyngiadau Covid yng nghyd-destun ymweld â chartrefi gofal wedi bod yn brofiad anodd i lawer o breswylwyr a'u teuluoedd ac maen nhw'n edrych ymlaen at dreulio mwy o amser gwerthfawr gyda'u hanwyliaid dros y misoedd nesaf.

Adborth am ein gweithgareddau Lles Cymunedol

Ym Mai 2021, gofynnwyd i unigolion dros 50 oed a'r bobl sy'n eu cefnogi i ddweud wrthym pa weithgareddau y bydden nhw'n hoffi manteisio arny'n nhw, naill ai ar-lein, neu yn eu cymuned leol, i gefnogi eu hiechyd a'u lles. Cawsom 77 o ymatebion, o bob rhan o'r sir; dyma flas o'r hyn a oedd ganddynt i'w ddweud.

Llandudno a'r ardal gyfagos

- Y tri gweithgaredd mwyaf poblogaidd: cadw'n heini, celf a chrefft, cyrsiau lles/rheoli straen
- Y cais mwyaf poblogaidd: teithiau cerdded
- Y dyddiau a hoffir fwyaf: Dydd Mawrth i ddydd Iau
- Yr amser a hoffir fwyaf: prynhawn
- Yr amllder a hoffir fwyaf: roedd 100% eisiau sesiynau wythnosol

Llanfairfechan a'r ardal gyfagos

- Y tri gweithgaredd mwyaf poblogaidd: cadw'n heini, celf a chrefft, garddio
- Y cais mwyaf poblogaidd: pilates ac ioga
- Y dyddiau a hoffir fwyaf: Dydd Mercher
- Yr amser a hoffir fwyaf: gyda'r nos
- Yr amllder a hoffir fwyaf: roedd 100% eisiau sesiynau wythnosol

Ardal wledig

- Y tri gweithgaredd mwyaf poblogaidd: cadw'n heini, celf a chrefft, sesiynau natur
- Y cais mwyaf poblogaidd: teithiau cerdded ac ioga
- Y dyddiau a hoffir fwyaf: Dydd Llun a dydd Iau
- Yr amser a hoffir fwyaf: prynhawn a chyda'r nos
- Yr amllder a hoffir fwyaf: roedd 77% eisiau sesiynau wythnosol

Bae Colwyn a'r ardal gyfagos

- Y tri gweithgaredd mwyaf poblogaidd: cadw'n heini, celf a chrefft, dawnasio
- Y cais mwyaf poblogaidd: teithiau cerdded ac ioga
- Y dyddiau a hoffir fwyaf: Dydd Llun a dydd Mercher
- Yr amser a hoffir fwyaf: boreau
- Yr amllder a hoffir fwyaf: roedd 93% eisiau sesiynau wythnosol

Abergele a'r ardal gyfagos

- Y tri gweithgaredd mwyaf poblogaidd: cadw'n heini, celf a chrefft, canu
- Y cais mwyaf poblogaidd: teithiau cerdded ac ioga
- Y dyddiau a hoffir fwyaf: Dydd Mercher a dydd Gwener
- Yr amser a hoffir fwyaf: prynhawn
- Yr amllder a hoffir fwyaf: roedd 87% eisiau sesiynau wythnosol

Gofynnwyd i bobl am sesiynau ar-lein, na fyddai'n dibynnu ar le maen nhw'n byw.

- Y tri gweithgaredd mwyaf poblogaidd: cadw'n heini, yn cynnwys ymarfer corff er mwyn rheoli straen, celf a chrefft, cyrsiau lles/rheoli straen
- Y cais mwyaf poblogaidd: ioga, gwau/crosio
- Y dyddiau a hoffir fwyaf: Dydd Mercher
- Yr amser a hoffir fwyaf: gyda'r nos
- Yr amllder a hoffir fwyaf: roedd 93% eisiau sesiynau wythnosol

Dywedodd 16% o'r ymatebwyr y byddai ganddyn nhw ddiddordeb i fynychu gweithgareddau a gynhelir drwy gyfrwng y Gymraeg. Nos Fercher a nos Wener oedd y dyddiau mwyaf poblogaidd ar gyfer sesiynau yn y gymuned, a hoffai 92% gael sesiynau wythnosol. Ar gyfer sesiynau ar-lein, prynhawn/nos Fercher a lau a oedd yn cael eu ffafrio, a hoffai 100% gael sesiynau wythnosol.

Roedd pobl yn barod i dalu am sesiynau, ac 20% yn hapus i dalu rhwng £8 a £12. Y rhwystrau a fyddai'n atal y rhan fwyaf o'r ymatebwyr rhag mynychu sesiwn fyddai diffyg hyder, gorbryder a Covid.



Bydd yr adborth amhrisiadwy hwn yn ein galluogi i gynllunio sesiynau ar gyfer y dyfodol, i gyd-fynd â'r hyn yr hoffai pobl ei gael a'r hyn sydd ei angen arnyn nhw, er mwyn gwella eu hiechyd a'u lles.

Ymgysylltu â phobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau a gomisiynwyd

Er ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau o fewn y cyfyngiadau sy'n deillio o Covid-19, rydym wedi gallu cynnal nifer o

ymarferion ymgysylltu gydag unigolion sy'n defnyddio ein gwasanaethau yn ystod 2021-22. Dyma rywfaint o'r adborth a gawsom ganddyn nhw.

Ym Medi 2021 fe wnaethom dreulio amser gyda phedwar unigolyn sy'n byw mewn cartref gofal i oedolion ag anableddau dysgu, Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistig neu broblemau iechyd meddwl. Gofynnwyd iddynt sut brofiad oedd byw yno, a sut maen nhw'n mwynhau treulio eu hamser.

Roedd tri o'r preswylwyr yn defnyddio iPad a ddarparwyd gan yr Awdurdod Lleol i gadw mewn cysylltiad gyda'u teuluoedd yn ystod y cyfnod clo. Roedd pob un wedi cael ymwelwyr pan oedd hynny'n bosibl, yn cynnwys plant ac wyrion a wyresau pan oedd hi'n ddiogel gwneud hynny. Roedd pob un wedi creu cyfeiriad e-bost i gyfnewid lluniau gyda'u teuluoedd.

O ran gweithgareddau, nododd y preswylwyr eu bod yn mwynhau pethau fel llyfrau posau, darllen cylchgronau a phobi cacennau. Mae un yn hoffi adar ac mae ganddo dŷ adar, ac mae un arall newydd ddechrau Slimming World a, gyda chymorth y staff, yn rhoi cynnig ar wneud ambell rysâit.

Mae'r preswylwyr yn bwyta gyda'i gilydd ac yn creu bwydlen wythnosol, a phob un ohonyn nhw'n dewis un o'r prydau nos bob wythnos. Ymhlith y ffefrynnau mae selsig, cyri a physgod a sglodion.

Mae'r dynion wrth eu boddau gyda phêl-droed ac yn cefnogi Clwb Pêl-droed Blackpool. Yn ddiweddar, aeth rhai o'r staff â nhw i Blackpool am y dydd, i fynd ar daith o amgylch y clwb. Drwy siarad gyda'r preswylwyr, fe wnaethom ddysgu am lawer mwy o weithgareddau ac ymweliadau y gwnaethon nhw eu mwynhau.

Yn ystod mis Tachwedd 2021, fe wnaethom siarad gyda 21 o unigolion (neu eu cynrychiolydd) sy'n derbyn gofal a chymorth gan asiantaeth yn eu cartref. Cynhaliwyd cyfweiliadau dros y ffôn a holwyd eu barn am y berthynas gyda'r darparwr a'r gwasanaeth a gynigir ganddo.

- Dywedodd 95% o'r ymatebwyr fod y gwasanaeth roedden nhw'n ei dderbyn yn dda neu'n dda iawn.

- Cytunai 86% eu bod yn derbyn eu gwasanaeth gan dîm staff cyson a rheolaidd.
- Roedd 100% yn derbyn y gwasanaeth yn eu dewis iaith.
- Teimlai 98% fod y staff cefnogi'n garedig, yn barchus ac yn gwrtais.
- Cytunai 38% fod eu gweithiwr cefnogi'n cyrraedd yn brydlon, a nododd 48% mai weithiau y byddai hynny'n digwydd.
- Ymddengys fel pe bai pawb yn hapus bod eu safbwyntiau, eu dymuniadau a'u dewisiadau'n cael eu hystyried gan y staff cefnogi a'r darparwr gwasanaeth, er efallai y byddai rhai wedi teimlo'n nerfus ynglŷn â gofyn am rywbeth gwahanol rhag iddyn nhw golli eu cefnogaeth.
- Cytunai 60% fod y darparwr gwasanaeth yn hyblyg o ran amseroedd ymweld a hyd yr ymweliadau, gan ddeall y pwysau sydd ar y staff cefnogi i gadw at eu hamserlen waith.
- Roedd 71% yn fodlon neu'n fodlon iawn gyda'r gwasanaeth maen nhw'n ei dderbyn, ond roedd 19% yn anfodlon iawn.

Roedd llawer o'r sylwadau a wnaed gan y rhai a gymerodd ran yn ymwneud â faint o amser a dreuliwyd ar alwadau; roedd llawer eisiau i'r gweithwyr cefnogi dreulio mwy o amser gyda nhw, ac eisiau i dîm cyson ymweld â nhw ar yr amser a drefnwyd ymlaen llaw.

Dydw i ddim yn meindio hanner awr o wahaniaeth ond mae arnom ni ofn mynd allan i fyw bywyd rhag ofn i ni fethu galwad.

...rhaid bodloni gyda'r amser, mae'r gofalwr wedi dweud wrtha' i mod i wedi cael fy ngwasgu rhwng dwy alwad arall

Tîm Lles Meddyliol

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi pontio'n llwyddiannus i'r Tîm Lles Meddyliol, a gwella effaith lles meddyliol gwael ar breswylwyr Conwy. Datblygwyd y Tîm Lles Meddyliol fel ymateb i'r hyn roedd pobl yn ei ddweud wrthym am wasanaethau iechyd meddwl.

Mae'r data presennol yn dangos y gwelwyd cynnydd o 40% yn y galw am wasanaethau lechyd Meddwl ym maes lechyd a Gofal Cymdeithasol. Yn y Tîm Lles Meddyliol rydym yn dilyn ethos 'Dim Drws Anghywir' felly gall unigolyn gysylltu ag unrhyw wasanaeth a byddwn yn helpu i gyfeirio'r person hwnnw at y man cywir.

Mae lles yn ffactor allweddol wrth ddarparu gwasanaeth y Tîm Lles Meddyliol. Rydym ar hyn o bryd yn gweithio er mwyn datblygu mannau gwyrdd, Coleg Adfer, canolfannau wyneb yn wyneb a chanolbwyntiau dros y we ac rydym yn edrych ar ffyrdd eraill y gallwn weithio ar lawr gwlad. Drwy ein gwaith, rydym wedi gweld yr hyn sydd gan gymunedau i'w gynnig, ac nid yw bob amser yn fater o ychwanegu mwy, mae'n fater o weld beth sydd ar gael a chodi ymwybyddiaeth am y gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli.

Astudiaeth Achos

Cafodd merch yn ei 20au ei gorfodi i adael ei gyrfa broffesiynol gan fod ganddi broblemau iechyd meddwl, ac fe arweiniodd hynny at golli pwrpas, yn ogystal â cholli'r swydd roedd hi wedi gweithio'n galed i'w chael.

Cafodd gefnogaeth gan y gwasanaeth Gofal Sylfaenol gyda'i diagnosis a'i meddyginiaeth. Fe wnaeth y Tîm Lles Meddyliol ei chefnogi i wella'i hunan-barch, a'r amgylchedd yn ei chartref yn ogystal â'i chyfeirio at gyngor am fudd-daliadau a chyllidebu.

Ar ôl cael y gefnogaeth honno, mae hi nawr yn byw'n annibynnol, mae ei lles a'i llesiant wedi gwella, nid yw wedi cael ei hatgyfeirio ar gyfer mwy

o ymyraethau clinigol ac mae wedi lleihau'r risg y bydd angen iddi fynd i'r ysbyty yn sylweddol. Yn bwysicach na hynny, mae'n obeithiol am y dyfodol.

Beth nesaf?

Yn ystod y flwyddyn nesaf bydd y tîm yn tyfu ac mae'r broses recriwtio eisoes ar waith i benodi Ymarferydd lechyd Meddwl Cymwys. Mae hon yn rôl broffesiynol arbenigol. Byddwn hefyd yn penodi Gweithiwr Cymdeithasol Adran 117 a fydd yn gyfrifol am gefnogi'r broses ôl-ofal ar gyfer unigolion sydd wedi cael eu hanfon i'r ysbyty o dan y Ddeddf lechyd Meddwl a chael eu hanfon o'r ysbyty wedi hynny.

Gan ddefnyddio cyllid gan y Bwrdd Gwasanaeth Integredig Ardal, rydym yn recriwtio Gweithiwr Ymyrryd a Gweithiwr Cefnogaeth Gymunedol ychwanegol a fydd yn darparu cefnogaeth ddwys am gyfnod byr, wedi'i llunio i helpu unigolion mewn ffordd strwythuredig, dan arweiniad yr unigolyn, sy'n canolbwyntio ar adfer ac osgoi argyfwng lle bo hynny'n bosibl a helpu'r unigolyn i adennill sefydlogrwydd.

Rydym wedi llwyddo i sicrhau pot bychan o gyllid gan Gronfa Adfer Gymunedol y DU i gefnogi'r gwaith cynhyrchu roeddem yn ei wneud cyn pandemig Covid-19.

Wythnos Pobl sy'n Gadael Gofal

Cynhelir Wythnos Pobl sy'n Gadael Gofal ym mis Hydref bob blwyddyn. Dyma'r tro cyntaf i Conwy ymuno â'r dathlu. Er mwyn gwneud hyn, fe wnaethom drafod gydag amryw o ganolfannau gweithgareddau a busnesau lleol i gynnig profiadau i'n pobl ifanc a'u plant eu hunain. Cafodd rhai o'r tocynnau isod eu cyfrannu i'r tîm gan y Canolfannau Teulu. Isod ceir rhestr o'r gweithgareddau a'r profiadau a oedd ar gael:

- Wendy Couling Bydoedd Hud mewn Bocs - Sesiwn 3D ar Gyfryngau Cymysg

- Creu ymgynulliad blwch cysgodion ar Gyfryngau Cymysg, creu eich straeon eich hun gan ddefnyddio amryw o dechnegau haenu collage
- Parc Antur Eryri (Adventure Parc Snowdonia)
- Cwrs heriau ninja
- Gwers syrffio ar y Lagŵn Syrffio
- Padlfyrddio ar y Lagŵn Syrffio
- Staffio a chostau teithio
- Sŵ Mynydd Cymru
- Sesiynau dringo
- Tocynnau sinema
- Ffitrwydd Aspire
- Sgramblo ceunentydd gyda North Wales Active Cyf.
- Dringo ac abseilio
- Sesiynau cerfio pwmpen yn rhandir CBSC
- Llethr sgïo Llandudno
- Sugar Den, caffi celf a chrefft yn Abergele
- Canolfannau hamdden



Gwefan i Bobl sy'n Gadael Gofal

Yn ogystal â hyn, fe wnaethom hefyd lansio gwefan newydd i bobl sy'n gadael gofal:

<https://camaubachdyfodoldisglair.cymru/>

Mae'r wefan yn cael ei rheoli ar hyn o bryd gan y Tîm Ymgynghori Personol ac mae'n cynnwys gwybodaeth hygyrch ynghylch budd-daliadau, iechyd, hunaniaeth, addysg a hyfforddiant, beth sy'n digwydd yn lleol a llawer iawn mwy. Mae'r wefan hefyd yn cynnwys fideos sy'n

dangos i bobl ifanc sut i wneud pryd o fwyd a sut i gyflawni tasgau DIY yn ddiogel.

Yn ystod Wythnos Pobl sy'n Gadael Gofal fe wnaethom ddefnyddio'r wefan i hyrwyddo themâu dyddiol. Dyma amserlen yr wythnos:

- Dydd Llun Ariannol: Fe wnaethom rannu gwybodaeth am fudd-daliadau a grantiau. Unrhyw beth sy'n ymwneud ag arian.
- Dydd Mawrth Paratoi Pryd: Mae hyn yn ymwneud â hyrwyddo bwyta'n iach, bwyta ar gyllideb, cynllunio prydau bwyd, a pharatoi prydau bwyd. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am gyrsgiau diogelwch bwyd.
- Dydd Mercher Lles: Mae hyn yn ymwneud ag amrywiaeth eang o gyngor a syniadau megis myfyrio, syniadau am lefydd i fynd am dro a gweithgareddau awyr agored.
- Dydd Iau Chi'ch Hun: Mae hyn yn ymwneud â helpu unigolion sy'n gadael gofal i ddatlu eu hunain, yr hyn maen nhw wedi bod drwyddo a'r hyn maen nhw wedi ei gyflawni.
- Dydd Gwener Atgyweirio: Fe wnaethom rannu dolenni a fideos B&Q a oedd yn dangos awgrymiadau DIY syml.

Beth nesaf?

Rydym yn bwriadu dathlu Wythnos Pobl sy'n Gadael Gofal unwaith eto eleni. Byddwn yn dechrau cynllunio'n llawer cynharach yn y broses. Os bydd cyfyngiadau Covid-19 yn cael eu llacio, rydym yn gobeithio y gallwn ni gwrdd â'n hunigolion sy'n gadael gofal wyneb yn wyneb yn ystod y dathliadau eleni.

Lles

Safon Ansawdd 7: Mae pobl yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod a mathau eraill o niwed

Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant

Rydym wedi rhoi newidiadau ar waith ynghylch sut rydym yn cynnal ymchwiliadau amddiffyn plant Adran 47 sy'n golygu eu bod nhw nawr yn cael eu cynnal dros gyfnod hirach. Mae hyn yn ein galluogi i gasglu gwybodaeth yn raddol a ffurfio perthynas gyda'r dioddefwr ar sail ymddiriedaeth er mwyn eu galluogi i ddatgelu eu profiadau yn eu hamser eu hunain. Yn y gorffennol, efallai y byddem wedi ymweld â nhw unwaith yn unig a heb gymryd camau pellach os na ddatgelwyd unrhyw beth yn ystod yr ymweliad hwnnw.

Mae Cynllun Gweithredu Conwy yn parhau i weithio yn unol â Chynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru, Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol. Mae testun Perthnasoedd Iach wedi ei gynnwys ac rydym yn gweithio gyda phartneriaid yn y Gwasanaethau Addysg er mwyn sicrhau bod ysgolion yn cynnwys gwybodaeth am berthnasoedd iach fel rhan o faes llafur datblygiad personol y disgyblion.

Beth oedd yr heriau?

Cadw'r momentwm a sicrhau bod pawb a gymerodd ran yn parhau i rannu gwybodaeth a newidiadau o ran arferion.

Beth nesaf?

Ym Mawrth 2022, fe wnaethom gyflwyno hyfforddiant Asesu, Ymyrryd a Symud Ymlaen sy'n canolbwyntio ar asesu'r person ifanc a'u teulu ynghylch pryderon, risgiau a chryfderau'r person ifanc mewn pedwar prif faes: ymddygiad rhywiol ac anrhywiol, datblygiad, teulu ac amgylchedd,

gan ystyried ffactorau statig a deinamig. Cynigir yr hyfforddiant hwn i arweinwyr ymarfer amlasiantaethol, a fydd yn helpu i lunio llwybr atgyfeirio ar gyfer Ymddygiad Rhywiol Niweidiol. Yna bydd yr hyfforddiant a gynigir i ymarferwyr yn cael ei hwyluso gan arweinwyr ymarfer i'r holl ymarferwyr ym maes gofal cymdeithasol yn ystod 2022.

Gwaith ataliol yn ein Canolfannau Teulu

Rhodddwyd sylw parhaus i sut gallwn ni, a'n hasiantaethau partner, ganfod a chefnogi plant sydd mewn perygl o gael eu hecsbloetio drwy gydol 2021-22. Mae ein Canolfannau Teulu sefydledig sy'n cynnig cyngor, arweiniad a chefnogaeth i deuluoedd wedi bod yn codi ymwybyddiaeth am Gam-drin Plant yn Rhywiol ac maen nhw wedi datblygu [canolbwynt gwybodaeth newydd](#) ar ein gwefan i gynnig gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i blant a phobl ifanc, rhieni, gofawyr a phobl yn y gymuned.

Fe wnaeth y pum canolfan ddatblygu dyletswyddau arweinwyr ymarfer ar gyfer yr aelodau staff hynny sydd wedi cymryd rhan mewn sesiynau 'hyfforddi'r hyfforddwr' gan The Lucy Faithfull Foundation. Mae hyn yn eu galluogi i gynnal cyrsiau Rhieni yn Amddiffyn gyda'u timau a'r rhieni ynghylch cam-drin plant yn rhywiol ac ymwybyddiaeth am gadw'n ddiogel ar y we.



Mae'r Canolfannau Teulu hefyd wedi sefydlu fforwm amlasiantaethol i drafod plant maen nhw'n gredu sydd mewn perygl o gael eu hecsbloetio, gyda chysylltiad agos â'r gwasanaethau plant er mwyn sicrhau bod y lefel ymyrryd mwyaf addas yn cael ei roi ar waith. Fe wnaeth y Canolfannau hefyd lansio ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol am ddiogelwch ar y we er mwyn hyrwyddo ein [cynnwys newydd ar y we](#) ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Ymhlith y testunau roedd gosod rheolyddion i rieni, defnyddio peiriannau chwilio diogel, defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a gemau ar-lein. Nododd Arolygiaeth Gofal Cymru, yn eu Gwiriad Sicrwydd ym Mehefin 2021 bod:

Yr awdurdod lleol wedi dylunio tudalen am ddiogelwch ar y we sy'n canolbwyntio ar gefnogi rhieni ynghylch risgiau a diogelwch i blant sy'n defnyddio'r rhyngwryd. Mae hwn yn ddarn o waith pwysig gan gofio'r pryder a fynegwyd am hyn yn ystod y pandemig.

Mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn cydweithio gyda'r Canolfannau Teulu er mwyn llunio llwybr ar gyfer haen isaf y camfanteisio troseddol er mwyn rhoi mesurau ymyrryd ar waith yn fuan. Mae'r broses hon hefyd yn ffordd i roi prosesau diogelu effeithiol ar waith, er enghraifft yr angen i uwchgyfeirio at y gwasanaethau plant ar gyfer ymchwiliadau diogelu pan fo angen.

Rhwng Medi 2020 a Mawrth 2021 cynhaliwyd cwrs hyfforddi a gafodd ei hwyluso gan y Ganolfan Ragoriaeth ym maes Cam-drin Plant yn Rhywiol, a mynychwyd y cwrs gan unigolion o asiantaethau partner megis Heddlu Gogledd Cymru, Iechyd, Addysg, Tîm Pobl Ddiamddiffyn a'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Roedd y cwrs yn cynnig gwybodaeth yn ymwneud â gwaith ymchwil a dadansoddi data, a chafwyd siaradwyr gwadd sy'n gweithio gyda dioddefwyr a chyflawnwyr mewn meysydd gwahanol o Gam-drin Plant yn Rhywiol. Rhannwyd gwybodaeth hefyd ynglŷn â gofynion asesiadau, cefnogi dioddefwyr, cefnogi a gweithio gyda rhieni sydd ddim yn cam-drin, ac asesu a gweithio gyda chyflawnwyr.

Mae hwn yn bwnc anodd a hynod sensitif, a oedd ar brydiau'n ormod i nifer o'r cyfranogwyr ar y cwrs, er hyn, roedd y gefnogaeth gan yr hwyluswyr a chan ein gilydd yn amhrisiadwy. Canlyniad hyn oll yw bod yr Awdurdod Lleol yn gallu ymateb yn well ac yn fwy hyderus i'r rhan hwn o gam-drin plant.

Fforwm Amlasiantaethol Cam-drin Plant yn Rhywiol (MACSAF)

Fel rhan o'n cynllun gweithredu Cam-drin Plant yn Rhywiol, rydym yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth am gam-drin plant yn rhywiol ymhlith rhieni, cymunedau a gweithwyr proffesiynol drwy:

- Ddarparu hyfforddiant a datblygu'r gweithlu.
- Cynnig llwybrau cefnogi, yn cynnwys rhai ar gyfer goroeswyr.
- Gwneud Conwy'n lle diogel i bobl drafod eu pryderon.
- Cynnig cefnogaeth a dulliau ymgynghori ar gyfer ymchwiliadau.



Mae MACSAF yn grŵp amlasiantaethol, yn cynnwys yr arweinwyr gwasanaeth a fynychodd y cwrs chwe mis y soniwyd amdano'n gynharach, a rhai partneriaid allweddol eraill. Mae'r grŵp yn cwrdd bob deufis er mwyn:

- Cynnal llyfrgell o adnoddau ac offer a pharhau i ychwanegu ati.
- Meithrin cydweithrediad rhwng asiantaethau, yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol, yr heddlu, cyfreithwyr, meddygon, nyrsys ac athrawon.
- Trafod y datblygiadau diweddaraf ym maes ymchwil, gwybodaeth a gwasanaethau cefnogi.
- Rhannu gwybodaeth gyda'n cydweithwyr.
- Dysgu ar sail ymarfer.

Bydd y tîm yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf gyda chydweithwyr ddwywaith y flwyddyn ar ffurf newyddlen.

Camfanteisio ar blant: hanes goroeswr

Yn Rhagfyr 2021, fe wnaeth ein Tîm Gweithlu a Gwaith Maes Plant gomisiynu Sammy Woodhouse, un a oroesodd sgandal Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn Rotherham, i roi sgwrs a chynnal sesiwn cwestiwn ac ateb er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth am gamfanteisio'n rhywiol ar blant.

Llwyddodd Sammy i sôn sut y gwnaeth rhywun feithrin perthynas amhriodol â hi yn ei harddegau, yn cynnwys sut y dechreuodd hynny, sut y datblygodd, a'r rheolaeth, yr ymddygiad ymosodol a'r bygythiadau a ddefnyddiwyd gan y rhai a oedd yn ei cham-drin. Roedd sesiynau ar gael ar gyfer pobl ifanc, staff ysgol a gweithwyr proffesiynol a oedd yn gysylltiedig â'r byd addysg, rhieni, gofalwyr a theuluoedd, ac ar gyfer gweithwyr proffesiynol eraill a oedd yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol, Heddlu Gogledd Cymru a BIPBC. Cynigiwyd slotiau i sefydliadau eraill hefyd megis Barnardo's, Haven of Light a The Lucy

Faithfull Foundation, a Swyddfa'r Comisiynydd Plant a Rheolwr Polisi Diogelu Llywodraeth Cymru. Mynychodd tua 230 o bobl y digwyddiad.

Er ein bod bob amser yn ceisio codi ymwybyddiaeth am gamfanteisio'n rhywiol ar blant, roedd clywed gan oroeswr yn creu llawer mwy o argraff ac nid oedd y sesiwn wedi'i gyfyngu i weithwyr proffesiynol (sydd eisoes â rhywfaint o ymwybyddiaeth) y tro hwn. Roedd darparu sesiwn ar gyfer pobl ifanc, rhieni a gofalwyr wedi helpu i gyfrannu at raglen ddiogelu mewn cyd-destun, a thaniodd hynny sgwrsiau am gamfanteisio rhwng ei gilydd a'u cyfoedion, eu teulu a'u ffrindiau.

Cawsom adborth cadarnhaol ar ôl y tri sesiwn, ac mae asiantaethau a gweithwyr proffesiynol eraill nawr wedi cysylltu â Sammy i ofyn iddi roi sgwrsiau tebyg, yng Nghonwy ac yn ehangach dros Ogledd Cymru.

Pan holwyd beth roedden nhw wedi ei ddysgu o'r sesiwn, rhoddodd y mynychwyr y sylwadau hyn:

Cefais fy ysbrydoli gan fod Sammy mor ddewr a'i bod wedi llwyddo i sôn am ei phrofiadau ar ôl popeth mae hi wedi ei ddioddef. Cefais fy synnu fod gweithwyr proffesiynol [yn Rotherham] wedi gadael iddo ddigwydd am gyn hired, ac nad oedden nhw'n cymryd y pryderon o ddifrif.

Y realiti y gall Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant ddigwydd i unrhyw un, yn unrhyw le, o dan yr amgylchiadau iawn.

Gallwch ddarllen mwy am hanes Sammy yma

<https://sammywoodhouse.com>

Tîm Cryfhau Teuluoedd

Eleni rydym wedi cyflwyno Panel Amlasiantaethol Ymyrraeth Gynnar a Phanel Cam-drin Domestig. Mae'r ddau banel yn rhoi cyfle myfyriol i ymarferwyr siarad am y pryderon sydd ganddyn nhw am y teuluoedd maen nhw'n gweithio gyda nhw. Maen nhw'n cael cyngor a chynigion o

gefnogaeth i deuluoedd fel nad oes angen iddynt ddod o dan adain gwasanaethau gofal a reolir.

Mae'r gwasanaeth hwn yn parhau i ddatblygu rolau arbenigol yn y tîm ac eleni mae gennym weithiwr penodol i weithio gyda theuluoedd yn ystod beichiogrwydd er mwyn eu helpu i ymdrin ag unrhyw faterion diogelu a ddaw i'r amlwg yn gynnar.

Beth oedd yr heriau?

Roedd darparu camau ymyrryd wyneb yn wyneb yn heriol drwy gydol pandemig Covid-19. Er gwaethaf hyn, mae'r timau wedi parhau i ganfod ffyrdd arloesol i ymgysylltu â theuluoedd drwy fanteisio i'r eithaf ar ddefnyddio technoleg a'r mannau sydd gan Gonwy i'w cynnig yn yr awyr agored.

Mae'r pandemig yn amlwg wedi effeithio ar deuluoedd mewn ffyrdd na allen ni eu rhagweld. Gwelwyd cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau ar gyfer teuluoedd sydd bron iawn â methu a phlant sy'n dangos arwyddion cymhleth o drallod emosiynol. Mae'r tîm wedi gweithio'n ddiflino i gefnogi'r teuluoedd hyn yn ogystal â bod yn gyfrifol am rai tasgau a chyfrifoldebau timau eraill er mwyn rhannu'r baich.

Beth nesaf?

Eleni byddwn yn cyflwyno Model Yn Ddiogel a Chyda'n Gilydd ledled Conwy. Mae'r model hwn yn ddull newydd o weithio sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n gwella canlyniadau i deuluoedd sydd wedi gweld effaith Cam-drin Domestig.

Cael adborth gan blant sydd yn ein gofal

Rhaid neilltuo Swyddog Adolygu Annibynnol ar gyfer pob plentyn sydd yng ngofal yr Awdurdod Lleol, a rôl y swyddog yw goruchwyllo achos plentyn a sicrhau bod eu buddiannau'n cael eu hamddiffyn drwy gydol eu hamser mewn gofal. Rhaid i'r Swyddogion sicrhau eu bod yn:

- Annog llais y plentyn
- Sicrhau bod cynllun gofal a chymorth y plentyn yn gyfredol, yn effeithiol ac yn briodol i anghenion y plentyn
- Cynnig mynediad at wasanaethau eirioli i'r plentyn
- Monitro gweithgarwch yr Awdurdod Lleol fel Rhiant Corfforaethol

Mae plant wedi datgan y dylai'r Swyddogion wrando arnyn nhw, gwneud yn siŵr eu bod yn hapus gyda'u cynlluniau gofal a chymorth, sicrhau bod rhywun yn gwrandao ar eu barn, a sicrhau bod eu cynlluniau'n cael eu darparu'n gywir. Dylai'r Swyddogion fod yn ddigon pwerus i gywiro pethau, cadw mewn cysylltiad â phob plentyn maen nhw'n ei gefnogi rhwng cyfarfodydd adolygu, gweld y plentyn mewn sesiynau un-i-un ac esbonio penderfyniadau pwysig.

Wrth baratoi ar gyfer adolygiad pob plentyn, gofynnir iddyn nhw ddweud sut maen nhw'n teimlo am y lle maen nhw'n byw, pwy maen nhw'n treulio amser gyda nhw, y tîm sy'n eu cefnogi a'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw. Yna gall y Swyddogion ddefnyddio'r wybodaeth hon i ddechrau sgysiau am les a chynnydd y plentyn mewn ffordd sy'n cael ei harwain gan y plentyn. Dyma flas o'r hyn a ddywedodd y plant a'r bobl ifanc wrthym ni:

Rwy'n teimlo'n hapus gyda fy ngofalwr maeth ac rwyf yn mwynhau popeth rydym yn ei wneud gyda'n gilydd.

Mae popeth yn mynd yn dda ac rwyf yn mwynhau fy mhrentisiaeth newydd ym maes Gofal Plant yn fawr.

Rwyf yn hapus gyda fy ystafell wely gan ei bod yn hyfryd. Rwyf wrth fy modd yn cael hwyl ac yn bwyta bwyd blasus, yn enwedig siocled taenu.

Rwyf eisiau derbyn gofal maeth, mae fy rhieni'n edrych ar fy ôl ac mae gen i olygfeydd braf a llefydd braf i fynd am dro. Rwy'n hoffi'r tŷ ac mae gen i anifeiliaid anwes. Dyma'r lle gorau i fyw.

Digwyddiadau Wythnos Ddiogelu 2021

Oherwydd cyfyngiadau parhaus Covid-19, fe wnaeth ein Huned Ddiogelu unwaith eto drefnu digwyddiadau ar-lein i nodi'r Wythnos Ddiogelu ym mis Tachwedd. Cynigiwyd dau sesiwn yr un fath â'i gilydd i holl staff Cyngor Conwy a oedd yn cynnwys:

- Y Cynghorydd Cheryl Carlisle yn agor yr Wythnos Ddiogelu
- Mae Diogelu'n Fusnes i Bawb.
- Cynllun gweithredu Cam-drin Plant yn Rhywiol a lansio ein tudalennau newydd ar y we.
- Codi ymwybyddiaeth am ddiogelu yng nghyd-destun cam-drin pobl hŷn.

Daeth cyfanswm o 54 aelod o staff i'r sesiynau o bob rhan o'r sefydliad ac roedd yr adborth a gafwyd ganddyn nhw'n ddiweddarach yn gadarnhaol iawn. Roedden nhw'n gwerthfawrogi'r digwyddiad ac yn awyddus i rannu'r wybodaeth gyda'u timau eu hunain.

Fe wnaeth yr Uned Ddiogelu hefyd gynnal y Fforwm Diogelu Plant yn ystod yr Wythnos Ddiogelu, a chodi ymwybyddiaeth a meithrin gwybodaeth ymhlith staff rheoli am destunau amrywiol a nodi meysydd ar gyfer datblygiad pellach. Trafodwyd:

- Prosesau a chamau ymyrryd y Tîm Cryfhau Teuluoedd cyn geni, a'u nod i leihau nifer y babanod yng Nghonwy sy'n cael eu cymryd oddi ar eu teuluoedd adeg eu geni.
- Y wybodaeth ddiweddaraf gan y Swyddog Cyswllt Amenedigol a Seiciatrig am sut mae eu gwasanaeth yn parhau i dyfu, y lefelau


cyfranogiad, a sut maen nhw'n cefnogi rhieni gyda'u hiechyd meddwl.

- Mae Protocol Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru, sy'n cefnogi plant a rhieni, yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Fe wnaethom nodi'r angen i gynnal asesïadau ar y cyd, ar gyfer y rhiant sydd â phroblemau iechyd meddwl, ac anghenion y plentyn.
- Adolygiad Barnwrol a'r Gyfraith Gyhoeddus yn Diwygio Mesurau Amddiffyn Plant; rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y grwpiau tasg a gorffen presennol sy'n sicrhau bod prosesau'n cael eu diweddarau i gyd-fynd ag argymhellion yr adolygiad hwn.
- Achos â chanlyniad cadarnhaol, sy'n dangos sut y cyflwynwyd camau ymyrryd llwyddiannus a sut y cefnogwyd rhieni i wneud y newidiadau angenrheidiol er mwyn cadw eu teulu gyda'i gilydd.

Mesurau Diogelu Cyd-destunol ar gyfer Oedolion

Mae mesurau diogelu cyd-destunol yn edrych ar bob agwedd ym mywyd unigolion sydd mewn perygl, yn cynnwys eu cartref, eu teulu, eu cyfoedion, eu cymdogaeth a'u cysylltiadau er mwyn cael delwedd gyfannol o'r peryglon sy'n eu rhoi mewn perygl o niwed.

Aethom ati i ddefnyddio'r dull hwn mewn ardal a oedd yn peri pryder ym Mae Colwyn, lle daeth problemau diogelu oedolion ac ymddygiad gwrthgymdeithasol i'r amlwg. Trefnwyd cyfarfod strategol eithriadol, ac ar ôl sawl trafodaeth, penderfynwyd y dylid mabwysiadu model Diogelu Cyd-destunol, er mwyn llywio'r cyfarfod amlasiantaethol yn llwyddiannus a sicrhau bod camau gweithredu eglur yn eu lle i gefnogi'r maes dan sylw (yn hytrach na chanolbwyntio'n gyfan gwbl ar achosion unigol drwy'r dull rheoli achosion arferol).



Cytunwyd yn y cyfarfod y dylid datblygu'r elfennau canlynol:

1. Cylch gorchwyl eglur, meini prawf Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol ac adnoddau i gefnogi'r model diogelu Cyd-destunol wrth weithio ar y safle.
2. Cyfarfod amlasiantaethol wythnosol i drafod, gan ddod â'r holl bartneriaid ynghyd er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n brydlon ac yn effeithiol, a gweithio ar y cyd. Mae hyn wedi arwain at uwchgyfeirio materion a'u cefnogi'n gynharach yn y broses, gan sicrhau bod y partneriaid cywir yn ymateb ar yr adeg iawn, ac yn ymdrin â digwyddiadau'n well ac yn brydlon.
3. Cytunwyd y gellir defnyddio fflat gwag ar y safle fel cyfleuster galw heibio dros dro ar gyfer cyfweiliadau fel y gellir gweld unigolion ar y safle y tu allan i'w tenantiaeth eu hunain, sicrhau dulliau gweithio ar eich pen eich hun effeithiol a threfniadau cyd-asiantaethol a'i gwneud yn haws i unigolion fynychu cyfweiliadau a chyfarfodydd.

Beth oedd yr heriau?

- Sicrhau bod partneriaid allweddol yn gyson o ran y gweithgareddau a gynhelir o amgylch safle Bae Colwyn. Er enghraifft, roedd y partneriaid yn pryderu bod gweithgarwch a phresenoldeb yr heddlu yn anghyson, serch hynny, yn dilyn trafodaethau pellach cadarnhawyd nad oedd llawer o weithgarwch troseddol ar y safle a bod mwyafrif yr hyn yr adroddwyd yn eu cylch yn ymwneud â phryderon diogelu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Mae diffyg llety amgen wedi arwain at orfod mabwysiadu dull diogelu cyd-destunol, a byddai sicrhau bod llawer o denantiaid ar y safle'n symud ymlaen yn lliniaru llawer o'r pryderon a'r ymddygiad.

Beth nesaf?

Bydd y cyfarfodydd yn parhau hyd nes y gellir canfod llety amgen. Mae'r cyfarfodydd wythnosol yn cynnig dull effeithiol sy'n canolbwyntio ar dasgau er mwyn ymateb i'r problemau sydd ar y safle ar hyn o bryd.

Mesurau Diogelu Cyd-destunol ar gyfer Plant/Pobl Ifanc

Sefydlir dau fforwm Camfanteisio Cyd-destunol amlasiantaethol er mwyn dod ag asiantaethau partner ynghyd i drafod y bobl ifanc hynny sy'n ddiamddiffyn ac mewn perygl o gael eu hecsbloetio. Nod y fforwm hwn yw dod â gweithwyr proffesiynol amlasiantaethol ynghyd bob chwech i wyth wythnos fel y gellir rhannu gwybodaeth a helpu i leihau nifer yr unigolion yng Nghonwy sy'n ddiamddiffyn a/neu mewn perygl o gael eu hecsbloetio ym mhob ffordd.

Mae'r fforwm yn ein helpu i greu strategaethau canfod yn gynnar, atal a chreu dulliau amharu ond mae hefyd yn ei gwneud yn haws rhannu

gwybodaeth am bobl sy'n peri pryder a'i gwneud yn agored i Awdurdodau neu asiantaethau os oes pryderon eisoes yn bodoli.

Beth yw'r heriau ar hyn o bryd?

- Cadw ffocws gyda phartneriaid amlasiantaethol, gwella dealltwriaeth partneriaid amlasiantaethol, heb adolygu gwaith achos, i drafod ac ystyried dulliau atal, amharu pan fydd pobl ifanc yn ymwneud â phobl ifanc hŷn ac oedolion sy'n cael eu hystyried i fod mewn perygl.
- Cynhelir pob cyfarfod dros y we, gall hyn fod yn anodd ar brydiau oherwydd nifer y gweithwyr proffesiynol sy'n bresennol, yn ogystal â mapio ymarferion ar-lein.
- Mae Awdurdodau Lleol cyfagos yn cynnal fforymau tebyg ac mae'n hanfodol ein bod yn rhannu gwybodaeth rhwng y siroedd mewn perthynas â phobl ifanc ac oedolion.

Beth nesaf?

Bydd y fforymau'n cael eu lansio ym Mawrth 2022 i gyd-fynd â diwrnod Camfanteisio ar Blant a byddan nhw'n parhau bob chwech i wyth wythnos. Byddwn yn eu hadolygu ar ôl deuddeg mis er mwyn ystyried y diben, unrhyw ganlyniadau cadarnhaol a nodi unrhyw themâu newydd efallai y bydd angen rhoi sylw iddynt.

Astudiaeth achos Caethwasiaeth Fodern

Ar ôl derbyn gwybodaeth gan Heddlu Gogledd Cymru a Llinell Gymorth Genedlaethol Caethwasiaeth Fodern ym Medi 2021, tynnwyd ein sylw at bryderon bod asiantaeth gofal cymdeithasol breifat, a ffurfiwyd o'r newydd, yn gweithredu yn ardal Conwy a'i bod yn darparu gweithwyr gofal asiantaeth a oedd yn ymddangos fel dioddefwyr posibl o gaethwasiaeth fodern. Wrth ymateb i'r pryderon hyn, cynhaliwyd cyfarfodydd strategol amlasiantaethol llawn gyda phartneriaid allweddol, yn cynnwys y gwasanaeth lechyd, Heddlu Gogledd Cymru, Arolygiaeth

Gofal Cymru a Chyngor Sir Ddinbych. Roedd y cyfarfodydd cychwynnol yn gudd ac yn ymwybodol y gallai unrhyw ymholiadau neu gamau ymyrryd wedi'u hamseru'n wael beryglu ymholiadau ac ymchwiliadau posibl gan yr heddlu. Ar hyn o bryd, mae'r achos yn parhau i gael ei ymchwilio gan yr Awdurdod Meistri Gangiau a Cham-drin Gweithwyr felly mae'r camau isod yn amlinellu'r gwaith a wnaed hyd yma gan yr Awdurdod Lleol a'i bartneriaid.

- Ymholiadau gyda darparwyr a chartrefi gofal ynghylch eu profiad nhw o ddefnyddio'r asiantaeth dan sylw, drwy dulliau cudd a sensitif yn wreiddiol.
- Cyfathrebu gyda'r holl ddarparwyr er mwyn eu hatgoffa am eu dyletswyddau a chofio sicrhau bod dulliau recriwtio diogel yn cael eu dilyn bob amser wrth ddefnyddio staff asiantaeth.
- Cynnal goruchwyliaeth ddiogelu mewn cartrefi gofal yn yr ardal er mwyn sicrhau, cymaint â phosibl, nad yw preswylwyr yn cael eu rhoi mewn perygl o ganlyniad i'r staff asiantaeth sy'n darparu gofal.
- Sicrhau bod cydweithwyr tîm yn y Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaethol yn cael eu briffio'n llawn ac yn cael eu harwain ar sut i gasglu pryderon diogelu penodol yn y dyddiau cynnar.
- Partneriaid yn cydweithio'n agos pan ddechreuodd yr Awdurdod Meistri Gangiau a Cham-drin Gweithwyr ar eu camau gweithredu.
- Cymryd camau gweithredu eglur gyda chefnogaeth gan y Tîm Pobl Ddiamddiffyn er mwyn cefnogi a chynghori'r dioddefwyr yn yr achos.
- Cychwyn a datblygu cyfarfodydd swyddi ag ymddiriedaeth.
- Cynnal sesiwn ôl-drafodaeth er mwyn trafod yr hyn a ddysgwyd yn y broses.

Beth oedd yr heriau?

- Sicrhau bod yr holl bartneriaid yn ymateb yn gyson i ddifrifoldeb y pryderon a godwyd.
- Sicrhau bod cydbwysedd rhwng cynnal gofal diogel yn y cartrefi gofal, yn ogystal â chynnal agwedd gyfrinachol a chudd ar yr un pryd.
- Dirprwyo tasgau a pha sefydliad a fu'n arwain ar dasgau penodol yn yr ymchwiliad ehangach.
- Nodi timau/gweithwyr cymdeithasol allweddol i gefnogi'r broses h.y. cwblhawyd prosesau Adran 126 gan ddim penodol a rhoddodd hyn bwysau ychwanegol arnyn nhw.

Beth nesaf?


Rydym yn disgwyl i ymchwiliad yr Awdurdod Meistri Gangiau a Chamdrin Gweithwyr gael ei gwblhau a gweld beth fydd y canlyniad, ac rydym yn rhagweld y byddwn yn dysgu o gyfarfod canlyniadau'r ôl-drafodaeth.

Atal radicaleiddio

Mae'r strategaeth Prevent, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU yn 2011, yn rhan o strategaeth wrthderfysgaeth gyffredinol y DU, sef CONTEST. Nod strategaeth Prevent yw lleihau'r bygythiad i'r DU o derfysgaeth trwy atal pobl rhag dod yn derfysgwyr neu gefnogi terfysgaeth. Ceir tair amcan strategol benodol yn y strategaeth.

- Ymateb i her ideolegol terfysgaeth a'r bygythiad gan y rheiny sy'n ei hyrwyddo.
- Atal pobl rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth a sicrhau eu bod yn cael cyngor a chefnogaeth briodol.
- Gweithio gyda sectorau a sefydliadau lle ceir risg o radicaleiddio y mae angen i ni roi sylw iddynt.

Yn ystod y flwyddyn adrodd lansiwyd y Strategaeth Prevent dros dair blynedd, sef fframwaith sy'n ein galluogi i drefnu gwaith mewn partneriaeth er mwyn diogelu'r rhai sydd mewn perygl o gael eu radicaleiddio. Yn ystod Wythnos Genedlaethol Diogelu ym mis Tachwedd 2021, fe wnaethom gynnal cynhadledd i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth am y gwaith pwysig sy'n cael ei wneud dan ymbarél Contest a Prevent yng Nghymru. Croesawyd nifer o gyflwynwyr yn cynnwys yr Athro Tracy Daszkiewicz, Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd a Llesiant y Boblogaeth. Roedd hi'n allweddol yn yr ymateb i'r argyfwng a oedd yn cynnwys nifer o asiantaethau, gan weithio bob awr o'r dydd, er mwyn lleihau niwed a diogelu iechyd y cyhoedd pan gafodd Sergei ac Yulia Skripal eu gwenwyno gyda Novichok yn Salisbury yn 2018.



Safon Ansawdd 8: Mae pobl yn cael eu cefnogi i reoli eu lles a gwneud eu penderfyniadau deallus eu hunain fel eu bod yn gallu cyflawni eu llawn botensial a byw'n annibynnol am gyn hired â phosibl

Cathod therapi dementia

Dros y deuddeg mis diwethaf, mae ein Tîm Teleofal wedi bod yn darparu Cath Therapi Dementia ar gyfer rhai unigolion, a defnyddiwyd cyllid o'r Gronfa Gofal Integredig i brynu'r gath. Mae'r cathod yn edrych yn realistig, ac wedi'u dylunio i gynnig cysur, cwmnïaeth a hwyl i bawb. Maen nhw'n canu grwndi'n union fel cath go iawn, ac yn ymateb i gyffyrddiad, a hyd yn oed yn mewian! Rydym wedi cael adborth ardderchog gan deuluoedd a chartrefi gofal a ddywedodd wrthym am yr effaith gadarnhaol mae'r gath wedi'i chael ar fywydau eu hanwyliaid.

Astudiaeth achos

Roedd Mrs X wedi symud i gartref gofal. Roedd hi bob amser wedi cael cathod ond yn anffodus nid oedd yn gallu dod â'i chath ei hun gyda hi. Roedd hi'n bryderus iawn a methu setlo yn ei chartref newydd, felly cysylltodd rheolwr y cartref gofal gyda gwasanaeth Teleofal Conwy.

Cafodd Mrs X Gath Therapi Dementia. Dywedodd y rheolwr fod ei hwyneb wedi goleuo ar unwaith; mae'n cario'r gath i bobman ac mae wedi gwella ei lles yn sylweddol. Mae Mrs X yn fwy cyfforddus, yn llai pryderus ac mae wrth ei bodd gyda'i chyfaill newydd.

Mae'r cathod yn boblogaidd iawn, ac oherwydd eu poblogrwydd mae llawer o gartrefi gofal yng Nghonwy wedi prynu mwy ohonyn nhw i'w rhannu rhwng y preswylwyr.



Adeiladu ein Canolfan Seibiant newydd i Bobl Anabl a phlanhigfa Bryn Euryn

Mae'r gwaith adeiladu ym Mron y Nant yn dod yn ei flaen yn dda, er gwaethaf peth oedi oherwydd y tywydd ym mis Rhagfyr, a phan ysgrifennwyd yr adroddiad hwn, roedd yr isadeiledd mawr ar y llawr gwaelod bellach wedi ei gwblhau. Mae'r gwaith ar safle planhigfa Bryn Euryn yn gynt na'r disgwyl a disgwylir i'r ffenestri a'r drysau gael eu gosod erbyn diwedd mis Chwefror. Mae hyn i gyd yn golygu ein bod yn dal i ddisgwyl y bydd yr adnodd yn agor ar 19 Awst 2022, yn ôl y disgwyl.

Er ein bod wedi cael trafferth wrth geisio cael deunyddiau, a arweiniodd at amseroedd arwain hir, rydym wedi lliniaru hyn drwy ddefnyddio mannau storio'r Awdurdod Lleol. Drwy archebu deunyddiau ymlaen llaw a chynllunio i'r dyfodol, rydym wedi llwyddo i arbed amser ac arbed tua £20,000 o gostau hyd yma. Mae digwyddiad cwrdd â'r prynwr wedi'i drefnu ym mis Chwefror 2022 er mwyn magu diddordeb yn ein siop a'n caffi cyffrous newydd.

Fe soniom yn gynharach yn yr adroddiad fod yna brosiect cymhleth ar waith, gyda phedair ffrwd waith wahanol, sef gweithredu'r safle, seibiant i bobl anabl, gofal cymhleth a chyfleoedd gwaith. Mae pob un o'r rhain yn cael eu rheoli gan dîm prosiect profiadol, ac mae £1.2m wedi cael ei wario ar y gwaith adeiladu hyd yma.

Clwb Newydd ar gyfer rhai sy'n Gadael yr Ysgol

O fewn y Gwasanaethau Anabledd, fe welsom yr angen i gyflwyno clwb newydd ar gyfer pobl ifanc oedran gadael ysgol oherwydd y galw mawr ar gyfer yr ystod oedran hwnnw. Gwelsom gyfle i ddatblygu'r set sgiliau ar gyfer y bobl ifanc hynny sydd ar eu taith i fod yn oedolion. Ar ôl cynnal trafodaethau gyda phobl ifanc a'r staff sy'n eu cefnogi, roedd hi'n amlwg eu bod eisiau dysgu sut i goginio a siopa'n annibynnol mewn amgylchedd diogel.

Dechreuodd y clwb gyda phump person ifanc 17 oed a hŷn, wedi'u cefnogi gan dri aelod o staff. Penderfynwyd ar leoliad addas yng Nghanolfan Marl yng Nghyffordd Llandudno, oherwydd y cyfleusterau sydd ar gael ar y safle ac am ei fod yn agos at archfarchnadoedd. Ar ôl siarad gyda theuluoedd, penderfynwyd y byddai dydd Gwener rhwng 4:30pm a 7:30pm yn slot addas, a byddai'n galluogi'r bobl ifanc sy'n mynychu i gynllunio, siopa fel grŵp ar gyfer eu pryd nos y diwrnod hwnnw, a'i goginio.

Cafodd pobl ifanc eu cefnogi i benderfynu fel grŵp beth bydden nhw'n ei goginio gyda'r nos. Roedd y gweithgaredd syml hwn yn cynnwys sgiliau gwrando, cydweithredu a disgwyl eu tro. Ar ôl penderfynu beth fyddai'n

cael ei goginio, roeddem yn cefnogi'r grŵp i lunio rhestr siopa, a'r aelodau mwy abl yn y grŵp yn gyfrifol am ysgrifennu'r rhestr siopa bob wythnos. Fe wnaeth y staff gefnogi'r grŵp i baratoi cyllideb er mwyn sicrhau nad



oedd y rhestr siopa a ddymunwyd yn ddrutach na'r gyllideb ymhob sesiwn.

Roedd y bobl ifanc yn gyfrifol am wneud eu hunain yn barod cyn mynd i'r archfarchnad, a rhoddwyd tasg i bob un ohonyn nhw ganfod eitemau ar y rhestr siopa. Ar ôl y daith i'r siop, rhoddwyd tasg i bob person ifanc baratoi elfennau gwahanol y pryd bwyd. Tra roedd y pryd yn cael ei goginio, fe dreuliodd y bobl ifanc amser yn gwrando ar gerddoriaeth, chwarae offerynnau, chwarae gemau bwrdd neu sgwrsio gyda'u ffrindiau.

Gwelwyd hyder y bobl ifanc a oedd yn rhan o'r grŵp yn tyfu bob wythnos, a nododd sawl un eu bod nawr yn helpu i baratoi bwyd gartref. Gwelwyd bod y bobl ifanc a oedd yn cael trafferth gyda'r tasgau syml ar y dechrau yn dod yn gyfarwydd â'r drefn yn fuan iawn ac roedden nhw'n gallu cyflawni tasgau mwy cymhleth wrth i amser fynd yn ei flaen.

Ar y cyfan fe ddatblygodd y grŵp eu sgiliau diogelwch ar y ffyrdd, sgiliau trin arian, yr hyder i fod yn annibynnol, rhyngweithio cymdeithasol a chyfathrebu.

Cefnogi pobl i fod yn annibynnol

Yn adroddiad y llynedd, fe wnaethom sôn wrthyhych am y cynnydd ardderchog a oedd yn cael ei wneud ar y pryd ar safle Maelgwn yng Nghyffordd Llandudno. Mae cam adeiladu'r prosiect nawr wedi ei gwblhau'n llwyddiannus ac mae'n barod ar gyfer tenantiaid newydd. Mae cymysgedd da o lety ar gael i unigolion sydd ag anghenion gwahanol, er enghraifft anabledau, pobl sy'n gadael gofal a phobl ddiamddiffyn.

Rydym eisoes wedi gallu dangos tystiolaeth o'r effaith gadarnhaol mae'r llety hwn yn ei gael ar bobl a'u gallu i fyw'n fwy annibynnol. Dyma ddwy astudiaeth achos o safle Maelgwn:

Astudiaeth achos

Mae unigolyn wedi gadael cartref am y tro cyntaf a symud i'w fflat ei hun. Roedd y teulu wedi ei chefnogi i fod yn annibynnol yn y cartref cyn iddi symud.

Mae'r unigolyn yn gymdeithasol iawn ac mae symud wedi ei galluogi i dreulio mwy o amser gyda'i chyfoedion. Mae'n mynegi ei safbwyntiau a'i barn yn amlach ac mae ganddi nawr ddiddordebau gwahanol.

Yr her fwyaf i'r teulu oedd sylweddoli nad oedd hi angen cymaint o gefnogaeth ganddyn nhw, er hyn, maen nhw'n dal i'w chefnogi. Maen nhw nawr yn treulio amser gyda'i gilydd fel teulu yn hytrach na chwarae rôl gofalu.

Teleofal - Parhau i fod yn arloesol yn ystod y pandemig

Drwy gydol pandemig Covid-19, mae'r tîm Teleofal wedi parhau i ddarparu gwasanaethau a chanfod ffyrdd arloesol i gadw pobl yn

annibynnol a'u diogelu drwy ddefnyddio technoleg. Mae hyn wedi rhoi tawelwch meddwl i deuluoedd y defnyddwyr gwasanaeth gan eu bod yn gwybod bod eu hanwyliaid yn ddiogel ac yn aros mor annibynnol â phosibl. Dyma astudiaeth achos lwyddiannus sy'n enghraifft lle gwelwyd gwir wahaniaeth drwy ddefnyddio technoleg y gellir ei gwisgo.

Astudiaeth achos

Mae Mr X yn ŵr oedrannus gyda dementia sy'n byw gyda'i wraig mewn pentref gwledig. Roedd yn annibynnol iawn, ond yn ystod y cyfnod clo cyntaf, dechreuodd ei wraig sylwi ar fymryn o newid yn ei gof a dechreuodd gael trafferth defnyddio cludiant cyhoeddus. Er mwyn sicrhau na fyddai'n rhaid i'w wraig deithio gydag ef, cyfeiriwyd Mr X at wasanaethau Teleofal Conwy i gael ei asesu gan y Clinig Cof.



Gan nad oedd yn hawdd i Mr X ddefnyddio ffôn symudol, cytunwyd y gellid rhoi cynnig ar ddefnyddio oriawr GPS Doro. Roedd yr oriawr wedi'i chysylltu â ffôn symudol ei wraig fel y gallai hi weld ei symudiadau tra roedd hi'n ôl yn ei gwaith.

Roedd yr oriawr yn rhoi tawelwch meddwl i Mr a Mrs X. Gallai Mrs X ddychwelyd i'w gwaith gan wybod y gallai hi ganfod ei gŵr pe bai'n mynd am dro neu'n dal y bws. Roedd Mr X hefyd yn falch iawn o gael dyfais a allai gysylltu â'i wraig yn hawdd pe bai'n teimlo'n sâl neu'n anghofus. Mae nawr yn mynd am dro bob dydd, sydd wedi gwella'r sefyllfa. Gallaf fynd i fy ngwaith heb boeni gormod amdano, mae wedi helpu fy ngorbryder i, a gwella ei iechyd meddwl ef a'i deimlad o fod yn annibynnol.

Mae wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i'r ddau ohonom. Gallaf fynd i fy ngwaith heb boeni gormod amdano, mae wedi helpu fy ngorbryder.

Manteision dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

Drwy weithio'n agos gyda'r unigolion rydym yn eu cefnogi gallwn eu helpu i fanteisio i'r eithaf ar fywyd a gwella'u hannibyniaeth a'u hyder. Dengys yr astudiaeth achos isod sut y gellir gweld gwir fanteision drwy neilltuo'r amser i weithio gyda chryfderau'r unigolyn, wrth eu pwysau eu hunain.

Astudiaeth achos

Mae X yn ferch ifanc yn ei 20au gydag anabledd dysgu sy'n hynod o bryderus drwy holl agweddau ei dydd. Mae hi'n mynegi ei gorbryder drwy drais corfforol a geiriol a thrwy roi ei hun mewn sefyllfaoedd peryglus. Pan adawodd hi'r ysgol, dechreuodd fynychu gwasanaeth dydd newydd bum diwrnod yr wythnos, a oedd wedi'i deilwra i'w hanghenion.

Cyn dechrau'r gwasanaeth dydd, bu'n rhaid i ni ymgysylltu'r staff gyda X a'i hamgylchiadau personol felly fe weithiodd y staff cefnogi gyda X yn ei hysgol am saith mis er mwyn dod i'w hadnabod. Ysgrifennwyd cynlluniau personol cyfannol, yn cynnwys teulu, addysg, iechyd a darparwyr cefnogaeth a oedd eisoes yn bodoli. Croesawodd y tîm y gwasanaeth newydd gan ddefnyddio dulliau cefnogi ymddygiad

cadarnhaol. Mynegodd X ar lafar yr hyn roedd hi'n ei hoffi a'i gasáu, a hi fu'n arwain y cynlluniau pontio.

Fe wnaethom gyflwyno gweithgareddau newydd ar gyflymder a oedd at ddant X, gan adeiladau ar y rhain yn araf. Mae ei hyder wedi gwella, ac oherwydd hyn mae hi nawr yn mwynhau gweithgareddau amrywiol, yn cynnwys ymweld â nifer o lefydd newydd, siopa drosti ei hun, bwyta cinio mewn caffi a nofio mewn pyllau nofio cyhoeddus, i enwi ond rhai. Mae ganddi bersonoliaeth anhygoel a synnwyr digrifwch gwych, ac mae'r staff yn gweld hyn bob dydd.

Yn dilyn llwyddiant mesurau Cefnogi Ymddygiad Cadarnhaol, byddwn yn hyfforddi pob aelod o staff yn y dull hwn.



Cefnogaeth ar gyfer gŵr ifanc â nam ar ei olwg

Mae ein Gwasanaeth Anableddau'n gweithio'n agos iawn gyda swyddogion adsefydlu o Vision Support i ddarparu cefnogaeth arbenigol i unigolion sydd â nam ar eu golwg. Mae'r astudiaeth achos hon yn dangos sut y gall nodi beth sy'n bwysig i'r unigolyn helpu i annog annibyniaeth a chanlyniadau personol cadarnhaol.

Astudiaeth achos

Mae X yn berson yn ei arddegau gydag awtistiaeth, problemau symudedd a nam difrifol ar ei olwg. Cafodd ei gyfeirio at ein gwasanaeth ni ac fe wnaethom gytuno ar ganlyniadau a oedd yn bwysig iddo ef, yn cynnwys symud o gwmpas yn ddiogel, mynd i'r coleg a manteisio i'r eithaf ar y golwg sydd ganddo ar ôl.

Cafodd X gefnogaeth i asesu ei sgiliau cerdded, gwrando a gweld, gan y byddai'r rhain i gyd yn effeithio ar ei allu i symud o gwmpas yn annibynnol. Yn ogystal â chefnogi X, fe gymerodd ei deulu a staff y coleg ran mewn hyfforddiant tywys fel y gallen nhw ei helpu pan fydden nhw allan gyda'i gilydd.

Cynhaliwyd rhagor o hyfforddiant symudedd wedi'i deilwra ar gyfer X iddo gerdded o'i gartref at gludiant i'r coleg ac yn ôl unwaith eto ar ddiwedd y dydd, a gallu symud o gwmpas yr ardaloedd y byddai angen iddo ymweld â nhw yn y coleg. Fe wnaeth hyn wella'i hyder a'i annibyniaeth, ac mae'r hyfforddiant wedi dechrau ei gyflwyno i lwybrau i mewn i'r dref er mwyn iddo ymweld â siopau a gwasanaethau.

Fe wnaethom weithio gyda mam X er mwyn gwella ei hyder hi yn ei alluoedd a thawelu ei phryderon pan fyddai ef ar ei ben ei hun yn y gymuned. Rydym wedi defnyddio technoleg megis ap iOS 'Find my' er mwyn galluogi mam i dracio symudiadau cyfredol X, ac rydym wedi ei gyfeirio at y Swyddog Cynhwysiant Digidol er mwyn ei gefnogi ef a staff

y coleg i ddewis offer hygyrch. Mae X hefyd yn manteisio i'r eithaf ar ei dechnoleg ei hun a sbectol golwg gwan arbenigol gyda'n cefnogaeth ni.

I gloi, rydym yn gweithio gyda theulu X i'w cefnogi gyda'u cais PIP a'u statws tŷ.

Cynnydd mewn cynadleddau grŵp i deuluoedd

Mae gwasanaeth Cynadleddau Grŵp i Deuluoedd (CWLWM) a ddarperir gan Y Bont, yn broses dan arweiniad teuluoedd lle caiff penderfyniadau, cynlluniau a threfniadau eu gwneud ar gyfer plant sydd mewn angen neu berygl. Gellir hefyd defnyddio'r Cynadleddau Grŵp i Deuluoedd ar gyfer aelodau'r teulu, yn cynnwys plant a phobl ifanc, er mwyn cytuno ar gefnogaeth a gofawyr amgen er mwyn cadw plant gyda'u teuluoedd eu hunain.



Mae'r gwasanaeth wedi cael ei ariannu drwy'r gyllideb graidd er mwyn cefnogi tua 21 o deuluoedd bob blwyddyn. Gyda chyllid ychwanegol o'r Gronfa Gofal Integredig, roeddem yn gallu cynyddu nifer y teuluoedd mae CWLWM yn eu cefnogi, at hyd at 40 o deuluoedd rhwng 2019 a 2021 yn ogystal â darparu hyfforddiant i staff. Roedd hyn yn golygu bod teuluoedd

yn derbyn y gwasanaeth yn llawer cynharach, a oedd yn helpu i atal anghenion rhag cynyddu a phlant yn cael eu rhoi yn ngofal yr Awdurdod Lleol. Er y daw cyllid y Gronfa Gofal Integredig i ben eleni, bydd Cynadleddau Grŵp i Deuluoedd yn parhau, er y bydd hynny gyda llai o deuluoedd.

Sut rydym yn cyflawni ein gwaith

Cefnogaeth barhaus ar gyfer ein myfyrwyr gwaith cymdeithasol

Rydym yn falch iawn o ddweud ein bod wedi darparu 30 lleoliad ar gyfer myfyrwyr Gwaith Cymdeithasol yn ystod 2021-2022 ac yn ystod yr un cyfnod rydym wedi cyflogi pedwar o fyfyrwyr ar ôl iddyn nhw raddio.

Wrth gefnogi ein myfyrwyr gweithwyr cymdeithasol, rydym yn cael adborth gan fyfyrwyr yn rheolaidd, ac yn gwrandao arno ac yn ymateb iddo. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn cael y profiad gorau gyda Chonwy, gan arwain at ganlyniad cadarnhaol erbyn diwedd eu lleoliad. Rydym hefyd yn derbyn ac yn ymateb i adborth gan Addysgwyr Ymarfer a Goruchwylwyr ar y Safle, a sicrhau bod arferion da a syniadau da'n cael eu rhannu a'u rhaeadru.

Mae'r adborth am gynnal sesiynau rheolaidd ar gyfer grwpiau cefnogi gyda myfyrwyr, yn ogystal â fforymau myfyrwyr mwy ffurfiol gyda siaradwyr gwadd wedi bod yn gyson adeiladol. Maen nhw wedi gwerthfawrogi'r man diogel i rannu eu pryderon a materion sy'n peri penbleth iddyn nhw, a gallu eu trafod mewn amgylchedd diogel, heb gael eu beirniadu, er mwyn sylweddoli nad ydyn nhw ar eu pen eu hunain os ydyn nhw'n teimlo emosiynau cryf ar brydiau, ac yn wynebu rhwystrau a heriau penodol, e.e. gweithio gartref, teimlo'n ynysig, diffyg ysgogiad. Maen nhw wedi gwerthfawrogi gallu cyfarfod â'u cyfoedion, a chael safbwynt ehangach drwy gymharu nodiadau gyda chyd-fyfyrwyr o Raglenni eraill. Yn bennaf, mae gennym fyfyrwyr o Raglen M.A. Bangor, ond bu'n llwyddiant pan ddaeth hyfforddeion/myfyrwyr mewnol y Brifysgol Agored i ymuno â nhw yn y grŵp hwn ar yr un lefel hyfforddiant. Yna

maen nhw'n parhau i gyd-ddysgu gyda'i gilydd yn ystod eu blwyddyn gyntaf yn ymarfer, gan arwain at y Rhaglen a'r Gweithdai Cyfuno.



Roedd cyflwyno system gyfeillio er mwyn paru myfyrwyr blwyddyn gyntaf gyda myfyrwyr o'r ail flwyddyn hefyd yn ffynhonnell dda o gefnogaeth, ac mae hyfforddeion y Brifysgol Agored wedi gwerthfawrogi hyn yn fawr, gan fod gweithdrefnau'r Brifysgol yn benodol iawn. Roedden nhw'n teimlo ei fod yn werthfawr iawn gallu cysylltu â rhywun sydd wedi bod drwy union yr un systemau â nhw, er mwyn cael arweiniad a gwybodaeth.

Erbyn eleni, a ninnau wedi profi bron i ddwy flynedd o'r pandemig, rydym wedi dysgu ei bod yn hanfodol darparu gwybodaeth eglur a chyfredol i fyfyrwyr. Mae'r pandemig wedi newid y ffordd rydym yn gweithio ac felly ni allwn addo y gellir gweithio mewn swyddfa na chael cyfleoedd wyneb yn wyneb. Cyflwynwyd y neges hon drwy ein Haddysgwyr Ymarfer a'n Haddysgwyr ar y Safle drwy gynnal sesiynau gyda myfyrwyr cyn eu lleoliadau.

Rydym hefyd yn cael adborth gan Addysgwyr Ymarfer ynghylch yr hyn sydd wedi gweithio'n dda a'r hyn sydd heb weithio cystal. Yn yr hydref, fe wnaethom gynnal gweithdy hanner diwrnod dros y we, fel sesiwn ôl-drafodaeth ar ôl lleoliadau, yn ogystal ag edrych ymlaen at fyfyrwyr a lleoliadau eleni. Hefyd, y bwriad oedd manteisio i'r eithaf ar sesiynau goruchwyllo dros y we yn ogystal â bod yn fwy creadigol gyda chyfleoedd dysgu ac arsylwadau uniongyrchol dros y we.

Llwybr Cyflogaeth Gofal Cymdeithasol

Rhoddwyd rhaglen ar waith er mwyn sicrhau bod gan ymgeiswyr di-waith y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i wneud cais am swyddi gofal cymdeithasol yn y sector yng Nghonwy. Mae staff CBSC yn cwrdd yn rheolaidd â Chanolfannau Gwaith, PACE a'r Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn eu briffio am y rhaglen ac anghenion y sector. Rydym yn gweithio gydag ymgeiswyr i:

- Ddysgu am y gwahanol swyddi ym maes gofal cymdeithasol.
- Dysgu am y prif sgiliau a gwybodaeth sydd eu hangen i weithio ym maes gofal cymdeithasol.
- Darparu sesiynau blasu mewn lleoliadau gofal cymdeithasol.
- Darparu cefnogaeth i ymgeisio am swyddi.
- Cynnig lleoliadau profiad gwaith i fyfyrwyr iechyd a gofal cymdeithasol.

Ers sefydlu'r gwasanaeth ym mis Rhagfyr 2021 rydym wedi gweithio gydag 19 o unigolion a chefnogi tri i gael swyddi yn y sector gofal cymdeithasol.

Beth oedd yr heriau?

Os nad oes gan unigolion fynediad at eu cludiant a'u technoleg eu hunain, rydym wedi canfod y gall hyn gyfyngu ar eu cyfleoedd i ganfod swydd. Mae hyder unigolion i ddefnyddio technoleg, a'u hyder yn eu galluoedd eu hunain hefyd yn ffactor. Os nad yw rhywun wedi cael gwaith

ers peth amser, efallai y bydd arnyn nhw angen cryn dipyn o waith mentora er mwyn eu cefnogi drwy'r broses gyflogi.

Beth nesaf?

Rydym yn adolygu dewisiadau er mwyn cynyddu ein capasiti i gynnig hyd yn oed mwy o gefnogaeth i recriwtiaid a chyflogwyr. Yn ogystal â hyn, rydym yn cefnogi'r Grŵp Tasg a Gorffen Rhanbarthol ar gyfer Recriwtio a Chadw Staff sy'n edrych ar y meysydd canlynol er mwyn mynd i'r afael â phrinder Gweithwyr Cymdeithasol cymwys a phrofiadol:

- Strwythur cyflog cenedlaethol ar gyfer gweithwyr cymdeithasol
- Nid yw'r niferoedd uchel o weithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso sy'n cymryd lle gweithwyr cymdeithasol profiadol yn gynaliadwy.
- Cymhwyster Gwaith Cymdeithasol - diffyg sgiliau craidd sydd eu hangen ar gyfer ymarfer yn yr hyn a ddysgir yn y brifysgol.

Rydym hefyd yn llunio cynllun cyfathrebu a marchnata er mwyn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd am y gwasanaeth.



Ymgynghori'n barhaus gyda phobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau a chael cyfranogiad parhaus ganddyn nhw

Mae cynnal dulliau cyfathrebu ystyrion gydag unigolion rydym ni'n eu cefnogi'n sicrhau ein bod wedi parhau i fonitro ansawdd ein gwasanaethau, er gwaethaf yr heriau a gafwyd yn sgil cyfyngiadau Covid dros y flwyddyn ddiwethaf. Yma rydym yn rhoi manylion am rywfaint o'r gwaith ymgynghori a gynhaliwyd gennym gydag amryw o unigolion mewn lleoliadau gwahanol.

Preswylwyr cartrefi gofal a'u teuluoedd

Fe wnaethom ymgynghori gyda phobl ifanc a oedd yn byw mewn tri lleoliad cartref gofal er mwyn trafod effeithiau'r cyfnod clo, a sut maen nhw'n llwyddo i oresgyn yr anawsterau roedden nhw'n dod ar eu traws yn ystod y pandemig, yn cynnwys sut roedden nhw'n cael eu cefnogi i gadw mewn cysylltiad gyda'u teuluoedd a'u ffrindiau.

Fe wnaethom hefyd ymgynghori gyda theuluoedd pobl hŷn a oedd yn byw mewn cartrefi gofal er mwyn trafod ffyrdd y gallen nhw gadw mewn cysylltiad, yn ogystal ag effaith y pandemig ar eu perthnasoedd, eu safbwyntiau a'u teimladau.

Mae caniatáu i bobl siarad am eu profiadau'n llywio'r gwaith y byddwn yn ei wneud yn y dyfodol.

Beth oedd yr heriau?

Yn ystod y flwyddyn adrodd hon, dim ond cyfran fach o'n cartrefi gofal roedden ni'n gallu ymgysylltu â nhw oherwydd y problemau roedden nhw'n eu hwynebu, ond fe wnaethom barhau i gynnal y gwaith ymgynghori hwn er mwyn clywed barn pobl a siarad gyda phobl a'u teuluoedd. Roedd canfod ffyrdd newydd i gefnogi gwaith ymgysylltu'n heriol, er hyn, cafwyd llwyddiant wrth gyflwyno dyfeisiau iPad ym mhob cartref gofal yng Nghonwy er mwyn hwyluso sgysiau wyneb yn wyneb gydag aelodau o'r teulu. Hefyd, roedd rhai cartrefi gofal yn gwahodd

aelodau o'r teulu i ymuno â gweithgareddau cymdeithasol ar-lein, a chawson nhw fwynhad mawr o wneud hynny.

Beth nesaf?

Yn 2022 rydym yn cynllunio gwaith ymgynghori pellach gyda phreswylwyr mewn lleoliadau cartrefi gofal a'u teuluoedd gan fod y cyfyngiadau nawr yn caniatáu ar gyfer mwy o gysylltiad wyneb yn wyneb.

Statws Cyngor sy'n Deall Dementia i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Yn 2021 cawsom gydnabyddiaeth gan Gymdeithas Alzheimer's am ein hymdrechion i ddeall dementia'n well. Daeth hyn o ganlyniad i waith ymgysylltu cyson a wnaed gyda chymunedau lleol, grwpiau dementia a gofalwyr pobl sy'n byw gyda dementia. Fe wnaethom greu Cefnogwyr Dementia drwy'r Cyngor, trefnu Bws Dementia i fynd ar daith o amgylch y sir, a chynnal sesiynau rheolaidd i godi ymwybyddiaeth am Dementia ar gyfer staff y Cyngor a grwpiau staff eraill.

Beth oedd yr heriau?

Yn ystod y pandemig, nid oedd grwpiau cymunedol yn gallu cwrdd wyneb yn wyneb, ac roedd yna lawer llai o gyfleoedd i gynnal gweithgareddau cymdeithasol i bobl a oedd yn byw gyda dementia, neu cawsant eu canslo'n gyfan gwbl, er enghraifft dangos ffilmiau yn y sinema mewn ffordd a oedd yn deall dementia.

Beth nesaf?

Yn 2022 rydym yn edrych ymlaen at ymgysylltu gyda dinasyddion a gofalwyr yng Nghonwy er mwyn parhau â'r gwaith i godi ymwybyddiaeth am ddementia drwy gynnwys cymunedau yng Nghonwy.

Cyd-gynhyrchu gyda phobl sy'n gadael gofal

Dros y deuddeg mis diwethaf, mae'r Tîm Ymgynghori Personol wedi edrych ar sut i ddatblygu'r ffordd y darperir gwasanaethau. Er mwyn

gwneud hyn, roedd hi'n bwysig bod y bobl ifanc eu hunain yn cael eu cynnwys yn y broses. Rydym wedi gwneud y gwaith canlynol:

- Anfonwyd arolygon at y bobl ifanc i ofyn eu barn am sut y gwnaethom berfformio yn ystod y pandemig a'r cyfnod clo, felly fe'u holwyd beth wnaethom ni'n dda, ddim cystal, a'r hyn y dylem fod yn ei wneud wrth symud ymlaen.
- Gofynnwyd sut y dylen ni wario'r grant Dydd Gŵyl Dewi gan Lywodraeth Cymru.
- Gofynnwyd am eu barn a'u dymuniadau o ran datblygu gwefan benodol ar gyfer pobl sy'n gadael gofal.
- Rydym ar hyn o bryd yn y broses ymgeisio i gael arian a fydd yn ein galluogi i gwblhau gwaith ymchwil penodol ar gyfer pobl sy'n gadael gofal mewn cydweithrediad â Phrifysgol Bangor ac awdurdodau lleol eraill yng Ngogledd Cymru. Cynhaliwyd dau ddigwyddiad dros y we ar gyfer pobl sy'n gadael gofal er mwyn canfod safbwyntiau a meddyliau'r bobl ifanc eu hunain o ran y testun ymchwil.

Rydym wedi cael ymatebion gwyb i'r holl ffrydiau gwaith hyn.

Beth oedd yr heriau?

Nid yw pob person ifanc rydyn ni'n gweithio gyda nhw eisiau ymgysylltu â ni a gall hyn gyfyngu ar nifer yr ymatebion. Er hyn, er nad oedd rhai pobl ifanc eisiau cymryd rhan, roedd yr ymatebion a gawsom yn gadarnhaol iawn ac maen nhw wedi tynnu sylw at bethau y gallwn ni fod yn falch ohonyn nhw a phethau i ni weithio tuag atyn nhw.

Beth nesaf?

Mae cyd-gynhyrchu gyda'r bobl ifanc rydym yn gweithio â nhw yn un o'r meysydd blaenoriaeth sefydlog ar gyfer y tîm a'r bwriad yw cryfhau hyn. Hoffem ddatblygu sampl bach, cyson o bobl ifanc sydd wedi ymrwymo i'n

cynorthwyo ni i lunio'r datblygiadau yn y gwasanaeth.



Gweithio mewn Partneriaeth

Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda phartneriaid ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ac Arolygiaeth Gofal Cymru er mwyn datblygu Fframwaith Sicrwydd Ansawdd newydd a Memorandwm o Ddealltwriaeth ynghylch rhannu gwybodaeth am gartrefi gofal annibynnol ac asiantaethau gofal cartref. Mae cyfarfodydd misol wedi dechrau cael

eu cynnal lle gellir cael trafodaethau a gellir datblygu cynlluniau gweithredu addas, wedi'u cydlynu. Mae hyn wedi helpu Conwy i gefnogi gwelliannau gyda nifer o ddarparwyr gofal ers mis Ebrill 2021.

Rheoli'r gyllideb a chynllunio ar gyfer y dyfodol

Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) yn nodi dull strategol y Cyngor i reoli ei gyllid ac mae'n amlinellu rhai o'r problemau ariannol a fydd yn wynebu'r Cyngor dros y pedair blynedd nesaf.

Mae cyflawni'r strategaeth yn dibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael drwy setliadau Llywodraeth Cymru ac ar lwyddiant y Cyngor wrth sicrhau bod yr adnoddau'n cyd-fynd â'i nodau a'i flaenoriaethau.

Yn 2021-22, rhagamcanir y bydd y sefyllfa derfynol ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol o fewn y gyllideb. Ar gyfer 2022-23, mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol, drwy'r broses achosion busnes, wedi gwneud cais ac wedi derbyn cyllid ychwanegol ar gyfer pwysau'r costau cynyddol rhagweledig sy'n ymwneud â Gofal Cymdeithasol i Oedolion (£1,489,000) a Phlant, Teuluoedd a Diogelu (£626,000), yn ogystal â chynnydd mewn costau'n gysylltiedig â ffioedd uwch a delir i ddarparwyr annibynnol gofal preswyl, gofal nyrsio, gofal cartref a byw â chymorth (£3,500,000). Mae'r adran hefyd wedi gorfod dod o hyd i arbedion o £1,060,000, ond mae'r arbedion hyn wedi eu targedu er mwyn lleihau'r effaith ar ddarpariaeth gofal ar y rheng flaen.

Gweithio mewn partneriaeth, arweinyddiaeth wleidyddol a chorfforaethol, llywodraethu ac atebolrwydd

Mae [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) Llywodraeth Cymru yn amlinellu cyfres o ganlyniadau cenedlaethol ac mae'n gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i roi datblygu cynaliadwy wrth wraidd eu penderfyniadau. Mae'r Ddeddf hon yn sicrhau bod ystyriaethau

amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yn ganolog i'r penderfyniadau a wneir.



Yng Nghonwy, rydym wedi cynnwys yr amcanion hyn yng [Nghynllun Corfforaethol Conwy](#). Mae'r saith nod a'r pum ffordd o weithio yn cyfateb i wyth Canlyniad Dinasyddion Conwy.

Ceir camau gweithredu ataliol yn y Cynllun Corfforaethol, sydd â'r nod o weithio tuag at effaith mwy hirdymor, ac sydd wedi'u llunio drwy ystyried sut maent yn cyfrannu at y 7 Nod Lles. Mae'r camau gweithredu hyn hefyd yn gydweithredol yn y modd y maent yn canolbwyntio ar weithio'n agos gyda chymunedau fel bod ganddynt berchnogaeth dros y

Canlyniadau ar gyfer Dinasyddion a'u bod yn rhan o'r cydweithio i'w cyflawni.



Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) hefyd yn diffinio datblygu cynaliadwy yng Nghymru fel ffordd i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n gwneud i ni ganolbwyntio ar yr hyn rydym yn ei wneud, sut rydym yn ei gyflawni a sut rydym yn cyfathrebu. Fel gwasanaeth, rydym yn cyfrannu drwy fyfyrion ar y modd yr ydym yn defnyddio'r pum ffordd o weithio yn ein proses Adolygu Perfformiad y Gwasanaeth bob chwe mis.

Mae [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#) a'r [Cod Ymarfer](#) yn nodi fframwaith ar gyfer mesur y cynnydd y mae

awdurdodau lleol yn ei wneud yn erbyn eu dyletswyddau dan y Ddeddf fel cyfanwaith. Mae'r broses hon hefyd yn galluogi Awdurdodau Lleol i wella'u gwasanaethau'n barhaus. Fel y nodir yn y Cod Ymarfer, mae gennym drefniadau cadarn ar gyfer casglu ac adrodd ar ddata am fesuryddion perfformiad statudol i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn. Caiff perfformiad ei fesur yn unol â phob un o'r safonau ansawdd sy'n canolbwyntio ar bobl, partneriaethau ac integreiddio ac atal.

Mae gan Gonwy drefniadau llywodraethu cadarn i gefnogi dulliau rheoli effeithiol ar gyfer Gofal Cymdeithasol. Mae'r Cyngor wedi sefydlu Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r Cyngor wedi penodi dau Ddeilydd Portffolio sy'n cynrychioli Gofal Cymdeithasol Plant a Theuluoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion a Hamdden. Rydym hefyd yn cyflwyno amrywiol adroddiadau i'r Pwyllgor Craffu eu hadolygu a'u herio. Yn ogystal, mae gennym broses fewnol gadarn i oruchwylio a herio perfformiad. Cynhelir cyfarfodydd gyda'n harolygiaeth drwy gydol y flwyddyn ac rydym yn mynd ati i adolygu ein harferion ein hunain yn rheolaidd fel mater o drefn er mwyn sicrhau gwelliant parhaus yn ein gwasanaeth.

Rheoleiddio ac Arolygu

Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (RISCA) wedi newid y ffordd y caiff ein gwasanaethau eu harolygu, sut yr ydym yn gwella ansawdd y gofal a'r cymorth yr ydym yn ei ddarparu, a'r modd yr ydym yn rheoleiddio ein gweithlu. Mae'n sicrhau bod ansawdd gwasanaethau a dulliau arolygu wrth wraidd gwaith rheoleiddio; sy'n cryfhau mesurau diogelu ar gyfer y rhai sydd ei angen ac mae'n sicrhau bod gwasanaethau'n darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel.

Ers 2018, o fewn y Gwasanaethau Oedolion, dechreuwyd cofrestru rheolwyr yn y sector cartrefi gofal ledled Cymru, o dan y rheoliadau RISCA newydd. Rydym wedi cynnal cyfres o fforymau rheolwyr i baratoi ar gyfer cyflwyno RISCA. Rydym hefyd wedi cynnal gweithdai Cofrestru Gofal Cymdeithasol Cymru yn ddiweddar i gefnogi dulliau cofrestru ar gyfer y gweithlu gofal cartref. Rydym wedi sefydlu grŵp polisi RISCA sy'n

cwrdd bob mis er mwyn adolygu'r polisïau sy'n ofynnol o dan y rheoliadau newydd. Rydym hefyd yn cynnal Grŵp Hyfforddiant Darparwyr Conwy er mwyn hybu datblygiad a dysg y gweithlu ym mhob rhan o'r Sector.

O fewn maes gwasanaeth Plant sy'n Derbyn Gofal, mae Arolygiaeth Gofal Cymru wedi cyhoeddi eu Hadroddiad Trosolwg Cenedlaethol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sydd wedi cael profiad o ofal. Bu i ni gymryd rhan yn yr adolygiad hwn ac rydym wedi edrych ar sut y gallwn wella'r ffordd yr ydym yn gweithio i wella profiadau drwy ddefnyddio'r canfyddiadau allweddol.

Gwiriad Sicrwydd AGC

Ym Mehefin 2021 fe gynhaliwyd Gwiriad Sicrwydd gan Arolygiaeth Gofal Cymru er mwyn adolygu pa mor dda mae Gwasanaethau Cymdeithasol Conwy yn parhau i helpu a chefnogi oedolion a phlant, gan ganolbwyntio ar ddiogelwch a lles. Fe wnaethon nhw ein hasesu yn ôl y pedair egwyddor yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a chofnodi eu barn a'u canfyddiadau yn erbyn: Llais a rheolaeth; Atal; Llesiant; Partneriaethau ac integreiddio. Roedd yr adroddiad yn hynod o gadarnhaol am y ffordd y gwnaethom ymateb i'r pandemig a pharhau i gefnogi unigolion diamddiffyn yng Nghonwy. Mae'r uchafbwyntiau'n cynnwys:

- “Mae gan bobl lais cryf a rheolaeth dros y gefnogaeth maen nhw'n ei derbyn, a'r dulliau ymarfer yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolion, y canlyniad yr hoffon nhw ei gyflawni, a sut gallan nhw ddefnyddio'u cryfderau a'u hadnoddau eu hunain i hyrwyddo eu lles.”
- “Mae rheolwyr yn ymgysylltu yn sicrwydd ansawdd y gweithgareddau gwaith, ac roedd hi'n chwa o awyr iach gweld dulliau eglur i archwilio gwaith achos a lledaenu addysg.”
- “Roedd y darparwyr yn siarad yn gadarnhaol am y gefnogaeth a gawson nhw gan yr awdurdod lleol yn ystod y pandemig. Roedden

nhw'n gwerthfawrogi lefel y cyfathrebu ac ansawdd y cyngor a'r cymorth a gafwyd.”

Bydd AGC yn parhau i fonitro ein perfformiad drwy gynnal cyfarfodydd gwerthuso perfformiad parhaus gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth a'r Cyfarwyddwr.



Arolygu'r cartref plant

Fe ymwelodd AGC â'n cartref plant mewnol, sef Glan yr Afon, ym mis Tachwedd 2021 er mwyn cynnal arolygiad heb ei gyhoeddi ymlaen llaw. Fe wnaethon nhw ddilyn cynllun er mwyn siarad â'r plant, adolygu nifer o ddogfennau, archwilio'r amgylchedd ac adolygu arweinyddiaeth a dulliau rheoli'r gwasanaeth.

Roedd yr arolygwyr yn fodlon fod yr asesiadau a'r gefnogaeth i'r bobl ifanc, a'r gefnogaeth i ddatblygu sgiliau byw'n annibynnol, yn gweithio'n dda yn y cartref. Fe wnaethon nhw hefyd nodi bod y bobl ifanc yn gallu mynegi eu safbwyntiau a'u barn, a'u bod yn cael eu hannog a'u cefnogi gyda'u haddysg, drwy fynychu ysgolion yng Nghonwy. Fe wnaethon nhw

nodi bod yr amgylchedd cartref yn dda, ac mae yna gyfleoedd rheolaidd i gynnal gweithgareddau i bobl ifanc.

Ers yr arolygiad, cyflwynwyd nifer o welliannau a argymhellwyd yn y lleoliad, yn cynnwys cofnodi materion iechyd a diogelwch, adolygu polisïau'r cartref, a hyfforddiant staff ychwanegol i gefnogi anghenion newidiol pobl ifanc.

Arolygu Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid

Ym mis Ebrill 2021, fe gymerodd Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Conwy ran mewn arolygiad ar y cyd o wasanaethau addysg, cyflogaeth a hyfforddiant yn y Timau Troseddau Ieuenctid yng Nghymru a Lloegr. Cynhaliwyd yr arolygiad ar y cyd gan Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi, Estyn ac Ofsted, ac roedd yn cynnwys sawl Awdurdod Lleol o Loegr.

Oherwydd pandemig Covid-19, cynhaliwyd rhai arolygiadau dros y we a rhai eraill wyneb yn wyneb, os oedd y cyfyngiadau'n caniatáu hynny. Archwiliwyd achosion plant a oedd yn ymwneud â Thimau Troseddau Ieuenctid, ynghyd ag achosion a fu yn y llys ac achosion lle cafwyd datrysiad y tu allan i'r llys. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda staff, partneriaid a rhanddeiliaid, a chynhaliodd Estyn ac Ofsted gyfweiliadau gyda darparwyr addysg.

Roedd yr arolygiad yn gadarnhaol am berfformiad gweithredol Conwy, a'r gefnogaeth a'r ymgysylltiad a gafodd eu cynnig a'u derbyn gan blant a phobl ifanc. Nodwyd hefyd bod plant sy'n gweithio gyda Thimau Troseddau Ieuenctid yn derbyn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth o ansawdd da ar y cyfan. Casglwyd enghreifftiau da o arferion effeithiol ac roedd y rhain yn hawdd i'w diffinio ym mhob un o'r Timau Troseddau Ieuenctid a gafodd eu harolygu.

Yn dilyn yr arolygiad, rydym wedi rhoi argymhellion ar waith er mwyn gwella, er enghraifft ym maes arweinyddiaeth a llywodraethu a sicrhau bod gan y byrddau rheoli drosolwg gwell. Rydym hefyd yn sicrhau bod

pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael lleisio eu barn wrth lunio ein gwasanaeth drwy ymgysylltu a chymryd rhan.

Mwy na Geiriau: Darparu'r 'Cynnig Gweithredol'

Mae'r 'Cynnig Gweithredol' yn golygu darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano. Dyma ddywedodd Mark Drakeford (y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd) yn 2016:

"Sicrhau bod diogelwch, urddas a pharch siaradwyr Cymraeg wrth wraidd darparu gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd yn y Gymraeg. Nid cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a chynnal safonau proffesiynol yn unig sy'n bwysig, ond gwella ansawdd y gofal a diwallu anghenion ieithyddol pobl, yn ogystal â darparu gwasanaethau cyhoeddus da sy'n canolbwyntio ar unigolion."

Yng Nghonwy rydym yn chwarae ein rhan drwy sicrhau bod y Cynnig Gweithredol yn cael ei ymgorffori yn ein diwylliant, a sicrhau ansawdd a diogelwch ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn y sir. Mae sicrhau bod unigolion sy'n derbyn gofal a chymorth gennym ni yn gallu cyfathrebu â staff cymorth yn eu dewis iaith yn hynod bwysig.

Yn dilyn Gwiriad Sicrwydd Arolygiaeth Gofal Cymru ym Mehefin 2021, adroddwyd:

Mae'r awdurdod lleol yn rhagweithiol yn y ffordd mae'n ymdrin â 'Chynnig Gweithredol' y Gymraeg. Ar y dechrau, gofynnir am wybodaeth am iaith ddewisol yr unigolyn. Daethom ar draws asesiadau a gynhaliwyd drwy gyfrwng y Gymraeg a Saesneg i gyd-fynd â dymuniadau pobl.

Asesiad o Boblogaeth Gogledd Cymru

Mae adroddiad Asesiad o Boblogaeth Gogledd Cymru yn asesiad o anghenion gofal a chymorth y boblogaeth yng Ngogledd Cymru, yn cynnwys anghenion cymorth gofalwyr. Y bwriad oedd cael gwell

dealltwriaeth o'n poblogaeth a sut y gallai newid dros y blynyddoedd nesaf er mwyn ein cynorthwyo i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus gwell yn yr ardal. Wedi'u creu gan Gydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru, maen nhw'n adolygu ystadegau, siarad gyda chymunedau a defnyddio ystod eang o wybodaeth a gesglir gan gynghorau lleol, gwasanaethau iechyd, elusennau a sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau.

Mae'r adroddiad yn ymwneud â phlant a phobl ifanc, pobl hŷn, iechyd, anableddau corfforol a nam ar y synhwyr, anableddau dysgu, iechyd meddwl, gofalwyr, trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol, yr ystad ddiogeled, cyn-filwyr, digartrefedd ac anhwylderau ar y sbectrwm awtistig, a darparu negeseuon ac argymhellion pwysig ynghylch pob testun yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd.

Lluniwyd yr adroddiad cyfredol yn 2017, serch hynny, bydd adroddiad newydd ar gyfer 2022 yn cael ei gyhoeddi'n fuan a bydd ar gael i'w ddarllen ar [wefan y Gydweithredfa Gwelliannau](#).

Fframwaith Rheoli Perfformiad

Gweithredwyd Fframwaith Rheoli Perfformiad newydd Llywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2020, sy'n cynnwys set newydd o dargedau a mesurau perfformiad. Mae'r mesurau hyn yn tanategu pob agwedd o'r gwaith rydym yn ei wneud, drwy hysbysu ein timau rheoli o gynnydd, arferion da a thueddiadau newydd. Nid yn unig yw'r mesurau a'r targedau hyn, ar lefel leol a chenedlaethol, yn monitro perfformiad, maent hefyd yn caniatáu i ni gynllunio darpariaeth ein gwasanaethau yn y dyfodol. O ganlyniad, gallwn reoli unrhyw faterion posibl yn rhagweithiol, lliniaru yn erbyn risgiau a defnyddio'r wybodaeth i gymell ein gwasanaethau yn y dyfodol.

Safon Ansawdd 1 – Mae pawb yn bartneriaid cyfartal sydd â llais, dewis a rheolaeth dros eu bywydau ac maent yn gallu cyflawni'r hyn sydd o bwys iddyn nhw.		
Disgrifiad o'r Dangosydd Perfformiad	2020-2021	2021-2022
Cyfanswm nifer y pecynnau ail-alluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn (AD/010)	770	749
Nifer y cysylltiadau newydd i oedolion a dderbyniwyd gan wasanaethau cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn (AD/001)	5,639	5,571
Safon Ansawdd 2 – Mae arweinyddiaeth effeithiol yn amlwg ar bob lefel gyda gweithlu hynod fedrus a chymwys a gefnogir yn dda yn rhannu'r un weledigaeth yn eu gwaith.		
Nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn	113 o geisiadau swyddi gwag	258
Nifer y swyddi gwag a gafodd eu llenwi'n llwyddiannus	Ni benodwyd ar gyfer 6 swydd wag. Cafodd 4 eu llenwi gan weithwyr asiantaeth. Mae gwaith yn mynd rhagddo i recriwtio ar gyfer 40 o swyddi gwag ar hyn o bryd.	183
Safon Ansawdd 3 – Mae'r angen am ofal a chefnogaeth yn cael ei leihau a'r cynnydd o ran anghenion yn cael ei atal, tra'n sicrhau bod y canlyniadau gorau posibl yn cael eu sicrhau i bobl.		
Cyfanswm nifer y plant sy'n derbyn gofal a ddychwelodd adref yn ystod y flwyddyn (CH/045)	10	14
Nifer y plant a oedd yn derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi bod mewn tri lleoliad neu ragor yn ystod y flwyddyn (CH/043)	14	13
Cyfanswm y Cynlluniau Llwybr cychwynnol sydd i'w cwblhau yn ystod y flwyddyn (CH/049)	Nid yw'r ffigyrau ar gael	12
Safon Ansawdd 4 – Mae cadernid o fewn ein cymunedau yn cael ei hybu ac mae pobl yn cael eu cefnogi i gyflawni eu potensial drwy annog a chefnogi pobl sydd angen gofal a chefnogaeth, gan gynnwys gofalwyr, i ddysgu, datblygu a chyfrannu at gymdeithas.		
Cyfanswm nifer y plant a oedd yn derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi newid ysgol unwaith neu fwy yn ystod y flwyddyn (ac eithrio trefniadau pontio, symud sy'n gysylltiedig â mabwysiadu neu symud tŷ) (CH/044)	Nid yw'r ffigyrau ar gael	9
Safon Ansawdd 5 – Mae partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a darparu canlyniadau cynaliadwy, cwbl integredig, o ansawdd uchel i bobl.		
Cyfanswm nifer y plant gyda chynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth (CH/015)	1,014	712
Cyfanswm nifer y plant gyda chynllun gofal a chymorth ble fo anghenion yn cael eu diwallu drwy Daliad Uniongyrchol ar 31 Mawrth (CH/016)	106	60
Nifer yr oedolion gyda chynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth (AD/012)	3,026	4,336

Cyfanswm nifer yr oedolion gyda chynllun gofal a chymorth ble fo anghenion yn cael eu diwallu drwy Daliad Uniongyrchol ar 31 Mawrth (AD/013)	186	141
Safon Ansawdd 6 – Mae pobl yn cael eu hannog i gyfrannu at ddyluniad a darpariaeth eu gofal a'u cefnogaeth fel partneriaid cyfartal.		
Cyfanswm nifer y bobl sy'n gadael gofal yng nghategoriâu 2, 3 a 4 sydd wedi bod mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant am o leiaf 3 mis yn olynol yn y 12 mis ers gadael gofal (CH/054a)	17	8
Cyfanswm nifer y bobl sy'n gadael gofal yng nghategoriâu 2, 3 a 4 sydd wedi bod mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant am 3 mis yn olynol yn y 13 - 24 mis ers gadael gofal (CH/054b)	26	26
Cyfanswm nifer y bobl sy'n gadael gofal sy'n cael profiad o ddigartrefedd yn ystod y flwyddyn (fel y'i diffinnir yn Neddf Tai (Cymru) 2014) o fewn 12 mis o adael gofal (CH/052)	16	25
Safon Ansawdd 7 – Mae pobl yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod a mathau eraill o niwed.		
Cyfanswm nifer yr ymholiadau a gwblhawyd o fewn 7 niwrnod o gael gwybod am yr honiad o gamdriniaeth (AD/024)	79	114
O'r plant hynny a roddwyd ar y gofrestr amddiffyn plant yn ystod y flwyddyn, y nifer sydd wedi bod ar y gofrestr o'r blaen o dan unrhyw gategori, ar unrhyw adeg yn ystod y 12 mis diwethaf (CH/024)	9	0
Cyfnod cyfartalog o amser yr holl blant a oedd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y flwyddyn (PMC28)	247.58 diwrnod	225.45 days
Safon Ansawdd 8 – Mae pobl yn cael eu cefnogi i reoli eu lles a gwneud eu penderfyniadau deallus eu hunain fel eu bod yn gallu cyflawni eu llawn botensial a byw'n annibynnol am gyn hired â phosibl.		
Nifer y bobl ifanc sy'n gadael gofal sy'n symud i leoliad 'Pan fydda i'n Barod' (CH/055)	5	2
Cyfanswm nifer y bobl ifanc y cafodd ymgynghorydd personol ei neilltuo ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn - o fewn 3 mis os oedden nhw yng nghategori 1 neu 4, gweler y canllawiau (CH/051)	28	10

Edrych ymlaen at 2022-23 a thu hwnt

Canlyniadau prosiect yr Adolygiad Cyllid a Chomisiynu

Yn yr adroddiad hwn fe wnaethom edrych yn ôl ar waith Prosiect Trawsnewid Pobl Hŷn dros y deuddeg mis diwethaf. Un agwedd bwysig o'r prosiect oedd y gwaith ymgynghori a'r holl adborth a gawsom drwy wneud hyn.

Nodwyd hefyd y bydd y prosiect yn un o'r blaenoriaethau strategol ar gyfer Gofal Cymdeithasol dros y flwyddyn nesaf. Mae nodau'r prosiect yn ymdrin â sawl agwedd ar wella gofal yn y cartref, yn bennaf ar gyfer y defnyddiwr gwasanaeth ond hefyd er mwyn sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn gweithio mewn ffordd gydgyssylltiedig; mynd i'r afael â'r heriau recriwtio a chadw staff sy'n wynebu'r sector; a diogelu'r gwasanaeth at y dyfodol gan fod disgwyl i'r galw gynyddu.

Yn y flwyddyn nesaf byddwn yn canolbwyntio ar y newidiadau arfaethedig rydym wedi eu hamlinellu i wella'r ffordd y caiff gofal cartref ei ddarparu yng Nghonwy. Rydym ar hyn o bryd yn mynd drwy'r gwahanol gamau craffu a chymeradwyo ar gyfer y model. Mae prosesau busnes yn cael eu diweddarau a'u hail-alinio wrth baratoi, a chynhelir gwaith ymgynghori parhaus gyda gwahanol randdeiliaid. Os caiff y cynigion eu cymeradwyo, bydd cyfnod pontio graddol yn dechrau ar 1 Ebrill 2022, gan ddechrau gydag atgyfeiriadau newydd er mwyn amharu cyn lleied â phosibl ar ddinasyddion Conwy. Credwn y bydd y newidiadau hyn yn gwella ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i unigolion.

Agor ein Canolfan Seibiant newydd ar gyfer Pobl Anabl

Yn 2017 y datblygwyd y cynnig i ddatblygu'r safle yn Dinerth Road i ddarparu gwasanaeth seibiant preswyl ar gyfer pobl ag Anableddau, ochr yn ochr â Phlanhigfa well gyda Chaffi a siop.

Ers hynny, bu swyddogion yn gweithio er mwyn gwireddu'r cynlluniau, gan weithio gyda chydweithwyr ar draws y Cyngor a chyda phartneriaid yn BIPBC. Cymeradwywyd y cynlluniau a sicrhawyd y cyllid, a dechreuodd y gwaith ar y safle'r llynedd. Rydym yn disgwyl y bydd y gwaith adeiladu wedi gorffen erbyn diwedd haf 2022 ac y bydd y gwasanaethau ar gael ar y safle ym mis Tachwedd 2022.



Mae'n ddatblygiad cyffrous a fydd yn cynnig darpariaeth seibiant gyfartal ar gyfer pobl ag anableddau. Bydd hefyd yn ein galluogi i weithio gyda'r gwasanaethau lechyd er mwyn cefnogi pobl i barhau i fyw yn y gymuned ac osgoi cynyddu anghenion drwy ddarparu ymateb gofal estynedig mewn argyfwng.

Bydd y datblygiad ar y safle isaf yn ei gwneud yn bosibl i gynnig gwasanaeth gwell i bobl ag anableddau dysgu sy'n dymuno symud yn agosach at fyd cyflogaeth. Drwy lunio partneriaeth gyda menter

gymdeithasol a chyda Gwasanaeth Cyflogadwydd y Cyngor, byddwn yn cynnig cyfleoedd profiad gwaith ar gyfer pobl ag anableddau dysgu.

Bydd Planhigfa Bryn Eurn yn cynnig gwasanaeth hygyrch ar gyfer cwsmeriaid a bydd yn parhau i gynnig cyfleoedd gwaith ar gyfer pobl ag anableddau dysgu ar draws y safle newydd a Phlanhigfeydd Tan Lan. Bydd y Blanhigfa a'r caffsi/siop yn ffurfio rhan o'n llwybrau newydd i gefnogi pobl ag anableddau dysgu i symud yn agosach at gyflogaeth.



Canolfan asesu plant Bwthyn y Ddôl

Amharwyd ar gynnydd ein canolfan asesu hirddisgwyliedig i blant gan fod y cwmni adeiladu wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr ym mis Gorffennaf 2021. O ganlyniad i'r amserlenni tynn a'r risgiau uchel cysylltiedig, cymeradwyodd Cabinet yr Awdurdod Lleol gystadleuaeth fechan er mwyn canfod contractwr newydd o'r rhai a ymgeisiodd yn ein proses gaffael wreiddiol. Dim ond un cwmni a oedd mewn sefyllfa i ymgymryd â'r gwaith, sy'n gorfod cydymffurfio ag amserlenni tynn o ran gwaith trwm

ar y tir a meini prawf ariannu gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn trafod gyda Llywodraeth Cymru ynghylch cyllid ychwanegol er mwyn lliniaru'r costau a gododd gan fod y cwmni adeiladu gwreiddiol wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr. Bydd y gwaith adeiladu'n parhau drwy gydol 2022-23 felly byddwn yn eich diweddarau ar y cynnydd yn yr adroddiad blynyddol nesaf.

System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru - WCCIS

Yn adroddiad y llynedd, roedd llawer o sôn am weithredu ein system newydd i gofnodi gwybodaeth am gleientiaid, sef WCCIS. Aeth yn 'fyw' ym mis Tachwedd 2020 ac ers hynny rydym wedi canolbwyntio ar ymgorffori'r ffordd newydd o gofnodi yn ein llwyth gwaith o ddydd i ddydd ar draws y gwasanaeth a darparu hyfforddiant a chefnogaeth barhaus i'n defnyddwyr.

Beth oedd yr heriau?

Fel gydag unrhyw system TG newydd, cafwyd rhai problemau technegol, ac yn anffodus cafwyd cyfnodau hir lle bu'r system yn perfformio'n wael. Cafodd yr holl broblemau eu huwchgyfeirio at ddarparwr y system sydd, mewn cydweithrediad â'r tîm cenedlaethol, Iechyd a Gofal Digidol Cymru, wedi bod yn gweithio'n galed i'w datrys. Ers hynny, mae sefydlogrwydd a dibynadwydd y system wedi gwella.

Beth nesaf?

Rydym yn bwriadu integreiddio WCCIS gyda system amserlennu gofal a ddefnyddir yn ein Gwasanaeth Ailalluogi. Rydym yn gobeithio y byddwn yn mynd yn fyw gyda'r gwaith integreiddio hwn yn ystod y flwyddyn nesaf ar ôl cyfnod prawf.

Byddwn yn parhau i ddiweddarau WCCIS er mwyn adlewyrchu'r newid yn anghenion ein timau, unrhyw argymhellion a dderbynnir gan Arolygiaeth Gofal Cymru, a newidiadau statudol sy'n deillio o bolisi a chanllawiau Llywodraeth Cymru. Gan mai dyma'r prif adnodd gwaith ar gyfer ein

hymarferwyr gofal cymdeithasol (a rhai o'n partneriaid) rydym yn parhau i ymgysylltu ac ymrwymo i wella'u profiad o weithio gydag WCCIS a pharhau i wella'u hyder a'u sgiliau.

Datblygu safle Dinerth Road

Mae Rhaglen Datblygu Dinerth Road yn bartneriaeth rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC), Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) a Grŵp Llandrillo Menai (GLIM) sy'n cydweithio i sefydlu Cynllun Tai Gofal Ychwanegol newydd a darpariaeth iechyd a Lles ar y safle. Mae hon yn rhaglen waith gymhleth a gwnaed llawer o waith yn ystod 2021-22 i gadarnhau'r gofynion a chanfod llwybrau caffael sydd ar gael i'r Bartneriaeth er mwyn cyflawni'r datblygiad uchod. Bydd 2022-23 yn flwyddyn bwysig i'r rhaglen:

- Yn ystod Ebrill 2022, byddwn yn cwblhau'r gwaith ymgysylltu â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig er mwyn cadarnhau eu diddordeb, a deall yr hyn maen nhw'n ei deimlo am y llwybrau caffael posibl;
- Rhwng Ebrill 2022 a Hydref 2022, bydd y Tîm Prosiect yn datblygu'r Fanyleb Dechnegol fanwl a dogfennau caffael safonol er mwyn paratoi ar gyfer yr ymarfer caffael a fydd yn dechrau ym mis Ionawr 2023, yn amodol ar fesurau cymeradwyo perthnasol;
- Yn ystod misoedd cynnar yr haf, byddwn yn anelu at gwblhau prynu'r tir yn Dinerth Road gan Lywodraeth Cymru (yn amodol ar fesurau cymeradwyo perthnasol) sy'n garreg filltir bwysig i'r prosiect;
- Tua diwedd y gwanwyn/dechrau'r haf, bydd ein cydweithwyr yn BIPBC yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r gwasanaeth therapi dwys, a bydd canlyniad y gwaith hwnnw'n llywio'u hachos busnes referniw.
- Ar ôl cyflwyno Achos Busnes BIPBC ym mis Tachwedd 2022 byddwn yn gofyn am gymeradwyaeth drwy'r broses ddemocratig

i fabwysiadu'r llwybr caffael a ffefrir ar gyfer y datblygiad - disgwylir y bydd hyn yn digwydd ym mis Rhagfyr 2022;

- Yn amodol ar gael y gymeradwyaeth berthnasol ym mis Rhagfyr 2022, yna bydd y rhaglen yn dechrau'r broses gaffael, a disgwylir iddi bara rhwng 8 a 12 mis, yn dibynnu ar y llwybr caffael a ddewisir.

Byddwn yn eich diweddarau ynghylch sut mae'r rhaglen waith gyffrous hon yn datblygu yn adroddiad y flwyddyn nesaf.

Adfer ar ôl effaith pandemig Covid

Wrth i ni barhau i reoli ac ymateb i Covid-19, rydym yn sylweddoli bod angen i ni hefyd gynllunio ar gyfer "adfer", ymdrin â'r effaith ar iechyd y cyhoedd, defnyddwyr gwasanaeth, ein staff a'n partneriaid yn y sector gwirfoddol/cymunedol sydd wedi profi effaith y cyfyngiadau ac amhariadau yn ystod y pandemig; a hyn oll wrth weithio gyda chymunedau lleol i wella iechyd a lles.



Un o brif flaenoriaethau Conwy yw sicrhau buddsoddiad parhaus yn ein staff a chydweithio er mwyn gwella lles ein gweithlu. Yn yr un modd, mae canolbwyntio ar gadw'r gweithlu yn parhau i fod yn hanfodol wrth i ni symud ymlaen.

Mae ein cynlluniau ar gyfer y gweithlu'n cynnwys canolbwyntio ar:

- Iechyd a lles staff wrth i ni adfer o'r pandemig, gan ganolbwyntio'n arbennig ar yr effaith gorfforol a meddyliol ar staff, a sicrhau diogelwch a diwylliannau dysgu.
- Ffordd gytûn i ddatblygu ymhellach elfennau sy'n gysylltiedig â'r gweithlu ochr yn ochr ag adolygu pob tybiaeth sydd gennym am gynllunio'r gweithlu.
- Darparu strategaeth ar ei newydd wedd ar gyfer y gweithlu sy'n ymgorffori dysgu o'r pandemig a goblygiadau ein cynllun adfer i'r gweithlu.
- Parhau â'r gwaith i gadw staff a rhannu arfer dda ar gyfer iechyd a lles staff gyda diwylliannau diogelwch cynhwysol ar draws pob un o'n sefydliadau a'n partneriaid.
- Recriwtio a chadw staff yn ein timau gwaith cymdeithasol ar gyfer Plant a Theuluoedd, sydd wedi bod yn faes hynod o heriol dros y ddwy flynedd ddiwethaf.


Oherwydd y pandemig, bu'n rhaid meddwl yn wahanol am sut rydym yn cyflawni ein hymrwymiad i unigolion. Defnyddiwyd technoleg yn amlach nag erioed.

Mae gwasanaethau wedi ymateb i'r her ac addasu'n greadigol yn ystod pandemig Covid-19 er mwyn diogelu staff a'n dinasyddion. Mae'n bwysig ein bod yn parhau i adeiladu ar y llwyddiannau hyn.

Rydym yn dal i weld risg yn gysylltiedig â'r galw, a recriwtio a chadw'r gweithlu, ac rydym yn bwriadu adeiladu ar fanteision prosiect Doethwaith 2020 Conwy sy'n edrych ar sut mae'r Cyngor yn gweithredu nawr ac yn y dyfodol.

Y weledigaeth ar gyfer y prosiect yw:

- Gweithio tuag at ffyrdd newydd, mwy cynhyrchol o weithio sy'n creu cyfleoedd a chanlyniadau gwell i bawb.
- Cydbwyso'r weledigaeth uchod yn erbyn yr angen am adferiad cymdeithasol ac economaidd, tra'n rheoli'r risg.
- Adeiladu ar y ffyrdd newydd o weithio a ddaeth yn amlwg yn ystod y cyfnod clo, a sicrhau bod y rhain yn parhau ar sail mwy hirdymor.
- Ceisio gwneud pethau'n wahanol yn y dyfodol i gefnogi lleihau carbon, lles staff, darparu gwasanaeth i'r bobl rydym yn eu cefnogi a'n heffeithlonrwydd fel adran (ac fel sefydliad ehangach).



Oherwydd y pwysau a ddaeth yn sgil pandemig Covid-19 a'r argyfwng recriwtio, rydym hefyd yn gorfod mynd i'r afael â'r llwyth gwaith sydd nawr yn wynebu ein staff. Byddwn yn parhau i gydweithio ar fesurau cadw staff, rhannu arfer dda ac uwchsgilio ein staff i hybu iechyd a lles gyda diwylliant diogelwch ar draws ein holl sefydliadau a phartneriaid. Mae angen i ni:

- Sicrhau bod gennym weithlu digon mawr, medrus, diogel, sydd â ffocws i hybu lles pobl
- Datblygu a rhoi cynllun ar waith i ddenu, recriwtio a chadw gweithlu gofal cymdeithasol
- Cefnogi cynlluniau adfer gofal cymdeithasol
- Ymgorffori'r gwersi a ddysgwyd am ffyrdd newydd o weithio er mwyn llunio, datblygu a gweithredu fframweithiau ansawdd ar gyfer timau

Fel rhan o'i gynnig i staff, mae Conwy eisoes yn darparu gwasanaeth cwnsela yn rhad ac am ddim i gynnig cefnogaeth gydag unrhyw waith neu faterion personol. Mae cyfres o dudalennau gwe sy'n llawn gwybodaeth am destunau megis rheoli straen, cefnogi unigolion drwy gyfnod o newid, cyngor am gam-drin alcohol a sylweddau ac iechyd meddwl bob amser o fewn ambell glic i bob gweithiwr. Ym mis Chwefror 2022 fe wnaethom gymryd rhan yng nghynllun Amser i Siarad, gyda chyfres o weithgareddau, gwybodaeth a sesiynau sgwrsio, a phob un yn anelu at wella ein hiechyd meddwl. Roedd y diwrnod llawn yn cynnwys sesiynau am chwalu'r mythau sy'n ymwneud ag iechyd meddwl, manteision cerdded yng nghefn gwlad, cyfleoedd gwirfoddoli, darllen er lles iechyd meddwl a sesiynau codi ymwybyddiaeth am y menopos.

Mae cyfleoedd rheolaidd i drafod gyda rheolwyr llinell ynghylch ymrwymadau gwaith a chartref yn sicrhau y gallir cefnogi problemau a'u datrys mewn diwylliant o fod yn agored a dangos parch at ein gilydd.



Manteisio ar ragor o wybodaeth a dogfennau allweddol

Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr (blynyddoedd blaenorol)
<https://adroddiadblynyddolgwasanaethaucymdeithasolconwy.org.uk/>

Cynllun Corfforaethol 2017-2022
<https://www.conwy.gov.uk/cy/Council/Strategies-Plans-and-Policies/Corporate-Plan/Corporate-Plan-2017-2022.aspx>

Sut rydym yn comisiynu gwasanaethau
<https://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Social-Care-and-Wellbeing/Policies-Plans-and-Reports/How-we-Commission-Services.aspx>

Arolygiaeth Gofal Cymru
https://arolygiaethgofal.cymru/?_ga=2.6018548.699106445.1656325246-731897169.1654096047

Gofal Cymdeithasol Cymru
<https://gofalcymdeithasol.cymru/>

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
https://llyw.cymru/llesiant-cenedlaethau-dyfodol-cymru?_ga=2.174495714.1916243983.1656324690-699730886.1649247959

Canolfannau Teulu Conwy
<https://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Social-Care-and-Wellbeing/Children-and-families/Conwy-Family-Centres/Conwy-Family-Centres.aspx>

Polisi Diogelu Corfforaethol
<https://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Social-Care-and-Wellbeing/Im-worried-about-somebody/Corporate-Safeguarding-Policy.aspx>

Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru
<https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/>

Mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol: cod ymarfer
https://llyw.cymru/mesur-perfformiad-gwasanaethau-cymdeithasol-cod-ymarfer?_ga=2.161331325.1916243983.1656324690-699730886.1649247959

Gweithdrefnau Diogelu Cymru
<https://www.diogelu.cymru/>

Cymru Iachach
https://llyw.cymru/cymru-iachach-cynllun-hirdymor-ar-gyfer-iechyd-gofal-cymdeithasol?_ga=2.103707840.1916243983.1656324690-699730886.1649247959



Pryderon am unigolyn

Os ydych chi'n gwybod am oedolyn sydd mewn perygl o gamdriniaeth neu sy'n cael ei gam-drin, mae'n bwysig iawn eich bod yn rhoi gwybod i'r Cyngor neu i'r Heddlu.

Os bydd yr unigolyn mewn perygl fwy neu lai ar unwaith, ffoniwch yr heddlu'n syth ar 999. Os nad yw mewn perygl ar unwaith, ffoniwch y Gwasanaethau Cymdeithasol cyn gynted â phosibl i rannu eich pryderon.

Rhoi gwybod am oedolyn mewn perygl

Rhif ffôn: 0300 456 1111

Ffôn y tu allan i oriau arferol: 0300 123 3079

E-bost: lles@conwy.gov.uk

Ewch i'n gwefan: [Rhoi gwybod am oedolyn mewn perygl](#)

Rhoi gwybod am blentyn mewn perygl

Os hoffech chi wneud ymholiad, neu os ydych chi'n bryderus am ddiogelwch plentyn, cysylltwch â ni:

Rhif ffôn: 01492 575 111

Ffôn y tu allan i oriau arferol: 0300 123 3079

Ewch i'n gwefan: [Rhoi gwybod am blentyn mewn perygl](#)

